Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 27ain Tachwedd, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |

| | |
|---|---|
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 TACHWEDD | | | 3 - 8 |
| 6 | ADNODDAU CYDLYNYDD STRATEGAETH IAITH UWCHRADD GWYNEDD | Cyng, Gareth Thomas | Debbie Jones | 9 - 16 |
| 7 | DATGANIAD O EFFAITH LLEOL YN SGIL DATBLYGU GORSAF BWER NIWCLEAR NEWYDD, WYLFA NEWYDD | Cyng. Dafydd Meurig | Gareth Jones | 17 - 73 |
| 8 | CYNLLUN Y CYNGOR 2018-2023 - CAIS AM ADNODDAU PARHAOL I STAFFIO UNED DEMENTIA NEWYDD YN LLYS CADFAN, PLAS HAFAN, PLAS HEDD A BRYN BLODAU | Cyng. W Gareth Roberts | Aled Davies | 74 - 78 |
| 9 | SEFYDLU CYFUNDREFN AR GYFER YMDRIN A SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR FEL CORFF CYMERADWYO CEISIADAU SAFONNAU CENEDLAETHOL DRAENIO CYNALADWY | Cyng. Gareth Griffith | Emlyn Jones | 79 - 84 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 6 TACHWEDD 2018**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W Gareth Roberts a Gareth Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Eraill a wahoddwyd:** Cyng. Elin Walker Jones (Aelod Lleol - Bangor Glyder) a'r Cynghorydd Gareth A Roberts (Aelod - Bangor Dewi)

Eitem 6: Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Gwynedd), Dafydd Gibbard (Uwch Rheolwr Eiddo Corfforaethol)
Eitem 7: Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi ac Adfywio)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Aelod Cabinet Cyng. Ioan Thomas.
Dymunwyd adferiad buan i wraig y Cynghorydd yn dilyn llaw driniaeth.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Elin Walker Jones oherwydd ei bod yn Lywodraethwraig yn Ysgol y Garnedd, ond nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR 2 ac 16 o HYDREF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 2il o Hydref a'r 16eg o Hydref 2018, fel rhai cywir

**6. AD-DREFNU YSGOLION BANGOR**

**PENDERFYNWYD**

Gweithredu ar y cynnig a gyhoeddwyd 4 Medi 2018 i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coed Mawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420 yn weithredol 1 Medi 2020.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

Yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru bod cyfle i Awdurdodau Lleol gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, llwyddodd Gwynedd i sicrhau bid i ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet (Ionawr 2017) a chymeradwywyd yr argymhelliad i gynnal trafodaethau lleol yn unol â'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor. Ym Mehefin 2017, sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch Bangor i drafod y nifer o opsiynau fyddai'n gwella a chynnal safon addysg. Cyflwynwyd yr opsiynau i'r Cabinet ym Mawrth 2018 a chymeradwywyd yr argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y broses o adrefnu'r ysgolion cynradd. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol a derbyniwyd 68 ymateb a chyflwynwyd prif sylwadau'r ymgynghoriad hwnnw i'r Cabinet yng Ngorffennaf 2018. Penderfyniad y Cabinet yn y cyfarfod hwnnw oedd

*Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coed Mawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.*

*Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*

Yn dilyn y penderfyniad, cyhoeddwyd, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol 2013, rybudd statudol ar y 4ydd o Fedi 2018 ac fe gynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol ar y cynnig (rhwng 4/9/18 a 2/10/18).

Amlygwyd bod un gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu oedd yn ymwneud a materion trafnidiaeth, diogelwch plant, cyllid, addysg ag y Gymraeg. Ategwyd bod un ohebiaeth wedi cyrraedd yn hwyr yn y dydd a bod angen cyfarch yr ohebiaeth hynny fel rhan o'r trafodaethau.

Gwnaed cais i'r Cabinet gefnogi'r cynnig fyddai yn gwella adnoddau addysg yn sylweddol i blant Ysgol y Garnedd ynghyd a phlant Ysgolion Glan Adda a Coed Mawr.

Trafodwyd y gwrthwynebiadau.

Mewn ymateb i bryderon yn ymwneud a thraffig ar Ffordd Penrhos nododd Uwch Reolwr Eiddo (Corfforaethol) bod pob ymgais wedi ei wneud i geisio lliniaru'r sefyllfa sydd yn creu trafferthion yn yr ardal yn ystod y boreau a'r prynhawniau. Nododd bod 30 lle parcio ychwanegol wedi ei gynllunio ar gyfer parcio staff ac ymwelwyr ynghyd a man gollwng fyddai yn cael ei reoli oddi ar y brif-ffordd.

Amlygwyd bod cais cynllunio ar gyfer y datblygiad wedi ei gymeradwyo ym Mhwyllgor Cynllunio 5.11.18 gyda phryderon trafnidiaeth wedi eu trafod. Nodwyd bod yr Adran Trafnidiaeth yn hapus gyda'r cyfuniad newydd o addasiadau fyddai yn cyfarch y problemau.

Mewn ymateb i bryderon trafnidiaeth yn ystod y cyfnod adeiladu amlygwyd bod pob ymgais yn cael ei wneud i leihau unrhyw anghydfod i drigolion lleol. Ategwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r trigolion a bod ychydig o addasiadau

wedi ei wneud i'r cynlluniau. Nodwyd bod cynllun rheolaeth traffig wedi ei lunio byddai'n parchu ystyriaethau trigolion lleol.

Awgrymwyd y gellid ystyried amseroedd agor a chau'r pum ysgol sydd yn yr ardal, fyddai'n lleihau dwysedd traffig. Mater i'r ysgolion eu hunain fydd penderfynu hyn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â llwybrau cerdded, amlygwyd bod asesiad wedi ei wneud i ganfod cartrefi'r disgyblion, ac o ganlyniad bod y prif lwybrau cerdded yn cyrraedd yr ysgol o dri chyfeiriad gwahanol. Er nad oedd unrhyw fwriad newid y llwybrau, nodwyd y byddai gwaith yn cael ei wneud i hyrwyddo diogelwch ffyrdd gyda'r plant.

Er yr ymateb, nododd Aelod Ward Dewi bod sôn am gau un o'r llwybrau am ddwy flynedd wedi creu pryderon chwyrn ymysg trigolion lleol. Ymatebodd yr Uwch Reolwr drwy nodi bod trefniadau i gau rhai o'r llwybrau dros dro (am oddeutu 8 wythnos), ond hefyd roedd yn barod i drafod y mater gyda'r Aelod.

Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Aelod Lleol Ward Glyder y prif bwyntiau canlynol:

- Ei bod yn gwbl gefnogol i'r ysgol newydd. Ategodd bod angen dybryd am adeilad newydd a'i bod yn hapus iawn gyda'r dyluniad.
- Croesawodd sylwadau'r Uwch Reolwr Eiddo am bryderon y llwybrau cyhoeddus a'i barodrwydd i gynnal trafodaethau lleol.
- Tynnwyd sylw at drigolion Rhodfa Penrhos oedd wedi talu am wyneb newydd i'r rhodfa gan nad yw'r ffordd wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor. Dymunodd yr Aelod Lleol weld bod y trigolion hyn yn cael eu digolledu yn llawn petai unrhyw ddifrod i'r rhodfa yn ystod y cyfnod datblygu.
- Bod modd ystyried cadw Ysgol Glan Adda yn agored oherwydd bod cynnydd yn y niferoedd a'r ysgol o dan arweinyddiaeth newydd.
- Bod rhieni Ysgol y Garnedd wedi dewis addysg Gymraeg i'w plant. Ategodd bod ethos arbennig gan yr ysgol a bod angen ymrwymiad a chefnogaeth y Cyngor i warchod Cymreictod yr ysgol.
- Ei bod yn gefnogol i'r cynllun, bod y cyfnod yn un cyffrous a bod modd datrys rhwystrau ar y cyd.

Mewn ymateb i sylw am warchod y Gymraeg, amlygodd Aelod Cabinet Addysg, bod pob ysgol yng Ngwynedd gyda'r un polisi iaith. Gyda chryfder yr iaith yn Ysgol y Garnedd, nodwyd bod cyfle i gryfhau Cymreictod Bangor a bod defnydd o'r Siarter Iaith yn adnodd ychwanegol fyddai'n sicrhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Ategodd y Swyddog Ardal mai rhesymol fyddai disgwyl gweld mwy o siaradwyr di Gymraeg yn yr ysgol a derbyniwyd bod gwaith cefnogol i'w wneud yn y tymor byr. Er hynny, adroddwyd bod nifer o blant di-gymraeg eisoes wedi mynychu Ysgol y Garnedd ac wedi llwyddo.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chadw Ysgol Glan Adda yn agored, amlygodd y Swyddog Ardal bod sefyllfa ariannol y ddwy ysgol yn fregus ac er bod yr ysgol yn ymddangos yn llawn nid yw'r sefyllfa yn ddelfrydol nac yn gynaliadwy.

Mewn ymateb i'r ohebiaeth hwyr a dderbyniwyd oedd yn amlygu pryder nad oedd ymateb digon ffeithiol wedi cael ei gyflwyno i'r pryderon ieithyddol, nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod asesiad ieithyddol wedi ei weithredu fel rhan o'r broses. Ategodd y dylai pob plentyn cael cyfle cyfartal a ni ddylai plant Cymraeg gael eu cadw arwahan. Ni ddylid amddifadu unrhyw blentyn rhag cael mynediad i adeilad ac adnodd newydd ac ni ddylid gwahaniaethu rhwng plant ar unrhyw sail.

Atgoffwyd yr aelodau bod y cynnig yn ganlyniad i gyfnod hir o gynllunio o fewn amserlen dynn ac y byddai unrhyw oediad ar y penderfyniad yn amharu ar gyfnod rhyddhau'r arian. Ategwyd bod camau statudol wedi eu cwblhau a phetai angen ymgynghori ar opsiwn arall byddai rhaid ail ddechrau'r broses.

## 7. RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO: CYNLLUN ADFYWIO CANOL DINAS BANGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

a) Cefnogi'r bwriad o dargedu Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau o fewn Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor

b) Ymrwymo, mewn egwyddor, £250k o'r Gronfa Cydariannu a sefydlwyd i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni ariannol allanol ond gofyn am adroddiad pellach ar y Cynllun terfynol er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag amcanion y Cyngor ac yn cynrychioli gwerth am arian.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Reolwr Economi a Chymuned a rhoddwyd crynodeb o gyd-destun a chefndir y rhaglen oedd yn rhagweld hyd at £22m o gyllideb cyfalaf ar gyfer Gogledd Cymru rhwng 2018 - 2021.

Adroddwyd bod data Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru sydd yn defnyddio methodoleg clwstwr wedi ei ddefnyddio ar gyfer adnabod yr ardaloedd (trefi) hynny gyda chanran uchaf o'r boblogaeth sydd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. O safbwynt blaenoriaethau'r rhaglen TRI dros y cyfnod 2018 - 2021 blaenoriaethwyd prosiectau adfywio canol tref ar gyfer 4 lleoliad - Rhyl, Bae Colwyn Wrecsam a Bangor.

Pwysleisiwyd mai dyraniadau ariannol tybiannol oedd wedi eu cynnig ac y byddai unrhyw ymrwymiad ariannol yn ddibynnol ar gyflwyno Cynlluniau Prosiect fyddai'n cwrdd â gofynion Rhaglen TRI. Nodwyd bod dyraniad rhanbarthol tybiannol Rhaglen TRI yng Ngwynedd yn cynnwys £3m ar gyfer Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor, ynghyd a thua £1.5m ar gyfer thema tai (adnewyddu adeiladau gwag) fyddai yn cyfrannu at flaenoriaethu'r Strategaeth Ranbarthol (a gymeradwywyd gan y Cabinet 22.5.2018).

Nodwyd bod Partneriaeth Strategol Dinas Bangor wedi llunio strategaeth Adfywio ar gyfer y Ddinas ac adolygwyd y rhaglen waith yn ystod yr Haf eleni gan gadarnhau blaenoriaethau fyddai yn cyfrannu at brif amcanion a chanllawiau Rhaglen TRI. Cyfeiriwyd at y cynlluniau yn yr adroddiad a mynegwyd bod angen gwaith rhagbaratoi pellach i ddatblygu cynigion manwl. Amlygwyd bod modd cyflwyno ceisiadau am yr arian ar sail prosiectau unigol yn hytrach nag fel un pecyn llawn.

O ran ystyriaethau ariannol, atgoffwyd yr aelodau mai cyllideb cyfalaf oedd yn cael ei ddarparu drwy'r Rhaglen TRI ac uchafswm ymyrraeth Llywodraeth Cymru fesul prosiect fyddai 70%. Golygai hyn y byddai angen sicrhau o leiaf 30% o arian cyfatebol. Er y byddai cydweithio gyda phartneriaethau yn nodwedd amlwg ymhob un o'r prosiectau, y corff arweiniol fyddai'n gyfrifol am ddatblygu manylion y prosiect ynghyd a'r pecyn ariannu arfaethedig a'r arian cyfatebol. Amlygwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain ar dri o'r prosiectau gyda'r bwriad o gyfrannu / ryddhau £250k o'r Gronfa Cydariannu i gwrdd â'r bwlch ariannol. Ategwyd bod Partneriaethau megis BIPBC, Prifysgol Bangor a CCG yn dymuno arwain / cyfrannu ar brosiectau eraill.

Mewn ymateb i'r cyflwyniad, nodwyd nad oedd cyfyngiad gwariant yr arian yn addas a bod angen yr arian ar draws y Sir. Awgrymwyd bod hyn yn esiampl arall o arian Llywodraeth Cymru yn cael ei ddosbarthu ar lefel rhanbarthol ac yna yn cael ei gyfyngu gan ganllawiau tynn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â llwyddiant tebygol y gwariant, nodwyd nad oedd yr adnoddau yn debygol o fod yn ddigonol i adfywio canol Dinas Bangor mewn tair blynedd. Ategwyd bod y weledigaeth wedi ei sefydlu a bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud i geisio cyfarch nodweddion y weledigaeth hynny. Prif bwyslais y rhaglen yw newid swyddogaeth canol y Ddinas sydd yn weledigaeth 10 - 20 mlynedd, ond bod y rhaglen yma yn gosod sylfaen i hynny. Ategwyd bod cyfle yma i fod yn arloesol, i gysylltu cyfleoedd a gwella'r ddarpariaeth gymunedol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r amserlen ariannol nodwyd nad oedd gwariant wedi cael ei ystyried ar gyfer blwyddyn 1 ac felly nid oedd risg o golli arian.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â rhannu adborth gyda Chyngor Dinas Bangor, nodwyd mai Maer y Ddinas oedd Cadeirydd y Bartneriaeth a bod hyn yn cryfhau'r elfen gyfathrebu .

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- Cyfyngu ar ardaloedd sydd yn cael eu dethol gan y Llywodraeth. Posibilrwydd o gael ein dallu gan addewidion gyda disgwyliad o gyfraniad 'hael' gan y Cyngor i wireddu'r cynlluniau
- Bydd rhaid i'r cyfraniad fod o fudd i Fangor – rhaid gwario yn gall
- Llywodraeth Cymru yn torri cyllidebau, ond eto yn disgwyl cyfraniadau a chefnogaeth ar ymrwymiad i raglenni sydd yn cael eu harwain gan y Llywodraeth.
- Bod angen i'r Cabinet gael cyfle i weld y cynlluniau unigol cyn iddynt gael eu cyflwyno - yr adroddiad yn gynamserol
- Bod angen cynllunio ar gyfer y dyfodol ac ar gyfer yr hyn mae trigolion lleol

ei angen

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:20pm

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **27 Tachwedd 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Debbie Anne Williams Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32489** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adnoddau Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

(a) I ymrwymo £20,000 o gyllid o rŵan hyd at ddiwedd Mawrth 2019 o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd. Bydd y swydd yn gyfrwng i wireddu un o'r ymrwymiadau yng Nghynllun y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

(b) I ddychwelyd gerbron y Cabinet gyda chais am adnoddau pellach i ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd o 2019/20 ymlaen, pe na fyddai'r trafodaethau gyda'r consortia rhanbarthol (GwE) i gyllido'r swydd i'r dyfodol yn profi'n llwyddiannus.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae gwireddu gweledigaeth ac amcanion Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2018-23.

Mae llunio a gweithredu gofynion y Strategaeth Iaith Uwchradd yn ymateb yn uniongyrchol i'r galw ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd ag aelodau etholedig i weld dilyniant i'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, gan sicrhau cynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd pobl ifanc o'r Gymraeg.

Daethpwyd gerbron y Cabinet flwyddyn yn ôl yn gofyn am ymrwymiad o adnoddau ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth, gan allu darparu cefnogaeth arbenigol i ysgolion uwchradd y sir dros gyfnod.

Roedd y cais am adnoddau ychwanegol wedi ei sylfaenu ar yr un ymrwymiad o

adnoddau ac a roddwyd i sefydlu'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, drwy ariannu swydd Cydlynydd dros gyfnod o dair blynedd.

Ymateb y Cabinet ar y pryd oedd i'r Cynghorwyr Mair Rowlands a Gareth Thomas ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ddarparu'r £120,000 (£40,000 y flwyddyn am dair blynedd 2018/19 – 2020/21) er mwyn ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd i arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Yn sgil ymateb y Cabinet, bu gohebu gydag Eluned Morgan AC Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, yn gofyn am gefnogaeth ariannol i gefnogi'r Strategaeth Iaith Uwchradd drwy swydd y Cydlynydd. Yn sgil yr ohebiaeth, fe'n cyfeiriwyd gan Lywodraeth Cymru at y consortia rhanbarthol (GwE), ond yn dilyn trafodaeth, deallir na fyddai modd i'r consortia gyllido'r swydd Cydlynydd yn ystod 2018/19.
(Gweler copi o'r ohebiaeth yn Atodiad Un).

## 3 CYFLWYNIAD

Pwrpas y prosiect hwn yng Nghynllun y Cyngor yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant prosiect arloesol y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd, ac sydd bellach wedi cael ei ledaenu yn genedlaethol. Ar gais Llywodraeth Cymru, yn dilyn adroddiadau cadarnhaol am lwyddiant y Siarter yng Ngwynedd, gofynnwyd i gael defnyddio arbenigedd ac arferion da Gwynedd er mwyn ymestyn y prosiect i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith Cynradd, a pharhau i wella sgiliau iaith Gymraeg ein pobl ifanc, datblygwyd y Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn rhoi arweiniad clir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc yn yr uwchradd.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y Gymraeg ac Addysg, ac yn cwmpasu elfennau cwricwlaidd yn ogystal â defnydd cymdeithasol o'r iaith. Mae pedwar prif faes y mae'r Strategaeth yn ceisio ymateb iddynt:

- Cymraeg Iaith Gyntaf
- Cymraeg Ail Iaith
- Y Gymraeg fel cyfrwng
- Defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg

Ers Ebrill 2017, penodwyd Cydlynydd, ar secondiad o'r Ganolfan Iaith Uwchradd ym Mhorthmadog - person oedd yn meddu ar arbenigedd ac hygrededd ymysg penaethiaid yr ysgolion uwchradd, gan allu dwyn perswâd a'u herio'n briodol - i arwain y Strategaeth Iaith Uwchradd.

Ers penodi'r Cydlynydd, cyflawnwyd y canlynol:

- llunio'r Strategaeth Iaith Uwchradd ar y cyd gyda gweithgor o blith

penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd;

- cynllun gweithredu unigryw wedi eu llunio gan bob ysgol uwchradd mewn ymateb i amcanion y Strategaeth Iaith,
- cyfarfodydd a thrafodaethau rhwng y Cydlynydd a staff nifer o'r ysgolion uwchradd wedi eu cynnal;
- partneriaeth o'r newydd wedi ei sefydlu efo hunaniaith er mwyn ymateb yn benodol i ddwy amcan yn y strategaeth, sef:
  - pobl ifanc
  - yr ysgol a'r gymuned.

Daeth cyflogaeth y Cydlynydd i ben ar 31 Awst 2018, yn dilyn iddi dderbyn swydd gyda'r consortia rhanbarthol GwE.

O ganlyniad, ers Hydref 2018, mae Cydlynydd newydd wedi ei phenodi, fydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r elfennau canlynol:

- Cefnogi ymhellach yr 14 ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog
- Hyrwyddo ymhellach gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau hyfedr yn y ddwy iaith
- Llunio a gweithredu trefniadau monitro effeithiol o weithrediad y strategaeth.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Byddai derbyn y cyllid ychwanegol gan y Cyngor yn caniatáu parhad a dilyniant cadarn i'r prosiect drwy swydd y Cydlynydd, ac yn sicrhau bod Gwynedd yn parhau i arwain ar waith arloesol ar draws y Gogledd ac yn genedlaethol.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

O dderbyn penderfyniad y Cabinet i gyllido swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd, bydd pob ysgol uwchradd yn derbyn arweiniad a chefnogaeth briodol i weithredu'r gofynion gan arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd pobl ifanc o'r Gymraeg.

Pe na bai'r trafodaethau gyda'r consortia rhanbarthol (GwE) yn esgor ar gefnogaeth ariannol i'r swydd Cydlynydd o 2019/20 ymlaen, gofynnir i gael dychwelyd gerbron y Cabinet gyda chais am adnoddau pellach i barhau i ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Amherthnasol

**6.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
"Gan nad yw Llywodraeth Cymru, na'r Consortiwm Rhanbarthol wedi rhyddhau cyllid i gyflawni'r swydd Cydlynydd Uwchradd, gofynnir am adnoddau o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor. Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y gronfa hon, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau perthnasol."

**Aelod Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Member for Education**
Cynghorydd/Councillor Gareth Thomas
Gofynnwch am/Ask for: **Gareth Thomas**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref:
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
Cynghorydd.GarethThomas@gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

Annwyl Eluned Morgan AC,

**Parthed: Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd**

Mae Cyngor Gwynedd yn gorff sydd wedi cymryd ei ddyletswydd o hyrwyddo'r Gymraeg o ddifrif ers tro byd, a thrwy ei weinyddiaeth fewnol y mae'n galluogi holl staff y Cyngor i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl naturiol, gan feithrin sgiliau llafar, darllen a deall, ac ysgrifennu yn yr iaith yn ddyddiol.

At hyn, drwy gyfrwng ei bolisi iaith, y mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i'r Cyngor; gyda phartneriaid ac yn gymunedol. Yn sgil yr ymrwymiad hwn, a chadernid y Gymraeg yn nifer o gymunedau'r sir, y Cyngor hefyd yw corff arweiniol hunan**iaith**, sef yr hyn a adwaenir fel y Fenter Iaith yng Ngwynedd.

At hyn, y Cyngor mewn partneriaeth gyda hunan**iaith**, fu'n gyfrifol am ddatblygu'r Siarter Iaith ar gyfer ysgolion cynradd y sir, er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, ers lansio'r Siarter Iaith yng Ngwynedd ym mis Mehefin 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd diddordeb mawr yn y gwaith arloesol a oedd yn mynd rhagddo yma, a'r effaith cadarnhaol yr oedd y Siarter yn ei gael ar ddefnydd plant o'r Gymraeg. Yn sgil hynny, bellach, mae'r Siarter Iaith wedi ei ledaenu'n rhanbarthol a chenedlaethol, ac fe'i cyllidir bellach gan Lywodraeth Cymru drwy'r pedwar consortia addysg.

Mae Gwynedd nawr yn edrych ar y sector uwchradd, er mwyn sicrhau dilyniant priodol i lwyddiannau'r Siarter yn y cynradd. Ar 26 Hydref 2017, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd fabwysiadu Strategaeth Iaith Uwchradd ar gyfer y sir, ac amgaeaf gopi o'r ddogfen er eich sylw. Y mae'r Cyngor hefyd wedi creu swydd Cydlynydd fel adnodd i gefnogi a herio ein hysgolion uwchradd i gyflawni'r nod. Yr her, mewn cyfnod o gyni ariannol di-gynsail i Awdurdodau Lleol yw sicrhau cefnogaeth ariannol i barhad y Cydlynydd fel adnodd allweddol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

Hoffwn felly, ar sail llwyddiant Gwynedd gyda'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, i Lywodraeth Cymru ystyried rhoi cefnogaeth ariannol i alluogi Gwynedd i arloesi unwaith yn rhagor yn y maes o gefnogi defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd. Byddai'r gefnogaeth ariannol o £120,000, yn ein galluogi i gyflogi Cydlynydd ar gyfer y Strategaeth Iaith Uwchradd am gyfnod o dair blynedd. Ystyrir y cyfnod hwn yn rhesymol o safbwynt treialu, arloesi a phrofi gwerth y buddsoddiad ar ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol. Yn dilyn hynny, byddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa gref i ystyried pa mor briodol fyddai hi i ledaenu'r cynllun hwn ar gyfer y sector uwchradd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Y mae ymdrechion Gwynedd i gefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg hefyd wrth gwrs yn cefnogi ac yn cyfrannu tuag at weledigaeth y Llywodraeth fel yr amlinellir yn *Cymraeg 2050*. At hyn, mae'r amrywiaeth a geir yn sefyllfa'r Gymraeg o fewn Gwynedd yn adlewyrchu'r ystod amrywiaeth a


Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

geir mewn cymunedau mor amrywiol a Llanrug ac Aberdyfi, yn golygu fod Gwynedd mewn lle da i dreialu ac arloesi ym maes cynllunio ieithyddol. Os hoffech wybod mwy am yr hyn a gyflawnir yng Ngwynedd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, byddwn yn barod iawn i'ch croesawu chi yma, ac i'ch tywys o gwmpas rhai o'n hysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn i chi weld y cynlluniau ar waith.

Yn y cyfamser, hyderaf y byddwch yn rhoddi ystyriaeth briodol i'n cais am gefnogaeth ariannol i wireddu ein gweledigaeth gytûn o bobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yn gywir,

Gareth Thomas
Aelod Cabinet dros Addysg

**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref GT/AS
Ein cyf/Our ref EM/00115/18

Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc
Cyngor Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cynghorydd.GarethThomas@gwynedd.llyw.cymru

27 Chwefror 2018

Annwyl Cynghorydd Thomas

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror ynghylch Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd. Roeddwn yn falch o ddarllen ynglŷn â'r sylw y mae Cyngor Gwynedd yn ei roi i'r maes pwysig hwn. Fel y cyfeiriwch yn eich llythyr mae'r gwaith yn y maes hwn yn allweddol er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr fel yr amlinellir yn strategaeth Cymraeg 2050, ac mae gan Gyngor Gwynedd rôl pwysig i'w chwarae, fel pob awdurdod lleol, wrth i ni geisio cyrraedd y nod.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cefnogaeth ariannol i Gyngor Gwynedd yn flynyddol ers sefydlu'r Siarter Iaith, drwy prif grant Hunaniaith yn y lle cyntaf, ac yn fwy diweddar drwy'r adran addysg er mwyn cefnogi'r gwaith ehangach o ledaenu'r Siarter ar draws rhanbarth y gogledd a'r rhanbarthau eraill.

Rydym hefyd yn falch o allu cefnogi ysgolion uwchradd Gwynedd yn ariannol drwy'r prosiect cefnogi arferion iaith ers dwy flynedd fel rhan o'r grant ar draws rhanbarth y gogledd.

Fel y byddwch yn ymwybodol, ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-21, sy'n gosod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â'r weledigaeth yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cynllun, amlinellir y bwriad i adeiladu ar y Siarter Iaith Gymraeg a'r Pecyn Cymorth Defnydd Iaith uwchradd i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer pob lleoliad ysgol i ddarparu sail ysgol gyfan ar gyfer cynllunio a chynnig cyfleoedd i gynyddu defnydd ehangach dysgwyr o'r Gymraeg a gwreiddio arferion defnydd iaith.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i osod y fframwaith honno mewn lle o fis Medi 2018 ymlaen, a bydd pob ysgol, waeth beth fo'i chategori ieithyddol yn gweithio o fewn yr un fframwaith er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg;
- yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith, ac
- yn cynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor cenedlaethol o gynrychiolwyr o'r pedair rhanbarth i lywio datblygiad y fframwaith genedlaethol. Rydym yn gwerthfawrogi mewnbwn swyddogion Cyngor Gwynedd i'r trafodaethau hynny, a'r gwaith y mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud yn cynrychioli rhanbarth y gogledd yn ei rôl fel cadeirydd rhwydwaith y Gymraeg o fewn rhanbarth GWE. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y datblygiadau yn rheolaidd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, ac yn barod iawn i gyfarfod â chi i drafod unrhyw agwedd ar y gwaith.

Fel y cyfeiriwch yn eich llythyr, mae'r stwythur o ariannu'r Siarter Iaith a'r gwaith o fewn ysgolion uwchradd bellach wedi symud i drefn rhanbarthol, ac yn cael ei sianelu drwy'r pedwar consortiwm addysg. Bydd ein strwythur ar gyfer dyfarnu cyllid yn y maes hwn yn parhau drwy'r consortia rhanbarthol dros y cyfnod nesaf, a mater i rwydwaith y Gymraeg rhanbarth GWE fydd penderfynu sut i ddyrannu'r cyllid i lefel awdurdodau lleol i weithredu'r Siarter Iaith, a chynlluniau eraill i gefnogi datblygiad y Gymraeg mewn addysg.

Edrychaf ymlaen at weld y gwaith yn y maes hwn yn mynd o nerth i nerth wrth i ni weithio ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i symud y maes yn ei flaen, er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau posib i'n plant a'n pobl ifanc wreiddio eu harferion iaith a bod yn hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **27 Tachwedd 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gareth Jones, Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **34092** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Datganiad o effaith lleol yn sgil datblygiad gorsaf bŵer niwclear newydd, Wylfa Newydd, Ynys Môn.** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Fod y Cabinet yn cymeradwyo'r datganiad o effaith lleol drafft yn Atodiad 1.

1.2 Fod y Cabinet yn dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd, i wneud man addasiadau a chywiriadau fel bod angen i'r datganiad drafft ac i ychwanegu tystiolaeth berthnasol i gefnogi cyfeiriad y datganiad drafft, cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn y 4 Rhagfyr 2018.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Ar y 1 Mehefin 2018 cyflwynodd cwmni Pŵer Niwclear Horizon (PNH) gais ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i'r Ysgrifennydd Gwladol (drwy'r Arolygiaeth Gynllunio), am orsaf pŵer niwclear newydd i ddatblygu prosiect Wylfa Newydd.

2.2 Yn unol â threfniadau statudol, rhoddwyd 28 diwrnod i'r Arolygiaeth Gynllunio i wirio'r cais er mwyn sicrhau fod yr wybodaeth a gyflwynwyd yn bodloni'r gofynion perthnasol, a chadarnhawyd yn ffurfiol ar 28 Mehefin 2018 fod y cais wedi ei dderbyn. Nodir yn dilyn derbyn y cais fod yr amserlen ar gyfer y broses o hyn allan yn gyfan gwbl yn nwylo'r Arolygiaeth Gynllunio.

2.3 Er nad yw Wylfa Newydd wedi ei leoli yng Ngwynedd, bydd y datblygiad ar yr un llaw yn gyfle i'r economi leol, ond ar y llaw arall bydd yn creu heriau i Wynedd o ran materion megis isadeiledd a thrafnidiaeth, cyflenwad tai, y farchnad lafur, gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg.

2.4 Mae angen penderfyniad felly gan y bydd y Datganiad o Effaith Lleol (Drafft) yn Atodiad 1, yn cyfleu barn y Cyngor ar yr effaith lleol ar Wynedd, yn sgil cynllun Wylfa Newydd, ac yn cael ei gyflwyno fel tystiolaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r broses archwiliad.

## 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 3.1. Cefndir

3.1.1 Sefydlwyd yr egwyddor o leoli gorsaf niwclear newydd yng ngogledd Ynys Môn yn Natganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredin Ynni 2011 Llywodraeth y DU a chyhoeddodd menter newydd, sef Pŵer Niwclear Horizon, eu bwriad i ddatblygu'r safle. Yn fwy diweddar a cyn i'r cais DCO gael ei gyflwyno, cafwyd datganiad gan Lywodraeth y DU oedd yn cefnogi cyfrannu tuag at gyllido'r prosiect.

**Beth mae'r cais DCO yn ei gynnwys?**

3.1.2 Nodir fod y cais DCO yn cynnwys:

i. Yr orsaf bŵer sydd yn cynnwys dau adweithydd a datblygiadau eraill ar safle fel draeniau, mynedfeydd a pharcio, strwythurau dros dro, tirlunio ayb
ii. Gwaith Morol parhaol a dros dro yn cynnwys cyfleusterau dadlwytho, system oeri dŵr a strwythurau dros dro
iii. Cyfleusterau amgen megis canolfan rheoli argyfwng
iv. Datblygiadau cysylltiedig sy'n cynnwys llety gweithwyr, cyfleusterau parcio a theithio dros dro, canolfan logisteg dros dro, newidiadau priffyrdd a gwaith creu cynefinoedd

3.1.3 Wedi i'r orsaf niwclear fod yn weithredol bydd ar waith am 60 mlynedd cyn iddo gael ei dad-gomisiynu. Does fawr o newid o ran natur y datblygiad ers yr ymgynghoriadau a fu cyn cyflwyno'r cais DCO, er bod y gost wedi cynyddu i oddeutu £15 biliwn. Bydd hyd at 9,000 yn gweithio ar y safle pan fydd yr adeiladu ar ei anterth a 850 yn gweithio yno pan fydd yr Orsaf ar waith. Mae'r cais hefyd yn dal i gynnwys darpariaeth o lety pwrpasol dros dro ar ffurf campws ar y safle, ar gyfer oddeutu 4000 o weithwyr yn benodol ar gyfer y wedd adeiladu'r orsaf.

**Beth yw'r broses a'r amserlen ar gyfer delio gyda'r cais?**

3.1.4 Ers derbyn y cais DCO, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cadarnhau'r amserlen ar gyfer delio gyda'r cais a cheir y manylion mewn llythyr sydd yn y linc isod:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010007-002070

3.1.5 Mae'r llythyr yn gosod allan amserlen ar gyfer archwilio'r cais DCO a nodir fod cyfnod statudol o 6 mis ar gyfer archwilio'r cais. Dyma rai o'r dyddiadau fydd mae'n debyg yn fwyaf perthnasol i'r Cyngor o ran yr archwiliad:

- 23 Hydref 2018: Cyfarfod Rhagarweiniol (wedi ei gynnal a'r Cyngor wedi mynychu)
- 24 Hydref 2018: Diwrnod cyntaf yr archwiliad gyda gwrandawiad ar y DCO drafft wedi ei gynnal a'r Cyngor wedi mynychu
- 4 Rhagfyr 2018: Angen cyflwyno'r **datganiad o effaith lleol** a datganiad o dir cyffredin

- Ionawr 2019 i Fawrth 2019 - mynychu gwrandawiadau perthnasol gan ddefnyddio'r **datganiad o effaith lleol** fel y sail tystiolaeth
- 23 Ebrill 2019: Yr archwiliad yn cau

3.1.6 Nodir y bydd yr archwiliad yn cynnwys gwrandawiadau ar feysydd gwaith amrywiol fydd yn seiliedig ar yr 11 o brif faterion sydd wedi ei hadnabod yn llythyr diweddar yr Arolygiaeth. Bydd y Cyngor yn mynychu rhai o'r gwrandawiadau fydd yn cael eu cynnal yn yr archwiliad, a hefyd ymateb i gwestiynau fydd yn codi gan yr Arolygiaeth drwy gydol y broses.

3.1.7 Bydd y datganiad o effaith lleol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnwys y sail tystiolaeth fydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i ymateb i faterion fydd yn codi yn y gwrandawiadau perthnasol, ac er mwyn ymateb i gwestiynau gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystod yr Archwiliad.

Ar ôl i'r archwiliad gau, dyma fydd y camau nesaf:

- Argymhelliad a phenderfyniad gan Lywodraeth y DU (cyfnod 6 mis) cyn diwedd Hydref 2019

Ar ôl y penderfyniad, dyma'r camau a'r amserlen a ragwelir:

- Cyflwyno gwybodaeth i gyd-fynd a gofynion y DCO (hyn yn debyg i geisiadau i gyd-fynd a gofynion amodau cynllunio) - cyfnod 6 mis
- Gwaith adeiladu'n cychwyn hwyr yn 2020 hyd at 2027

**3.2. Ymateb y Cyngor i'r cais DCO sydd wedi ei gyflwyno**

3.2.1 Ers y cyfnod cyn cyflwyno'r cais DCO, mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Datblygiadau Mawr, sydd yn grŵp mewnol trawsadrannol ar gyfer ymateb i geisiadau fel Wylfa Newydd. Mae'r Cyngor, drwy fewnbwn y grŵp, wedi ymateb i'r 3 ymgynghoriad ffurfiol a'r ymgynghoriad anffurfiol fu ar y DCO drafft.

3.2.2 Yn dilyn cyflwyno a derbyn y cais DCO, bu raid i'r Cyngor, drwy'r Grŵp Datblygiadau Mawr ddarparu sylwadau perthnasol ar y cais i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn 13 Awst 2018, gyda'r disgwyl i'r sylwadau fod yn grynodeb o ddim mwy na 500 o eiriau. Mae safbwynt y Cyngor yn sgil adolygiad o'r DCO a gyflwynwyd, yn gyson gyda'r safbwynt a roddwyd wrth ymateb i'r ymgynghoriadau amrywiol cyn i'r cais gael ei gyflwyno. Atodir sylwadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio'n Atodiad 2, sydd yn gosod allan ymateb lefel uchel y Cyngor ac yn gosod fframwaith ar gyfer y datganiad o effaith lleol (drafft) sydd yn Atodiad 1. Nodir fod yr ymateb yn Atodiad 1 a'r materion a godir yn y datganiad o effaith lleol, yn gyson gydag ymatebion y Cyngor i ymgynghoriadau cyn cyflwyno'r cais DCO.

3.2.3 Nodir nad yw'n ofyn statudol i'r Cyngor gyflwyno datganiad o effaith lleol ond gan ystyried graddfa sylweddol prosiect Wylfa Newydd, a'i sgil effeithiau posib ar Wynedd, credir ei bod yn bwysig i'r Cyngor wneud hyn. Gweler fod y datganiad drafft yn nodi'r effeithiau lleol cadarnhaol, niwtral a negyddol yn sgil y datblygiad gan gyfeirio at y rhesymeg a'r dystiolaeth (lle'n berthnasol) i gefnogi hynny. Mae'r datganiad drafft yn cynnwys y prif rannau canlynol:

i. Proffil o Wynedd a lleoliad y datblygiad mewn perthynas â Gwynedd
ii. Trosolwg a gwerthusiad o bolisïau cynllunio a dogfennau perthnasol
iii. Effeithiau lleol posib o safbwynt:

- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Materion yr economi, megis y farchnad lafur a thwristiaeth
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Materion tai
- Gwasanaethau cyhoeddus

3.2.4 Y pryder pennaf sydd gan y Cyngor yn dal i fod, yw nad oes ystyriaeth ddigonol wedi ei roi gan PNH i'r sgil effeithiau posib ar Wynedd (ardal Arfon yn fwy penodol), nac unrhyw ystyriaeth felly i beth fydd yn digwydd os nad yw eu rhagdybiaethau yn gywir o ran:

i. lle bydd gweithwyr yn byw yn ystod y gwaith adeiladu,
ii. beth fydd y sgil effeithiau o ran materion trafnidiaeth (traffig a theithio),
iii. beth fydd yr effaith ar yr iaith Gymraeg a chymunedau
iv. beth fydd yr effaith ar y farchnad lafur a'r economi, a
v. beth fydd yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus?

3.2.5 Mae'r pryderon sydd yn cael eu codi gan y Cyngor o ran sgil effeithiau sydd yn wahanol i'r rhai a ragdybir, i'w gweld yn cael eu profi gyda datblygiad Gorsaf Niwclear Atomfa Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf, sydd yn y broses o gael ei adeiladu ar hyn o bryd. Pwynt pwysig i'w nodi yma yw mai oddeutu 5600 o weithiwyr a ddisgwylir yn Hinkley ar ei hanterth o'i gymharu gyda hyd at 9000 gydag adeiladu Wylfa Newydd. Mae'r datganiad yn Atodiad 1 yn cyfeirio at yr hyn sydd yn / wedi digwydd gyda datblygiad Hinkely, fel enghraifft cyfredol o sgil effeithiau posib datblygiad Wylfa Newydd. Nodir hefyd fod y Cyngor eisoes wedi cyfeirio PNH i edrych ar yr hyn sydd yn digwydd yn Hinkley, ac i sicrhau fod unrhyw wersi'n cael eu dysgu gyda'r cais DCO ar gyfer Wylfa Newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi pwysleisio'r angen sicrhau bod mesurau lliniaru cadarn yn cael eu rhoi yn eu lle mewn ymgynghoriad gyda'r Cyngor a budd-ddeiliaid eraill.

3.2.6 Mae'r cais DCO yn cynnwys gwybodaeth lefel uchel ynglŷn â chynnwys dechreuol ar gyfer cytundeb 106 a fframwaith ar gyfer monitro ac ymateb mewn da bryd i unrhyw sgil effeithiau. Prin yw'r cyfeiriad yn y dogfennau yma at Gyngor Gwynedd, er gwaethaf sylwadau'r Cyngor wrth ymateb i ymgynghoriadau cyn i'r cais DCO gael ei gyflwyno. Nodir fod y datganiad yn cynnwys dymuniad fod y Cyngor yn disgwyl cael mewnbwn i drafodaethau ynglŷn â'r cytundeb106 er mwyn ceisio sicrhau:

i. bod mesurau lliniaru'n cael eu darparu i gyfarch yr effaith, lle bynnag yn ddaearyddol mae'r effaith yn cael ei achosi a bod mesurau lliniaru yn cyfarch effeithiau ar Wynedd mewn sefyllfaoedd lle fod yr effaith yn wahanol / gwaeth na'r hyn a ragdybir gan PNH.
ii. cyfeiriad at Wynedd lle'n berthnasol mewn cytundeb 106, gan gynnwys unrhyw fframwaith fonitro, mesurau lliniaru ac arian / adnoddau cysylltiedig â bod Gwynedd yn dymuno bod yn rhan o drafodaethau yn ymwneud a pharatoi a chytuno ar y dogfennau yma.
iii. bod y Cyngor gyda chynrychiolaeth ar Fwrdd Rhaglen / neu gyffelyb fydd yn cael ei sefydlu ar gyfer cyfnod adeiladu'r prosiect i gymryd trosolwg ac i wneud penderfyniadau ar ryddhau arian / adnoddau ar gyfer lliniaru effeithiau mewn da

bryd, yn ogystal â grwpiau maes (e.e. Tai, Iaith, trafnidiaeth ac ati) fydd yn eistedd o dan y Bwrdd Rhaglen.

3.2.7 Rhaid nodi hefyd y bydd yna sgil effeithiau cadarnhaol yn sgil datblygiad Wylfa Newydd ac y byddwn fel Cyngor yn dymuno bod yn rhan o drafodaethau i sicrhau fod y buddion yn cael eu lledaenu i Wynedd ac i'r rhanbarth.

3.2.8 Gyda'r math yma o gais disgwylir i'r datblygwr a'r Cyngor (yn ogystal â budd-ddeiliaid eraill), gynnal trafodaethau i weld os oes yna dir cyffredin ar agweddau o'r cais. Y bwriad yw ceisio sicrhau bod y trafodaethau yn yr archwiliad yn canolbwyntio ar y materion lle nad oes cytundeb. Allbwn hyn fydd datganiad o dir cyffredin sydd yn ddogfen dechnegol sydd yn y broses o gael ei pharatoi a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ar yr un adeg a'r Datganiad o Effaith Lleol.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Cyflwyno'r Datganiad o Effaith Lleol i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn y 4 Rhagfyr 2018

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghoriadau a mewnbwn holl Adrannau perthnasol y Cyngor.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Prif Swyddog Cyllid:

Mae paratoi datganiad o effaith leol cynhwysfawr ar ran Cyngor Gwynedd yn hanfodol. Rwyf yn fodlon nad yw cynnwys yr ymateb yn gosod oblygiadau ariannol ar y Cyngor, felly nid oes gennyf sylwadau ar y cynnwys o safbwynt priodoldeb ariannol.

### Swyddog Monitro:

Mae'r amserlen er mwyn cyflwyno Datganiad o Effaith Lleol wedi ei sefydlu gan yr Arolygaeth Gynllunio fel rhan o'r broses ehangach o ran cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno'r datganiad erbyn y 4ydd Rhagfyr 2018 fel gall ardrawiadau y datblygiad ar Wynedd gael eu hystyried o fewn y broses, ac yn benodol er mwyn i'r Cyngor gyfrannu o fewn y gwrandawiadau sydd i'w cynnal. Nodir fod cryn waith wedi ei wneud yn draws adrannol er mwyn asesu ardrawiad ar Wynedd, ac rwyf yn fodlon fod y datganiad yn cyfarch y gofyn cyfreithiol ar y Cyngor o fewn y broses.

**Atodiadau**

**Atodiad 1:** Datganiad o effaith lleol (Drafft)
**Atodiad 2:** Sylwadau perthnasol y Cyngor

# Adroddiad Datganiad Effaith Leol gan Gyngor Gwynedd

---

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar 28 Mehefin 2018, cadarnhaodd yr Arolygiaeth Gynllunio fod cais rhif EN010007 a gyflwynwyd gan Horizon Nuclear Power (Horizon) ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd wedi cael ei dderbyn er archwiliad.

1.2 Mae Cyngor Gwynedd (CG) hefyd wedi cael gwybod, fel awdurdod lleol, nad yw'n disgyn dan gategorïau A102 (6 a 7) Deddf Cynllunio 2008 gan nad yw safle'r cais o fewn ei ffiniau, ac ym marn yr Arolygiaeth Gynllunio, ni ystyrir fod Gwynedd yn meddu ar ran o ffin gydag awdurdod Cyngor Sir Ynys Môn.


1.3 Er gwaethaf ei statws dan A102 (6 a 7) mae CG, yn seiliedig ar ei wybodaeth leol a'r wybodaeth yn y Cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), wedi ystyried effeithiau lleol y cais ar y sir, ac maent wedi cael eu hamlinellu yn yr Adroddiad Datganiad Effaith hwn, dyddiedig 4 Rhagfyr 2018.

1.4 O'r cychwyn cyntaf, hoffai CG ddatgan ei fod yn cefnogi egwyddor yr Orsaf Bŵer gan fod ganddi'r addewid i ddwyn buddion economaidd a chymdeithasol cadarnhaol i Ynys Môn, Gwynedd a'r ardal ehangach, gan gynnwys y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, mae CG wedi nodi meysydd lle mae pryder ynghylch agweddau penodol o'r datblygiad fydd angen gwaith lliniaru a/neu ddull rhagofalus lle bydd gofyn am gynnal trafodaethau a chytuno â'r cyrff perthnasol sydd yn y cynigion terfynol. Wrth drafod gyda'n partneriaid, nid ydym yn hyderus fod materion arwyddocaol sy'n ymwneud â llety, trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, yr iaith Gymraeg a gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu harchwilio a'u hystyried yn ddigonol.

## 2. Gwynedd

**Proffil o Wynedd**

2.2. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf, a ddaeth o Gynllun Strategol 2017-18 y Cyngor, yn rhoi trosolwg o broffil ystadegol y Sir.



6.9 miliwn
ymwelydd
yn creu refeniw gwerth
£964 miliwn
65% Cymraeg
122,864 o bobl Gwynedd
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Parc Cenedlaethol Eryri
187 milltir o arfordir
1,821 milltir o ffyrdd
oddeutu 61,000 o anheddau
Canolrif incwm
£23,988
£143k
Canolrif Pris Tŷ

**Braslun o farn trigolion**

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi syniad o beth ddywedodd trigolion Gwynedd yn ystod y gweithdai ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar wrth baratoi Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2018:

| **Pam fod yn ardal yn lle da i fyw ynddi:** | **Beth sydd ddim cystal:** |
|---|---|
| • Yr Amgylchedd Naturiol sydd o'n cwmpas<br>• Y golygfeydd<br>• Ardal Gymraeg a medru defnyddio'r iaith<br>• Ymdeimlad o ysbryd cymunedol<br>• Teimlo fod yr ardal yn un ddiogel | • Diffyg swyddi o ansawdd da<br>• Cludiant Cyhoeddus<br>• Y pellter oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau<br>• Cost uchel tai lleol<br>• Cyflwr y strydoedd |
| **Beth sydd yn gwella llesiant yn eich ardal ac sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd:** | **Beth fyddech chi'n ei newid am eich ardal i'w gwneud yn well lle i fyw:** |
| • Cyfleoedd i gael gweithgareddau awyr agored<br>• Ysbryd cymunedol yr ardal<br>• Teulu / Ffrindiau / Cymdogion<br>• Amgylchedd Naturiol<br>• Cyfleusterau Lleol | • Mwy o swyddi gyda chyflogau uwch<br>• Gwell cludiant cyhoeddus<br>• Mwy o weithgareddau lleol<br>• Gwella cyfleusterau lleol<br>• Gwella cyflwr y strydoedd |

Amlinellir amcanion llesiant CG yn ei Ddatganiad Llesiant (2018) a'r bwriad yw sicrhau y gall trigolion Gwynedd -

i. Fwynhau bywydau hapus, iach a diogel
ii. Byw mewn tai o ansawdd o fewn eu cymunedau
iii. Ennill cyflog digonol i allu cynnal eu hunain a'u teuluoedd
iv. Derbyn addysg o'r ansawdd gorau fydd yn eu galluogi i wneud beth bynnag y dymunant
v. Byw gydag urddas ac yn annibynnol am gyn hired â phosib
vi. Byw mewn cymdeithas Gymraeg naturiol
vii. Manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

## 3. Cynigion Prosiect

3.1 Mae'r ymgeisydd yn gofyn am Orchymyn Cydsyniad Datblygiad i gael yr hawl i adeiladu a rhedeg Wylfa Newydd, gorsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn gyda'r gallu i gynhyrchu hyd at 3100 megawat ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ('Prosiect DCO Wylfa Newydd'). Mae prif rannau Prosiect DCO Wylfa Newydd fel a ganlyn:

a. Yr Orsaf Bŵer sy'n cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau cefnogol, adeiladau, strwythurau a pheiriannau, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a’r cysylltiad i’r grid cenedlaethol.

b. Datblygiadau eraill ar y safle i gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draenio, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i’r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i’r Orsaf Bŵer a ffyrdd

mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wylio'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens berimedr a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan.

c. Gwaith Morol yn cynnwys:

- Gwaith Morol Parhaol sef y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, mannau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a charthu.

- Gwaith Morol Dros Dro sef argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, mannau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas.

d. Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol.

e. Datblygiadau Cysylltiedig yn cynnwys:
- Campws y Safle i ddarparu llety gweithwyr yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi;
- Gwelliannau i Briffordd yr A5025;
- Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlypdir yn Nhŷ Du, Cors Gwawr a Chae Canol-dydd.

3.2 Mae'r cais DCO hefyd yn gofyn am amryw o bwerau eraill gan gynnwys darpariaethau i ganiatáu caffael gorfodol o ran buddiant a hawliau mewn tir, defnyddio tir dros dro, ymyrryd â hawliau a chau neu ddargyfeirio strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill yn cynnwys cau Ffordd Cemlyn yn barhaol.

## 4. Lleoliad yr Orsaf Bŵer mewn perthynas â Gwynedd

4.1 Mae safle Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a'i safleoedd datblygu cysylltiedig (a ddisgrifir yn 3 uchod) wedi'u lleoli yn ardal weinyddu gyfagos Cyngor Sir Ynys Môn. Mae safle'r Orsaf Bŵer ar dir ar arfordir gogleddol yr Ynys ac yn cael ei reoli gan Horizon. Mae'r safleoedd datblygu cysylltiedig mewn amryw leoliadau ar yr Ynys.


4.2 Y Fenai sy'n ffurfio'r ffin rhwng ffin ogledd-ddwyreiniol ardal weinyddol Cyngor Gwynedd a ffin ddeheuol ardal weinyddol Cyngor Sir Ynys Môn. Mae safle'r Orsaf Bŵer oddeutu 51km o Fangor, sef prif Ganolfan Wasanaethu Gwynedd sydd wedi'i lleoli ar lan y Fenai. Ar hyn o bryd, Pont Britannia a Phont Menai sy'n rhoi mynediad i gerbydau rhwng y ddwy Sir ac mae cysylltiad rheilffordd ar Bont Britannia hefyd. Mae map 1 isod yn dangos y berthynas ofodol rhwng Safle'r Orsaf Bŵer, y datblygiadau cysylltiedig â Gwynedd.

4.3 Ni fydd yr ardal ddatblygu a'i datblygiadau cysylltiedig yn effeithio'n uniongyrchol ar Wynedd, fodd bynnag, ystyrir y gall fod yna effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol, niwtral neu negyddol ar y Sir o ran:

- Ardrawiad ar yr economi'n gyffredinol gan gyfeirio'n arbennig at yr economi twristiaeth;

- Ardrawiad cymdeithasol a chymunedol yn cynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg;

- Ardrawiad ar y galw am dai i'r gweithlu fydd ynghlwm ag adeiladu a rhedeg yr orsaf bŵer; ac
- Ardrawiad trafnidiaeth a thraffig ar y rhwydwaith priffyrdd
- Ardrawiad ar wasanaethau cyhoeddus



## 5. Gwerthuso polisïau cynllunio a'r ddogfennaeth sy'n berthnasol i gynigion Gorsafoedd Pŵer.

5.1 Mae CG yn cydnabod fod gan gynhyrchu ynni carbon isel rôl o bwysigrwydd rhyngwladol i'w chwarae fel yr amlinellir yn NPS EM-1, ac na fydd unrhyw ran o'r Orsaf Bŵer arfaethedig na'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu lleoli'n gorfforol yn ardal weinyddol Gwynedd. O'r herwydd, mae hefyd yn cydnabod fod effeithiau'r cynllun yn disgyn yn gyfan gwbl ar gymunedau lleol Ynys Môn, cyn belled fod rhagdybiaethau Horizon a'u mesurau lliniaru a gwneud iawn yn gywir. Datgan EN-1 na ddylid rhoi caniatâd oni bai fod yr Awdurdod Archwilio yn fodlon y bydd y prosiect yn osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar iechyd ac ansawdd bywyd cymunedau, er enghraifft. Yn seiliedig ar bryderon ynghylch y materion y tynnir sylw atynt yn 4 uchod, ystyria CG y dylid cynnwys y cynllun datblygu mabwysiedig yn ogystal â dogfennau a strategaethau eraill a gynhyrchwyd gan CG a'i bartneriaid fel ystyriaeth berthnasol wrth ystyried y cais hwn.

**Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

**Polisi Cynllunio Cymru**

5.2 Mae'n amlinellu polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n trosi ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygiad cynaliadwy i'r system gynllunio er mwyn iddi allu cyfrannu'n briodol yn y symudiad tuag at gynaliadwyedd. Mae PCC, y NCT, y cylchlythyrau a'r llythyrau egluro polisi yn cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol. Dylid ystyried polisi cynllunio cenedlaethol wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gall fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol a bydd yn cael ei ystyried gan Weinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sydd wedi'u galw i mewn ac ar apeliadau.

5.3 Yn arbennig o berthnasol, mae PCC, sydd â nodau llesiant yn sail iddo, yn cadarnhau'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Mae'n hyrwyddo llefydd sy'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wrth:

- ddarparu cyflogaeth a datblygu economaidd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac wedi'u lleoli mewn cwmpasoedd dymunol. Caiff y llefydd hyn eu dylunio a'u lleoli i hyrwyddo byw bywydau iach ac i ymdrin â newid hinsawdd wrth eu gwneud yn llefydd y gellir beicio a cherdded iddynt yn hawdd, mynediad i gludiant cyhoeddus, lleihau'r defnydd o adnoddau anadnewyddadwy a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- darparu cymunedau cydlynol â chysylltiadau da i bob sector yn y gymdeithas, gan alluogi i bawb gael bywyd o ansawdd da trwy fyw mewn cymunedau cryf a diogel, gwella mynediad i wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a chyfleusterau hamdden i gefnogi pobl i fabwysiadau ffordd iach o fyw, gan sicrhau datblygiadau sy'n gynhwysol yn gymdeithasol a chymunedau mwy cydlynol; a
- gwerthfawrogi ansawdd y tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol, gwarchod asedau economaidd at y dyfodol mewn ymateb i heriau newid hinsawdd ac i hyrwyddo datrysiadau carbon isel, gwarchod tirweddau a chynefinoedd, galluogi cyfleoedd i gysylltu â'r amgylchedd naturiol ac annog byw bywydau iachach gyda'r fantais o gael gwell llesiant corfforol a meddyliol.

**Nodiadau Cyngor Technegol**

5.4 Fel y disgrifir uchod, mae NCT yn ffurfio rhan o bolisi cynllunio cenedlaethol, gallant felly fod yn berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. O safbwynt CG, mae'r rhain a ganlyn yn berthnasol yn arbennig: NCT 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy; NCT 18: Cludiant; NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg; NCT 23: Datblygiad Economaidd

**Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd mabwysiedig:**

5.5 Ystyrir bod y polisïau a ganlyn o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 yn berthnasol i gynnig Horizon o safbwynt y Cyngor. Mae geiriad llawn y polisïau y cyfeirir atynt isod yn Atodiad A.

**Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

5.6 Mae maen prawf 2 (sy'n gysylltiedig â maen prawf 4 Polisi Strategol PS 5) yn arbennig o berthnasol fan hyn, *'Gofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu'* .

**Polisi Strategol PS 2: Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr**

5.7 Y rhan berthnasol yw *'Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) sy'n angenrheidiol yn cael ei ddarparu yn amserol ar gyfer gwneud y cynnig yn dderbyniol trwy amod neu rwymedigaeth gynllunio*.' ...ac...
*'Lle bod angen darparu'r isadeiledd angenrheidiol, galluogol a hanfodol o ganlyniad i'r cynnig ac nad ellir ei leoli ar y safle, gofynnir am gyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael y buddsoddiad angenrheidiol oddi ar y safle.'*

**Polisi ISA 1: Darpariaeth Isadeiledd**

5.8 Y rhan berthnasol fan hyn yw 'Caniateir cynigion dim ond pan fo capasiti isadeiledd digonol yn bodoli, neu lle caiff ei ddarparu mewn modd amserol. *Os yw cynnig yn creu angen uniongyrchol am isadeiledd newydd neu well, ac os na chaiff hwn ei ddarparu gan gwmni gwasanaeth neu isadeiledd, yna rhaid i'r datblygiad ei ariannu. Gellir ceisio cyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau i isadeiledd, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, os yw'r rheini yn angenrheidiol i wneud cynnig yn dderbyniol. Pan fydd yn briodol, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol at ystod o ddibenion, yn cynnwys: 1. Tai fforddiadwy...4. Cyfleusterau cyflogaeth a hyfforddiant...6. Isadeiledd trafnidiaeth yn cynnwys cludiant cyhoeddus..12 Mesurau iaith Gymraeg*.

**Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**

5.9 Y rhan berthnasol fan hyn yw Rhan 2 sy'n ymwneud â Throsglwyddo rhwng Dulliau Cludiant. Datgan Rhan 2 ii *'Cyfleusterau parcio a theithio parhaol wedi eu lleoli'n strategol o fewn neu wrth ymyl Canolfannau neu mewn lleoliadau eraill sy'n agos i'r prif rwydwaith ffordd lle gellir dangos nad oes safleoedd amgen boddhaol yn agosach at y Canolfannau, lle mae cwsmeriaid yn cael eu cefnogi gan wasanaethau bysys aml rhwng y cyfleuster a phen y daith'*...a...

datgan Rhan 2 v:*'Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu mewn lleoliadau priodol ar y rhwydwaith priffyrdd strategol yn gyfochrog i aneddiadau neu oddi mewn iddynt.'*

**Polisi TRA 4: Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth**

5.10 Dywed y polisi hwn 'Lle'n briodol, dylid cynllunio a dylunio datblygiad mewn ffordd sydd yn hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio gan roi sylw i'r goeden o ddefnyddwyr' ac

*'Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y brifford, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill gan gynnwys llwybrau i gerddwyr, beicwyr, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffyl. Bydd lefel y niwed annerbyniol yn cael ei bennu gan yr awdurdod lleol fesul achos'.*

**Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy**

5.11 Y rhan berthnasol dan y polisi hwn yw 'Cefnogir datblygiadau ble gellid dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. *Dylai pob cynnig...4 'Warchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1'....6. 'Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu'* ac

*'Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd: 9. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai...11. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS 13...12. Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus*'.

**Polisi Strategol PS 9: Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig**

5.12 Mae'r polisi hwn yn berthnasol yng Nghyngor Gwynedd am ei fod yn datgan y bydd yn ystyried nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn wrth baratoi ei Ddatganiad Effaith Leol. Mae'r ystyriaethau perthnasol yn cynnwys meini prawf 3, 5, 7, 9, 12 ac 16:

*'3. Mae cynigion priffyrdd a thrafnidiaeth ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn ffurfio rhan o strategaeth traffig a thrafnidiaeth sy'n rhoi ystyriaeth i Bolisi Strategol PS 4 ac unrhyw Bolisïau manwl perthnasol yn y Cynllun a lleihau effeithiau andwyol ar drafnidiaeth i lefel dderbyniol, gan gynnwys y rhai a gyfyd yn ystod y camau adeiladu, gweithredu, dadgomisiynu ac adfer.....*

*5. Dylai gofynion llety gweithwyr adeiladu gael eu diwallu mewn modd sy'n lleihau effaith ar y farchnad dai leol, yn cynnwys gallu rhai sydd ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill (gan ystyried yr Asesiad Marchnad Dai Lleol), ac na fydd yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol, ieithyddol neu amgylcheddol andwyol annerbyniol (yn cynnwys y sector twristiaeth)...*

*7. Bydd cynigion am lety i weithwyr dros dro ar ffurf campws, canolfannau logisteg a chyfleusterau parcio a theithio hefyd yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a amlinellir ym Mholisïau PS 10 - 12;*

*9. Dylai'r hyrwyddwr ymgysylltu gyda'r Cyngor ar strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio yn nyddiau cynnar datblygu'r prosiect, gyda'r nod o uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a'r tymor hir....*

*12. Bydd pob cynnig yn cael ei wasanaethu'n briodol gan isadeiledd trafnidiaeth yn cynnwys cludiant cyhoeddus ac ni fyddant yn cael effaith andwyol ar gymunedau lleol a thwristiaeth a bydd hyn yn cael ei ddangos mewn asesiad trafnidiaeth. Lle ceir cysylltedd trafnidiaeth annigonol neu nad oes gan y rhwydwaith ffyrdd ddigon o gapasiti i ymdopi â lefel y traffig a fydd yn deillio o unrhyw ddatblygiad, neu rhagwelir effaith andwyol, bydd angen darparu gwelliannau priodol i'r rhwydwaith trafnidiaeth a darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i liniaru'r ardrawiadau;*

*16. Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld yn sgil adeiladu a gweithredu adeiladu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr ymgorffori mecanweithiau adolygu ar gyfer monitro'r amrediad llawn o effeithiau, ac adolygu digonolrwydd mesurau lliniaru neu iawndal a gwneud addasiadau yn ôl y gofyn.*

**Polisi Strategol PS 10: Wylfa Newydd - Llety Dros Dro Tebyg i Gampws ar gyfer Gweithwyr Adeiladu**

5.13 Mae'r polisi hwn yn ymwneud a pha mor ddigonol yw'r llety dros dro arfaethedig ac mae'n berthnasol i CG o ran meini prawf 1, 2, 3 a 5 sy'n gofyn:

*1. bod y datblygwr yn dangos yn gyntaf bod y cynnig yn diwallu angen a brofir am lety dros dro i weithwyr adeiladu nad ellir ei ddiwallu trwy un ai lety preswyl presennol, neu ailddefnyddio adeiladau presennol, neu trwy ddarparu adeiladau parhaol a fyddai'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd parhaol ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu; a*

*2. lleolir y cynnig ar safle Prosiect Wylfa Newydd neu safle sy'n gyfagos neu sydd â pherthynas dda gyda ffin datblygu Caergybi, Amlwch, Llangefni, Gaerwen neu'r Fali, ac mae'n agos at y prif rwydwaith priffyrdd lle y gellir darparu mynediad digonol heb niwed sylweddol i gymeriad a nodweddion tirwedd, a hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r polisi sy'n ffafrio defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen; a*

*3. rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol y datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig neu gwneir cyfraniad tuag at liniaru effeithiau hynny yn unol â Pholisi PS 1 a Pholisi ISA; ac*

**Polisi Strategol PS 12: Wylfa Newydd - Cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu**

5.14 Yn berthnasol wrth leihau teithio mewn ceir preifat bod y safle wedi ei leoli:

*i. O fewn, neu'n gyfagos i, ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi'u lleoli ar ochr yr A5/A55 neu'n agos iddynt; neu*

*ii. mewn lleoliadau eraill sydd ar hyd yr A5/ A55 lle mae'r safle yn rhan o gynllun cynhwysfawr i liniaru effeithiau trafnidiaeth y Prosiect; wedi rhoi sylw i'r ffaith bod y Cynghorau yn ffafrio'r angen i roi ystyriaeth i safleoedd yn agosach at y Canolfannau.*

**Polisi Strategol PS 14: Yr Economi Ymwelwyr**

5.15 Rhan 5 sydd fwyaf perthnasol: *'Atal datblygiadau'n fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar y cyfleusterau twristiaeth, gan gynnwys nodweddion llety...'*

**Polisi TAI 14: Defnydd preswyl o garafanau, cartrefi symudol a mathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol**

5.16 Y rhan berthnasol fan hyn yw meini prawf 1, 4 a 6. *'1. Mae'n cael ei leoli am gyfnod cyfyngedig o amser, ac mae ei angen i roi llety i weithwyr dros dro yn ystod adeiladu....neu ii. caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy.....*

*4. Caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio i'r isafswm a hybu'r defnydd o ddulliau cludiant cynaliadwy...*

*6. Gellir dangos na fuasai'r bwriad yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar y diwydiant twristiaeth;*

**Dogfennau a strategaethau perthnasol eraill**

5.17 **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023,** sy'n amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau CG ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a diwedd mis Mawrth 2023. Mae sawl elfen i'r Cynllun:

- **Cynllun Gwella,** sy'n amlinellu Blaenoriaethau Gwella CG a'r 7 amcan llesiant
- **Cynlluniau Adrannol,** sy'n disgrifio holl waith dydd-i-ddydd CG; ac yn olaf
- **Datganiad Llesiant CG,** sy'n ymhelaethu ar Nodau Llesiant CG yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn benodol:

i. Mae Gwynedd yn wynebu sawl her yn y maes tai gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau mewn budd-daliadau, ond mae cyfleoedd yn bodoli hefyd, ac felly mae'n bwriadu targedu ardaloedd lle mae angen datblygu mathau gwahanol o dai yn benodol ar gyfer pobl hŷn a phobl ifanc;
ii. Mae nifer uchel o Dai Amlfeddiannaeth ym Mangor, sy'n cael effaith negyddol ar ymddangosiad y ddinas, nifer uwch o dai gwag y tu allan i'r tymor academaidd, a llai o stoc tai ar gael i drigolion lleol;
iii. Un o flaenoriaethau'r Cynllun Gwella cysylltiedig yw gwella'r amodau i greu economi hyfyw a llewyrchus, wrth geisio sicrhau mwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da;
iv. Un arall o'r blaenoriaethau yw sicrhau bod CG yn annog ac yn hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.19 **Asesiad Llesiant Gwynedd,** sydd wedi'i rannu yn is-ardaloedd, yn cynnwys Bangor a Chaernarfon sy'n gorwedd o fewn KSA. Ar ôl ystyried y data a barn bobl leol, casglodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn mai dyma oedd prif negeseuon yr asesiad:

1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach
2. Pwysigrwydd amddiffyn yr amgylchedd naturiol
3. Deall effaith newidiadau demograffig
4. Amddiffyn a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
5. Hyrwyddo defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a lles yn yr hirdymor
6. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i sicrhau mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
7. Yr angen am swyddi ansawdd da a thai fforddiadwy i bobl leol
8. Effaith tlodi ar lesiant
9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

5.20 **Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2018,** gweler adran i gael amcanion y Cynllun.

5.21 Mae **Asesiad Marchnad Dai Leol Gwynedd 2018** yn disgrifio prif amodau economaidd-gymdeithasol y Sir, yn darparu gwybodaeth am gost a fforddiadwyedd tai, yn darparu argymhellion am fesurau i wella cydbwysedd y farchnad dai yn yr hirdymor, yn nodi'r angen am dai yn y Sir, ac ati.

5.22 **Datblygwyd Cynllun Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2018** mewn ymateb i'r gofyn statudol i gyhoeddi strategaeth iaith sy'n egluro sut y mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo ac annog defnyddio'r iaith Gymraeg yn y sir. Mae'n amlinellu'r cyfleoedd presennol sydd ar gael i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd pob dydd yn y sir, ac mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiadau ehangach y Cyngor o ran yr iaith Gymraeg, mewn meysydd megis addysg, cynllunio a gofal a gwasanaethau cymdeithasol, ac yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng **Nghynllun Cyngor Gwynedd** ac yng **Nghynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn**. Mae'r ffactorau y mae'r cynllun wedi'u hadnabod sydd angen eu gwrthbwyso i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ym mhob rhan o'r sir i ddefnyddio a theimlo cysylltiad i'r iaith yn berthnasol iawn. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys: Heriau daearyddol; Symudedd ac ymfudo; Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu; Colli siaradwyr Cymraeg ar ôl iddynt gyrraedd 16 mlwydd oed; Statws yr iaith Gymraeg fel iaith fusnes; Cyfleoedd a chefnogaeth i ddysgwyr; Dylanwadau technolegol; Hyder pobl yn eu gallu a'u sgiliau eu hunain.

# 6. Effeithiau Lleol Posib

## 6.1 Priffyrdd a Thrafnidiaeth

### Y Cyd-destun

6.1.2 Mae Prosiect Wylfa Newydd ar Ynys Môn ac, o'r herwydd, bydd cyfran o draffig cerbydol yn gorfod teithio trwy ardal Cyngor Gwynedd o'r rhwydwaith priffyrdd er mwyn cyrraedd y safle. Bydd y traffig cerbydol hwn yn cynnwys:

- Cyfran o'r traffig gweithwyr a ragwelir yn ystod y cyfnod adeiladu;
- Cerbydau HGV ac AIL, yn ystod y cyfnod adeiladu; a
- Chyfran o'r traffig gweithwyr gweithredol a ragwelir.

6.1.3 Rhywbeth sy'n bryder penodol i CG yw'r llif traffig yn ystod y cyfnod adeiladu fydd yn teithio trwy'r ardal a'r effeithiau perthnasol, cysylltiedig.

6.1.4 Y prif ardaloedd yn y rhwydwaith priffyrdd sy'n peri pryder i CG yw:

- Mae’r A55 yn gefnffordd sy'n cysylltu Caergybi gydag arfordir gogledd Cymru trwy bontydd y Fenai. Mae gan yr A55 ddwy lôn i bob cyfeiriad oni bai am Bont Britannia sydd â lôn sengl i bob cyfeiriad;

- Dwy bont dros y Fenai. Mae gan Bont Britannia gyfnodau o dagfeydd, nid yw Pont Menai yn addas i HGVs ac mae'r ddwy yn cau ar adegau pan fo tywydd garw; a

- Phriffyrdd Lleol yn y Sir a ffyrdd mewn trefi megis Bangor a Chaernarfon. Mae’r A487 trwy Gaernarfon yn dioddef o dagfeydd yn ystod cyfnodau'r haf gyda thraffig twristiaeth. Mae rhai ardaloedd o'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn dioddef o bobl yn parcio yno'n anghyfreithlon.

6.1.5 Mae dwy bont ffordd sy'n cysylltu Ynys Môn i'r tir mawr. Mae Pont Britannia yn darparu'r llwybr strategol i'r ynys gan gario'r A55. Mae Pont Menai yn gyswllt amgen i'r ynys yn cario’r A487 ac mae wedi'i lleoli i'r gogledd-ddwyrain o Bont Britannia. Mae'r ddwy bont yn dioddef tagfeydd traffig yn ystod y cyfnodau prysuraf, sy'n cynnwys y prif dymor gwyliau yn ogystal â chyfnodau cymudo arferol. Mae Pont Britannia yn strwythur deulawr, sy'n darparu cerbydlon sengl gydag un lôn i bob cyfeiriad ar y dec uchaf a lein rheilffordd trac sengl ar y dec isaf. Mae dwy lôn ar naill ochr y ffordd ar yr A55 wrth iddi ddynesu at y bont, ac yna dim ond un lôn i'r naill gyfeiriad wrth groesi'r bont ei hun. Mae hyn yn arwain at lai o le i geir ar y rhan fer hon o'r A55.

6.1.6 Gall traffig gynyddu yng nghyfnodau prysuraf y bore a gyda'r nos ar Bont Britannia. Mae'r oedi hyn o natur lanwol; yn llifo i gyfeiriad y tir mawr yn y bore ac i gyfeiriad Ynys Môn yn y prynhawn. Mae'r oedi'n waeth yn ystod cyfnodau gwyliau'r haf a phan fo'r fferi o Iwerddon yn angori yng Nghaergybi a nifer fawr o gerbydau yn dod oddi arni ac yn teithio i'r dwyrain i'r tir mawr.

6.1.7 Yn y bore, mae'r ciwiau traffig i'w dwyrain ger Pont Britannia yn dechrau am oddeutu 08:00 ac yn parhau tan ar ôl 09:00. Ar ei brysuraf, mae'r ciwio i gyfeiriad y dwyrain yn cyrraedd hanner ffordd rhwng Cyffordd 8a a Chyffordd 8. Ar yr adeg prysuraf gyda'r nos, mae'r ciwio i gyfeiriad y gorllewin yn dechrau am oddeutu 17:15 (gyda chiwio am gyfnod byr ar ôl 16:30) ac yn parhau hyd at 18:00. Ar eu mwyaf, gall y ciwiau hyn ymestyn yn ôl i Gyffordd 9 ar yr A55, gyda mwy o giwio ar slipffordd yr A487 yn ôl tuag at, ac weithiau ar y gylchffordd ar waelod Allt y Faenol (A487/A4087/B4547).

6.1.8 Mae'r A487 trwy Borthaethwy yn cynnig ffordd arall i deithio o'r tir mawr i Ynys Môn. Mae'n ffordd gerbydlon sengl gydag un lôn i bob cyfeiriad ac nid yw'n addas ar gyfer cerbydau HGV oherwydd nad oes digon o le rhwng lôn a strwythur y bont.

6.1.9 Mae'n bosib y bydd y ddwy bont yn cael eu cau mewn tywydd garw, i bob cerbyd neu dim ond i gerbydau ag ochrau uchel.

6.1.10 Mae CG hefyd yn bryderus y gall nifer y gweithwyr sy'n cael mynediad i'r safle a'r cynigion i annog defnyddio bysys gwennol a rhannu ceir, arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n parcio'n anghyfreithlon yn gyfagos i brif lwybrau trwy'r Sir ac ym mhrif drefi Bangor a Chaernarfon. Mae parcio'n anghyfreithlon eisoes yn bryder ar y rhwydwaith priffyrdd sirol mewn lleoliadau megis yr A4244, Llys y Gwynt; ffordd trydydd dosbarth oddi ar Gyffordd 12 yr A55; Cylchfan Tŷ Mawr A4244/B4547/B4366; yr A4086, Ffordd Caernarfon, Bangor a'r A4244, Felin Hen. Oherwydd ei bryderon, mae CG wedi llwyddo i gael caniatâd cynllunio am gyfleusterau Parcio a Rhannu yn ardaloedd Bangor a Chaernarfon.

6.1.11 Cynhaliwyd dadansoddiad o ddata damweiniau ar sail cyfartaledd y pum mlynedd diwethaf o ddata STATS19 (h.y. 1 Ionawr 2011 hyd 31 Rhagfyr 2015 yn gynwysedig). Nodwyd clystyrau o ddamweiniau ar y rhannau ganlyn o ffyrdd a gafodd eu hasesu, yn berthnasol i CG:

- A55 Cyffordd 12 i Bont Britannia;
- Pont Britannia i A55 Cyffordd 6;
- A5 Rhostrehwfa i A5 Porthaethwy; a'r
- A55 Cyffordd 9 i'r A487 Ffordd Osgoi'r Felinheli (dau glwstwr).

6.1.12 Gall y cynnydd mewn llif traffig yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd newid y risg y bydd damweiniau'n digwydd ar y rhwydwaith ffyrdd ac effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd.

**Effeithiau Lleol Cadarnhaol**

6.1.13 Mae CG yn gwerthfawrogi'r mesurau lliniaru a fwriedir i leihau tarddiad llif traffig. Pe'u gweithredir a'u rheoli'n briodol, ystyrir y byddai'r mesurau a ganlyn yn cael manteision cadarnhaol wrth leihau'r llifoedd traffig posib trwy ardal Cyngor Gwynedd fydd yn cael eu creu yn sgil cyfleuster Wylfa Newydd:

- Y Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF), i leihau traffig HGV yn ystod y cyfnod adeiladu;
- Gwasanaethau bysys gwennol i weithwyr i/o Fangor a Chaernarfon, i leihau traffig gweithwyr adeiladu. Yn weithredol o ddechrau'r gwaith adeiladu;
- Campws gweithwyr ar y safle, ar gyfer 4000 o weithwyr (pan fo'r gwaith adeiladu ar ei anterth a rhagwelir cyfanswm o 9,000 o weithwyr); a
- Rhannu ceir trwy raglen o gymhelliant a rheolaeth.

6.1.14 Fodd bynnag, er y byddai'r mesurau uchod o bosib yn lleihau'r traffig a grëir gan y datblygiad, ni fyddant yn gwneud i ffwrdd â'r traffig ychwanegol yn ei gyfanrwydd. Felly, dylai fod yna rwymedigaethau DCO yn cael eu hamlinellu yn y Cod Ymarfer Adeiladu neu ddogfennaeth briodol arall, i sicrhau nad yw'r llifoedd traffig a fodelwyd yn y TA ac a amlinellwyd yn yr ES yn waeth na'r rhai a fodelwyd nac yn para am gyfnod hwy o amser na'r hyn a amlinellir yn y rhaglen adeiladu ac felly achosi effeithiau hwy/gwaeth na'r rhai a ragwelir.

6.1.15 Dylid amlinellu mwy o fanylion wrth rannu'r datblygiad yn gamau, i sicrhau bod y cyfleusterau, megis MOLF yn cael eu hadeiladu yn unol ag amserlenni'r rhaglen a fodelwyd ac, os nad ydynt yn eu lle fel yr amlinellwyd, dylid cyflwyno mesurau lliniaru i sicrhau bod unrhyw effeithiau yn y blynyddoedd cynnar oherwydd diffyg MOLF neu unrhyw estyniad i unrhyw raglen adeiladu yn cael eu hystyried a bod y llifoedd traffig yn cael eu cyfyngu.

**Effeithiau Lleol Niwtral**

6.1.16 Ystyria CG nad yw'r elfennau a ganlyn o'r cynllun yn effeithio ar y Sir, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac felly gellir eu hystyried yn niwtral:

- ni fydd gweithredu'r Parcio a Theithio yn arwain at unrhyw fanteision wrth leihau llifoedd traffig ar rwydwaith priffyrdd CG. Gall fod effeithiau negyddol i CG wrth i'r cyfleuster gael ei adeiladu, oherwydd bod traffig adeiladu yn cael mynediad i'r safle, ac nid yw effeithiau hyn wedi cael eu hasesu. Ni fydd gweithredu'r safle Parcio a Theithio yn effeithio ar rwydwaith priffyrdd CG;

- ni fydd y gwelliannau i'r A5025 yn effeithio ar rwydwaith priffyrdd CG. Gall fod effeithiau negyddol i CG wrth i'r gwaith gael ei adeiladu, oherwydd bod traffig adeiladu yn cael mynediad i'r safle, ac nid yw effeithiau hyn wedi cael eu hasesu.

**Effeithiau Lleol Negyddol**

6.1.17 Mae Horizon wedi gwneud rhagdybiaethau ynghylch yr eitemau a ganlyn, sy'n gosod sail i'r gwaith asesu trafnidiaeth:

- Lleoliadau llety gweithwyr, ac felly'r llwybrau a ddefnyddiant i gyrraedd/ adael safle Wylfa Newydd;

- Y rhaniad o weithwyr fydd ar y tir mawr neu ar Ynys Môn, fydd wedyn yn darparu cyfaint y llif traffig o'r tir mawr yn croesi pont Britannia;

- Rhagdybio lefel y rhannu ceir;

- Lefel y gweithwyr fydd yn defnyddio'r bysys gwennol (Mae Horizon wedi mynnu fod yn rhaid i weithwyr fyw o fewn 600 metr i safle bws gwennol i fod yn gymwys), a'r strategaeth bysys gwennol gyffredinol yn aneglur;

- Patrymau shifftiau ac amseroedd teithio yn sgil hynny;

- Diffyg parcio a theithio a pharcio a rhannu ar y tir mawr;

- Dosbarthiad teithiau; a

- Chronni stoc yn safle Wylfa Newydd, fel yr unig gynllun gwrth gefn os oes oediad mewn cyflenwadau.

Mae gan CG bryderon am y rhagdybiaethau uchod, sy'n cynnwys:

- Parcio cerbydau gweithwyr a HGVs yn anghyfreithlon;

- Bysys Gwennol Amlder, llwybrau a strategaeth reoli a'r posibilrwydd o barcio'n anghyfreithlon;

- Ymfudiad gweithwyr, fyddai felly'n newid y rhagdybiaethau yn y gwaith modelu;

- Tagfeydd yn waeth ar rannau / cyffyrdd yr A55;
- Tagfeydd yn waeth ar Bont Britannia;
- Asesiad Blynyddoedd Cynnar a chyflawni'r mesurau hyn yn hwyr.

**Parcio'n Anghyfreithlon**

6.1.18 Mae CG yn bryderus y bydd pobl yn parcio'n anghyfreithlon yn sgil y datblygiad, croesawir y camau arfaethedig i leihau nifer y teithiau car gyda dim ond un person yn teithio, fodd bynnag bydd y parcio anghyfreithlon a ddaw yn sgil hynny yn ganlyniad annerbyniol. Mae CG yn pryderu y bydd gweithwyr sy'n rhannu ceir neu'n dal bws gwennol yn parcio eu ceir ar ffyrdd lleol, gan achosi aflonyddwch a straen i gymunedau lleol a gall effeithio ar lif traffig mewn rhai enghreifftiau.

6.1.19 Mae'r materion trafnidiaeth a godwyd yn ystod Hinkley Point C (a reolir gan EDF Energy) wedi cael eu hadolygu ac o ystyried pa mor debyg yw'r prosiect hwn a phrosiect Wylfa Newydd h.y. defnyddio bysys gwennol parcio a theithio i gludo gweithwyr adeiladu i'r safle, defnyddio cyfleuster rheoli llwythi i reoli'r llwythi sy'n teithio ar y rhwydwaith ffyrdd a chyfleuster morol i ddod â chyfansymiau mawr o ddeunydd crynswth i'r safle ar y môr.

6.1.20 O ran parcio'n anghyfreithlon, mae gan EDF bolisi tebyg i'r un a fwriedir gan Horizon lle mae gofyn i weithwyr lofnodi cod ymarfer sy'n cydnabod na fydd parcio'n anghyfreithlon yn cael ei oddef, ac y bydd y sawl nad ydynt yn cadw at hyn yn wynebu camau disgyblu. Hefyd, mae gofyn i weithwyr deithio ar lwybr sy'n cael ei ddynodi iddynt yn unig.

6.1.21 Yn ystod y cyfnod gwaith yn Hinkley, nodwyd yn ystod Cyfarfod o'r Fforwm Trafnidiaeth fod pobl yn parcio'n anghyfreithlon mewn ardaloedd lleol lle'r oedd y gweithwyr yn mynd ar y bysys. Cydnabu EDF mai dim ond un o'u cyfleusterau parcio a theithio oedd ar agor yr adeg hynny (J24) a bod y dewis parcio oedd ar gael i'r gweithwyr yn gyfyngedig, a rhagwelwyd y byddai hyn yn gwella wrth iddynt agor safleoedd parcio a theithio eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ymhellach, dechreuodd EDF fonitro'r parcio anghyfreithlon, gyda pholisi tri chyfle i'r rhai hynny a oedd yn parcio'n anghyfreithlon a oedd yn arwain at gysylltu â rheolwr llinell y gweithiwr. I atgyfnerthu hyn, mae rheolwyr bysys ychwanegol wedi cael eu lleoli'n strategol yn y prif leoliadau bysys i herio gweithwyr sydd ddim yn defnyddio eu harosfan bws dynodedig.

6.1.22 Mewn cyfarfod diweddarach o’r Fforwm Trafnidiaeth dywedwyd fod targedu parcio anghyfreithlon wedi bod yn brif flaenoriaeth i Gyfarwyddwr y Safle a'u bod wedi penodi rheolwr parcio newydd ac yn treialu system symudol sganio rhif cofrestru cerbydau newydd i'w galluogi i ymateb yn gynt ac i wneud i ffwrdd â'r angen am gyflwyno tocynnau.

6.1.23 Yn ystod cyfarfod o'r Fforwm Cymunedol pan godwyd mater y parcio anghyfreithlon, gofynnwyd i'r sawl a oedd yn bresennol adrodd am unrhyw gerbydau oedd wedi parcio'n amhriodol i EDF a nodwyd fod tîm yr heddlu wedi bod yn monitro'r broblem. Fodd bynnag, bu i aelod o'r heddlu lleol wneud sylw, os yw eu ceir wedi cael eu trethu a'u hyswirio, fod hawl gan weithwyr i barcio ar briffordd gyhoeddus.

6.1.24 Mewn cyfarfod diweddarach o'r Fforwm Cymunedol, adroddwyd fod pobl yn adrodd am ddigwyddiadau parcio'n anghyfreithlon a bod tîm Hinkley Point C yn ymchwilio iddynt a hefyd yn cynnal gwiriadau rheolaidd. Yn ogystal, roedd ymgyrch fewnol i hyrwyddo'r prif negeseuon yn dechrau dwyn ffrwyth.

6.1.25 Ychwanegwyd mewn cyfarfod arall o'r Fforwm Cymunedol fod hysbysiad parcio'n anghyfreithlon yn cael ei ddosbarthu i holl weithwyr Hinkley Point C i atgyfnerthu'r neges na fyddai parcio'n anghyfreithlon yn cael ei oddef a'i fod yn groes i'r Cod Ymddygiad yr oedd pob gweithiwr wedi'i lofnodi. Nodwyd hefyd fod yr adroddiadau am barcio'n anghyfreithlon yn gostwng ond y byddai'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn parhau.

6.1.26 Nid oes unrhyw gofnodion ar ôl mis Tachwedd 2017 i ddangos p'un a yw cyflwyno'r mesurau hyn wedi atal y parcio anghyfreithlon ai peidio, ond yr hyn sy'n amlwg yw bod angen cyflwyno mesurau a monitro o'r diwrnod cyntaf un yn natblygiad Wylfa Newydd er mwyn atal parcio anghyfreithlon yn gynnar a chyn iddo ddatblygu'n broblem.

6.1.27 Byddai cyfleusterau Parcio a Theithio yn lleddfu hyn yn arosfannau'r bysys gwennol.

**Bysus Gwennol**

6.1.28 Dylai fod yn rhwymedigaeth DCO, fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer Adeiladu neu ddogfennaeth briodol arall, y dylai'r bysus gwennol fod yn weithredol ar ddechrau unrhyw weithgareddau adeiladu, yn cynnwys lluniad y mesurau lliniaru yn y blynyddoedd cynnar, megis y ganolfan logisteg, Parcio a Theithio, gwelliannau oddi ar lein A5025 a'r Cyfleusterau Dadlwytho Morol (MOLF).

6.1.29 Mae angen mwy o fanylion am hyd y gwasanaethau, nifer a lleoliad y safleoedd aros, yr union lwybrau a sut y bwriedir trefnu'r dalgylchoedd ar gyfer safleoedd bysus.

6.1.30 Mae AT Horizon yn datgan *"Disgwylir i'r gwasanaeth bws gwennol gychwyn, yn amodol ar alw'r gweithwyr, ar ddechrau'r gweithgareddau adeiladu."* Mae'r Cyngor o'r farn na ddylai'r ddarpariaeth fod yn amodol ar alw'r gweithwyr; dylid ei orfodi er mwyn sicrhau bod arfer da yn gynhenid o'r cychwyn cyntaf.

6.1.31 Dylid sefydlu bysus gwennol o'r dechrau, gyda llwybrau a safleoedd aros penodedig sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynnwys cymaint â sy'n bosib o weithwyr. Ceir pryderon y gallai cyfyngu'r gwasanaeth i weithwyr sy'n byw o fewn 600 metr o safle bws gwennol yn unig achosi problemau megis parcio anghyfreithlon gyferbyn â'r safleoedd bws hyn o ganlyniad i weithwyr, nad ydynt yn byw o fewn y radiws 600m, eisiau defnyddio'r math hwn o drafnidiaeth i gael mynediad i'r safle.

6.1.32 Argymhellir bod cymysgedd o wasanaethau cyflym uniongyrchol ar gael i/o'r tir mawr ac i/o Wylfa Newydd. Fodd bynnag, dylid hefyd gynnig rhai gwasanaethau stopio cyfyngedig i sicrhau bod cymaint o weithwyr â phosib yn byw o fewn dalgylchoedd penodol o 600 metr i safle bws gwennol.

6.1.33 Argymhellir bod angen adolygu gwasanaethau bws gwennol yn rheolaidd a bod y dull yn cael ei wella os nad yw'r defnydd mor uchel ag y tybiwyd yn yr asesiad trafnidiaeth.

6.1.34 Mae gan GG bryderon y bydd cwmnïau bysus lleol yn cael eu denu i ddarparu'r gwasanaethau bws gwennol hyn ac y bydd yn arwain at brinder gwasanaethau eraill sydd eu hangen, megis cludiant ysgol.

**Lleoliadau Gweithiwr**

6.1.35 Ceir pryderon na fydd gweithwyr yn gallu dod o hyd i lety yn yr ardaloedd tybiedig o fewn gwaith dadansoddi'r Asesiad Trafnidiaeth. O ganlyniad, ni fydd rhagdybiaethau ar y rhaniad tir mawr / yr ynys, a dulliau teithio yn gyson â'r gwaith modelu a wnaethpwyd. Mae CG yn cydnabod bod prawf sensitifrwydd wedi cael ei gynnal yn y model oedd yn dyblu maint traffig gweithwyr adeiladu o'r tir mawr. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor bryderon o hyd ynglŷn â'r rhagdybiaethau gwaelodlin a wnaethpwyd gan Horizon a'r newidiadau posib i hyn yn arwain at effeithiau negyddol yn yr ardal nad oes ganddi strategaeth reoli na lliniaru cytunedig sydd wedi'i hamlinellu yn rhwymedigaethau'r DCO.

**Pont Britannia**

6.1.36 Rhagwelir llawer o lif traffig ychwanegol ar Bont Britannia er mwyn osgoi adegau prysuraf y diwrnod oherwydd amserlennu amseroedd dechrau a gorffen sifft. Rhagwelir peth oedi

ychwanegol, er y rhagwelir y bydd hyn yn gymharol fychan. Dylid cael cyfyngiadau cerbydol a phennu oriau teithio mewn dogfen reoli DCO i sicrhau nad yw senarios teithio annerbyniol yn digwydd.
"Y prif ffyrdd sy'n debygol o gael eu defnyddio i gael mynediad i brif safle Wylfa Newydd yw'r A5, yr A55 a'r A5025. Mae'r prif broblemau ffyrdd presennol yn ymwneud â'r ddwy bont sy'n rhoi mynediad i'r Ynys ar draws y Fenai (Pont Britannia A55 a Phont Menai A5), sydd yn ddwy gerbydlon sengl, yn gweithredu'n agos i gapasiti presennol yn ystod oriau brig ac yn profi'r lefelau uchaf o draffig yn ystod tymor gwyliau'r haf.

6.1.37 Er y rhagwelir y bydd symudiadau traffig tu allan i oriau brig "normal" ar gyfer traffig adeiladu, ceir pryder y bydd prysurdeb yn lledaenu oherwydd natur y llif traffig. Rhagwelir y bydd llif traffig adeiladu ar Bont Britannia yn agos iawn i'r cyfnodau brig hyn ac y bydd cyfanswm y llif traffig yn debyg iawn; felly, ni fydd capasiti dros ben nac wrth gefn petai digwyddiadau sy'n achosi oedi yma a thraw ar y rhwydwaith ffyrdd yn codi.

6.1.38 Disgwylir cais DCO ar Gysylltiad Gogledd Cymru'r Grid Cenedlaethol yn 2018 a disgwylir i waith adeiladu ddechrau yn 2020 a pharhau am bedair i bum mlynedd. Bydd adeiladu Cysylltiad Gogledd Cymru'r Grid Cenedlaethol yn creu symudiadau cerbydau adeiladu, yn cynnwys rhai dros Bont Britannia. Felly, bydd hyn yn ychwanegu mwy o bwysau ar gyswllt y briffordd hon.

**Asesiad Blynyddoedd Cynnar**

6.1.39 Mae CG yn bryderus y gallai effeithiau traffig lleol wrth adeiladu'r MOLF, Parcio a Theithio, Canolfan Logisteg, Campws ar y Safle ac ymgymryd â gwelliannau oddi ar lein A5025 gael effeithiau lleol ar briffyrdd nad ydynt wedi cael eu hasesu; ac felly, mae unrhyw effaith all godi yn anhysbys ac nid oes unrhyw fesurau lliniaru wedi'u cynnig ar eu cyfer petai effeithiau annerbyniol yn digwydd o ganlyniad i'r gwaith. Er y derbynnir na fydd effeithiau cyffredinol efallai ddim mor fawr eu maint â chyfnod prysuraf cyfnod adeiladu prif ddatblygiad Wylfa Newydd yn ei anterth, gallent gael eu hystyried yn negyddol ar lefel lleol.

6.1.40 Os na fydd y mesurau uchod yn cael eu darparu ac yn weithredol pan fyddant i fod i gael eu rhaglennu, mae angen mesurau i ymdrin â hyn; er enghraifft, os yw'r MOLF yn hwyr, yna ni fydd hyn yn cael gwared ar 60% o draffig danfon HGV o'r rhwydwaith. O ganlyniad, mae angen amlinellu, deall ac ymdrin â'r goblygiadau hyn.

**Tywydd Garw**

6.1.41 Mae'r pontydd ar draws y Fenai yn gallu cau pan fydd tywydd garw. Mae'n debygol hefyd na fydd y tywydd bob amser yn galluogi i'r MOLF gael ei ddefnyddio ar gyfer danfoniadau. Er bod CG yn derbyn bod Horizon wedi nodi y bydd ganddynt bentwr stoc wrth gefn o ddeunyddiau ar y safle i bara am bythefnos, mae angen mwy o gynlluniau argyfwng wrth gefn petai'r amodau'n arwain at dywydd garw (neu amgylchiadau eraill) sy'n stopio danfoniadau dros y pontydd neu'r MOLF am fwy na'r bythefnos hon. Ni fyddai'n dderbyniol gan GG petai HGVs neu weithwyr yn loetran ar briffyrdd ar y tir mawr neu'n aros mewn trefi yn disgwyl i'r tywydd garw fynd heibio.

**Mesurau**

6.1.42 Er bod CG yn cydnabod bod prawf sensitifrwydd wedi cael ei gynnal bellach i asesu effeithiau dyblu traffig gweithwyr adeiladu o'r tir mawr, ystyrir y dylid cael yr isod:

- cyfyngiadau llif traffig, ar gyfer cerbydau HGVs a gweithwyr (fel yr amlinellir yn nogfennau rheoli'r DCO);
- cytundebau ar ffyrdd y gall traffig sy'n ymwneud â Wylfa deithio arnynt, gyda chyfyngiadau llif traffig ar y ffyrdd hyn;
- cytundebau ar yr amser pryd all cerbydau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd deithio;

- dylid ymgymryd â gwaith monitro mewn prif leoliadau sensitif, megis Pont Britannia, yn y ddau gyfeiriad i sicrhau nad yw llif traffig yn fwy na'r cyfyngiadau y dylid eu hamlinellu mewn dogfennau rheoli'r DCO megis y Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP).

**Digonolrwydd y DCO**

6.1.43 Mae CG yn gofyn i'r elfennau isod gael eu hamlinellu a'u hymrwymo iddynt yn nogfennau rheoli'r DCO, e.e. y CoCP, fel a ganlyn:

- cyfyngiadau ar bob traffig cerbydol o ran maint, amseroedd, oriau cyfyngedig a pharhad symudiadau;

- Strategaeth Raddol fanwl ar gyfer y prosiect;

- manylion monitro a rheoli traffig, gyda chosbau a mesurau lliniaru wedi'u hamlinellu ar gyfer mynd dros gyfyngiadau;

- manylion cynllunio teithio i reoli traffig ac amlinellu mesurau rheoli.

6.1.44 Ar hyn o bryd, mae prinder manylion yn y CoCP a fyddai'n ddisgwyliedig ar gyfer prosiect o'r math hwn.

6.1.45 Hyd yma, mae gan faint traffig HGV gyfyngiad cyffredinol wedi'i amlinellu yn y CoCP, ond dylid cael cyfyngiadau ar yr holl symudiadau traffig cerbydol ynghyd â mesurau i gadw atynt.

6.1.46 Gofynnir hefyd i fwy o fanylion gael eu darparu am y gwaith adeiladu graddol sy'n gysylltiedig â strategaeth rheoli traffig adeiladu yn amlinellu manylion llawn cynllun rheoli traffig adeiladu (CTMP), yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gyfyngiadau llif traffig, cyfyngiadau parhad, cyfyngiadau cyfnodau amser, cyfyngiadau llwybrau i sicrhau bod pob ymdrech resymol yn cael ei wneud i gadw at y paramedrau tybiedig yn yr holl waith asesu a wnaethpwyd, sy'n dangos effeithiau cymedrol i finimal.

6.1.47 Dylai Cynlluniau Teithio fod yn fanwl a gorffenedig cyn gwneud unrhyw waith i sicrhau bod camau gorfodi a chyfyngiadau traffig wedi'u hamlinellu'n glir cyn dechrau ar unrhyw safle sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Dylent, er enghraifft, amlinellu'n glir sut fydd dau berson yn rhannu car, neu weithwyr yn defnyddio'r bysus gwennol, yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod gwaith adeiladu'r datblygiad, sydd yn baramedrau hanfodol yn tanategu'r gwaith asesu trafnidiaeth.

6.1.48 Dylid ymgymryd â gwaith monitro traffig ar adegau allweddol, megis Pont Britannia, i sicrhau nad yw traffig HGVs a gweithwyr yn cyrraedd tu allan i'r oriau penodedig a fodelwyd ac nad ydynt yn fwy na nifer mwyaf y cerbydau a amlinellir yn y CoCP.

**Sylwadau polisi cynllunio**

6.1.49 Mae Maen Prawf 3 Polisi Strategaeth PS 9 yn cynghori y dylai'r cynllun isafu effeithiau trafnidiaeth andwyol i lefel dderbyniol, yn cynnwys datrysiadau aml-ddull a buddsoddiad sy’n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio a dulliau cynaliadwy eraill o deithio. Pan ddengys cysylltedd trafnidiaeth annigonol mewn asesiadau, os nad oes gan y rhwydwaith ffyrdd ddigon o gapasiti neu os rhagwelir effaith andwyol, mae Maen Prawf 12 Polisi Strategaeth PS 9 yn cynghori y dylid darparu gwelliannau priodol i'r rhwydwaith ffyrdd a darparu opsiynau teithio cynaliadwy er mwyn lliniaru'r effeithiau. Mae Maen Prawf 6 Polisi Strategaeth PS 9 yn cydnabod y gall amgylchiadau annisgwyl godi wrth i'r prosiect ddatblygu, ac felly, byddai'n rhesymol i'r darparwr ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r Cynghorau a effeithir neu am y gwaith fydd yn cael ei wneud ganddo. Ar sail y gynsail hon, dylid ymgorffori

mecanweithiau adolygu ar gyfer monitro'r amrediad llawn o effeithiau, i adolygu digonolrwydd mesurau lliniaru neu iawndal a gwneud addasiadau yn ôl y gofyn.

6.1.50 Mae'r effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol lleol posib a ddisgrifir yn yr adrannau uchod yn sbarduno'r angen i ystyried y meini prawf y soniwyd amdanynt uchod ym Mholisi Strategol PS 9.

## 6.2 Datblygu economaidd gan gynnwys twristiaeth

**Cyd-destun**

6.2.1 Mae hyrwyddo lles, gan gynnwys hyrwyddo neu wella lles economaidd eu hardal (Deddf Llywodraeth Lleol 2000)[1], yn rhan allweddol o waith Awdurdod Lleol sy'n cael ei danlinellu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[2].

6.2.2 Mae ymrwymiad Cyngor Gwynedd i gynyddu ffyniant ei drigolion wedi ei ddatgan yn 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 2023'[3]. Blaenoriaeth Gwella gyntaf y Cynllun yw i 'wella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n talu'n dda'.

6.2.3 Yn economaidd, mae'r darlun cymysg sydd yng Ngwynedd; yn hanesyddol mae'r sir gyda lefelau cyfartalog o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd (gan eithrio myfyrwyr) o ganlyniad i'w farchnad llafur cyfyngedig, ond mae cyflogau a chynhyrchedd ymhlith yr isaf yn y DG, o ganlyniad i ba mor gyffredin yw gwaith rhan amser a thymhorol, lefelau uchel o hunan gyflogaeth a dibyniaeth ar sectorau gwerth isel; yn arbennig yn rhannau llai datblygedig y sir yn y gorllewin a'r de:

- Poblogaeth 16 i 64 oed yn 60.6% yn 2017 2.3% o dan y gyfradd ar gyfer Prydain Fawr (Nomis)[4];
- Anactifedd (gan eithrio myfyrwyr) yn y flwyddyn yn gorffen 30 Mehefin 2018 yn 19.3% o'i gymharu â 20.1% yng Nghymru a 17.8% yn y DG (StatsCymru)[5];
- Y gyfradd diweithdra ILO yn y flwyddyn yn gorffen 30 Mehefin 2018 yn 4.1% o'i gymharu â 4.8% yng Nghymru â 4.2% yn y DG (StatsCymru)[6];
- Y gyfradd gwaith rhan-amser yn y flwyddyn yn gorffen 30 Mehefin 2018 yn 32.8% 4.6% yn uwch nac ledled Cymru ac 6.2% yn uwch nac yn y DG gyfan (StatsCymru)[7]
- 13,100 o weithwyr yn cymudo'n ddyddiol i Wynedd gan gynnwys 7,000 o Ynys Môn (StatsCymru)[8];
- Tâl gros cyfartalog wythnosol yng Ngwynedd ymysg yr isaf ym Mhrydain Fawr sef £478.40, 84% o gyfartaledd Prydain Fawr (Nomis)[9];
- Gwerth Ychwanegol (GVA) fesul swydd wedi ei lenwi yng Ngwynedd dim ond yn 70% o gyfartaledd y DG, un o'r isaf yn y Deyrnas Gyfunol (ONS)[10]

1 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/22/pdfs/ukpga_20000022_en.pdf
2 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_we.pdf
3 https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Gwynedd-2017-2018/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-2023.pdf
4 https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157384/report.aspx?town=gwynedd
5 https://statscymru.llyw.cymru/v/EhAl
6 https://statscymru.llyw.cymru/v/EhAm
7 https://statscymru.llyw.cymru/v/EhJX
8 https://statscymru.llyw.cymru/v/EhJV
9 https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157384/report.aspx?town=gwynedd
10 https://bit.ly/2eNL4B2

6.2.4 Er bod Wylfa Newydd a'i datblygiadau cysylltiedig wedi eu lleoli ar Ynys Môn; gan ystyried maint y buddsoddiad a'r cyflogaeth fydd yn deillio a natur integredig economi a marchnad llafur Gwynedd a Môn; mae Cyngor Gwynedd o'r cychwyn gyntaf, wedi croesawu'r cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd all ddeillio ac wedi datgan dymuniad i ymgysylltu gyda Phŵer Niwclear Horizon i uchafu'r effeithiau cadarnhaol.

6.2.5 Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn ymwybodol o ac wedi tynnu sylw i'r potensial ar gyfer rhai goblygiadau negyddol ac wedi gofyn i gael gweithio gyda Phŵer Niwclear Horizon i finimeiddio unrhyw effeithiau negyddol[11].

6.2.6 Mae perthnasedd Gwynedd i ddatblygiad Wylfa Newydd wedi ei adlewyrchu yng nghynnwys rhan helaeth y sir o fewn yr 'Ardal Astudiaeth Allweddol Economaidd-cymdeithasol' (KSA) a'r 'Ardal Cymudo Dyddiol Adeiladu' (DCCZ).

6.2.7 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn aelod rhagweithiol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac yn ymwybodol y gall datblygiad Wylfa Newydd ddigwydd yn gyfochrog â nifer o brosiectau sylweddol eraill fel rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru[12] all gynyddu effeithiau cadarnhaol Wylfa Newydd neu gymhlethu unrhyw effeithiau negyddol, yn fwyaf arbennig mae'r Cyngor yn credu y gall cyfleoedd godi wrth i ddatblygiad Safle Dadgomisiynnu Niwclear Trawsfynydd yn lleoliad ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bach (SMR) barhau.

**Effeithiau Lleol Cadarnhaol**

6.2.8 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod o'r farn yn gyson fod gan Wylfa Newydd y potensial i gyflawni effeithiau cadarnhaol sylweddol yn lleol ac, fel nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor yn dymuno gweithio'n rhagweithiol gyda Phŵer Niwclear Horizon a phartneriaid eraill i sicrhau fod y rhain yn cael eu cyflawni i'r eithaf

**Marchnad llafur**

6.2.9 Mae cyfleoedd amlwg i drigolion Gwynedd elwa'n uniongyrchol o'r swyddi fydd yn cael eu creu gan Wylfa Newydd yn ystod ei adeiladu ac wedi hynny.

6.2.10 Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu targed Pŵer Niwclear Horizon fod 85% o'r gweithlu wedi i'r pwerdy fod yn weithredol am gael eu recriwtio o'r ardal leol gan gynnwys Gwynedd, byddwn am gydweithio gyda Horizon i sicrhau fod y targed yma'n cael ei adlewyrchu ym mhob rôl gan gynnwys swyddi rheolaethol, technegol a gwyddonol. Dymunai'r Cyngor weithio gyda Horizon a phartneriaid i sicrhau buddsoddiad hirdymor yn ymgysylltu plant a phobl ifanc ym mhynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) gan ddarparu llwybr dysgu a gyfra clir i'r diwydiant niwclear (gan gynnwys Wylfa Newydd a datblygiadau eraill perthnasol megis dadgomisiynnu Wylfa a Thrawsfynydd ac SMR posibl yn Nhrawsfynydd). Hoffem weld ymrwymiad clir i hyn gan Horizon fel rhan o'r broses caniatáu a chynnydd ym maint a dwysedd y gweithgareddau yma cyn gynted â phosib i symud yr agenda yn ei flaen.

6.2.11 Yng nghyswllt adeiladu Wylfa Newydd, mae Cyngor Gwynedd yn croesawu rhagolwg Pŵer Niwclear Horizon y bydd 2,000 o swyddi uniongyrchol yn cael eu meddu gan drigolion lleol, gyda 1,800 i'w credu yn anuniongyrchol (yn amodol i'r sylwadau isod parthed y risgiau posibl). Mae'r Cyngor yn nodi fod rhain yn rhagolygon achos gwaethaf (h.y. isafswm); er efallai fod hyn yn ddull gweithredu addas ar gyfer rhagweld y galw am lety a.y.b., ond nid yw'n fuddiol ar gyfer rhagweld a chynllunio'r pwysau ar y farchnad lafur lleol. Dymunai Cyngor Gwynedd weithio gyda Phŵer Niwclear Horizon a phartneriaid megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i adnabod targed delfrydol ar gyfer cyflogaeth leol - gyda ffocws ar swyddi gwerth uwch - sydd yn uchafu'r budd lleol ac yn minimeiddio unrhyw risgiau posibl.

---

11 Ymatebion Cyngor Gwynedd i PAC1 (xxxx); PAC2 (xxxx) a PAC3 (xxxx)

12 https://bit.ly/2FsnLi2

**Cadwyni Cyflenwi**

6.2.12 Mae cyfleoedd clir i gwmnïau lleol elwa'n uniongyrchol o Wylfa Newydd drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. O ystyried maint ac ystod y deunydd fydd ei angen i gefnogi adeiladu Wylfa Newydd mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y bydd cyfyngiadau ar allu'r economi lleol (Gwynedd a Môn) a rhanbarthol (Gogledd Cymru) i gwrdd â'r angen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dymuno gweld cynnydd sylweddol yn ymgysylltiad Pŵer Niwclear Horizon i ddiffinio'r cyfleoedd i gyflenwyr lleol, yn arbennig yng nghyswllt nwyddau a gwasanaethau gwerth uwch, gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer prynu'n lleol gan Horizon a'i gytundebwyr ac i gefnogi busnesau lleol i fanteisio ar y cyfleoedd.

6.2.13 Eto, dymunai'r Cyngor weld datblygiad cadwyni cyflenwi Wylfa Newydd yn cael ei ystyried yng nghyd-destun datblygiadau eraill yng Ngogledd Cymru, gan y galli hyn gynyddu hyfywdra darparu cefnogaeth i ddatblygu cyflenwyr lleol i gwrdd ag anghenion mwy arbenigol.

**Effeithiau Lleol Niwtral**

6.2.14 Ac eithrio cyfleoedd swyddi a cadwyn cyflenwi yn gysylltiedig a'u hadeiladu (fel a nodwyd uchod), ni fydd y cyfleoedd economaidd anuniongyrchol posib all ddeillio o gyfleusterau / datblygiadau oddi ar safle'r pwerdy megis Parcio a Teithio Dalar Hir, y Ganolfan Logisteg a'r gwelliannau i'r A5025 yn cael effaith ar Wynedd.

**Effeithiau Lleol Negyddol**

6.2.15 Fel y nodwyd, mae Cyngor Gwynedd wedi credu o'r cychwyn fod datblygiad Wylfa Newydd gyda'r potensial i greu effeithiau cadarnhaol sylweddol yn lleol ac i'r rhanbarth yn ehangach.

6.2.16 Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn ymwybodol y gallai datblygiad o faint Wylfa Newydd gynhyrchu rhai effeithiau negyddol i'r economi lleol. Hoffai Cyngor Gwynedd weithio gyda Phŵer Niwclear Horizon a phartneriaid megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i adnabod, monitro a lleihau / lliniaru'r risg o effeithiau lleol negyddol.

**Marchnad llafur**

6.2.17 Mae'r budd uniongyrchol posibl o'r gyflogaeth sydd i'w greu o adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd eisoes wedi eu nodi uchod.

6.2.18 Mae'r nifer mawr o swyddi sydd i'w creu yn y farchnad llafur lleol, yn arbennig yn ystod y cyfnod adeiladu (isafswm o 2,000 yn uniongyrchol a 1,800 pellach yn anuniongyrchol); yn creu risg i'r economi lleol petai cyflenwad annigonol o lafur ar gael i gwrdd â'r galw.

6.2.19 Fe allai cyflenwad annigonol o lafur arwain at ddadleoli swyddi o fusnesau lleol i Bŵer Niwclear Horizon a'i gytundebwyr ac / neu arwain at bwysau i gynyddu cyflogau allai danseilio hyfywdra rhai mentrau lleol. Byddai'r effeithiau hyn gyda chanlyniad negyddol i'r economi lleol.

6.2.20 Mae Strategaeth Swyddi a Sgiliau Pŵer Niwclear Horizon (cyfeirnod Cais: 8.3) yn awgrymu fod cyflenwad digonol o lafur ar gael yn y KSA / DCCZ i gwrdd â'r angen a ragwelir. Fodd bynnag, mae'r 'Asesiad o'r Risg o Ddadleoli' a chomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o Hardisty Jones Associates (wele Atodiad X) yn awgrymu fod diffyg sylweddol yn y nifer o weithwyr sydd ar gael i gwrdd ag anghenion Wylfa Newydd, yn arbennig yng nghyswllt swyddi gyda sgiliau uwch. Allai hyn arwain at weithwyr yn y meysydd hyn yn gadael cwmnïau lleol i weithio yn Wylfa Newydd. Mae Gwynedd yn arbennig o agored i'r effeithiau hyn gan ei fod yn agos at Wylfa Newydd.

6.2.21 Ym marn y Cyngor, fe all y risg o ddadleoli cael ei waethygu gan y nifer gymharol fach o ddi-waith sydd yn y farchnad llafur, sy'n awgrymu fod angen cymorth sylweddol ar yr unigolion sy'n weddill cyn eu bod yn barod am waith; fe allai safonau uchel ac anghenion penodol y

diwydiant niwclear (fetio a.y.y.b.) eithrio llawer o'r unigolion hyn o allu sicrhau gwaith yn Wylfa Newydd. Dylid hefyd nodi, fod diffyg gweithwyr eisoes yn bryder gan nifer o sectorau megis twristiaeth, yn arbennig yn y cyfnod ar ôl Brexit; bydd y galw am weithwyr gan Wylfa Newydd yn cynyddu'r her mae cyflogwyr yn eu hwynebu i recriwtio staff cymwys.

6.2.22 Yng ngoleuni'r risgiau sylweddol a nodir uchod, dymunai Cyngor Gwynedd weld blaenoriaethu ymdrechion i leihau a lliniaru'r risg i'r farchnad llafur lleol, gydag adnoddau digonol wedi eu dyrannu i fonitro ardrawiad Wylfa Newydd ac i ymateb mewn modd addas, gan gynnwys cefnogaeth i fusnesau lleol lenwi swyddi ble mae'r staff wedi eu colli.

6.2.23 Mae'r Cyngor yn cefnogi'r bwriad i sefydlu Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth Wylfa Newydd (WNESS), cyn belled a bod sgôp ei weithgaredd a'r ardal gweithredu yn ddigonol. Dymunai Cyngor Gwynedd fod yn bartner llawn yn natblygiad a gweithredu'r WNESS. .

**Twristiaeth**

6.2.24 Mae twristiaeth yn sector sylweddol yng Ngwynedd ac ar draws DCCZ Wylfa Newydd. Mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru (wele Atodiad X) yn amcangyfrif fod cyfanswm gwerth twristiaeth i'r DCCZ yn £2.2Bn a bod y sector yn cefnogi dros 31 mil o swyddi. Byddai effaith negyddol fach ar y sector gan Wylfa Newydd felly yn cael effaith economaidd sylweddol.

6.2.25 Mae'r risgiau posibl i dwristiaeth o ganlyniad i Wylfa Newydd yn ymwneud â effaith negyddol ar ganfyddiadau o'r ardal fel cyrchfan ac effaith posibl ar argaeledd llety ymwelwyr petai'r llety yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu.

6.2.26 Mae ymchwil gan Bŵer Niwclear Horizon eisoes wedi awgrymu y gallai rhai twristiaid ailystyried ymweld â Môn o ganlyniad i'r cynllun ac mae risg allai Gwynedd gael ei effeithio i raddau llai. Dylai Horizon sicrhau fod adnoddau digonol ar gael i leddfu'r risgiau hyn gan gynnwys buddsoddi o flaen llaw i farchnata'r ardal i ymwelwyr.

6.2.27 Mae'r Cyngor yn ystyried fod argaeledd llety ymwelwyr i gynnig gofod i weithwyr dros dro Wylfa Newydd wedi ei or-ddweud ac yn seiliedig ar ddata hen (mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwil ar hyn o bryd i ddarganfod faint o lety sydd ar gael yn bresennol). Yn ychwanegol mae'r Cyngor yn ystyried fod defnydd o lety gan weithwyr dros-dro yn anghydnaws â chynnal eu defnydd ar gyfer ymwelwyr gan fod anghenion y ddwy garfan yn wahanol. Dymunai Cyngor Gwynedd i Horizon sicrhau argaeledd llety amgen ac annog gweithwyr i beidio defnyddio llety ymwelwyr.

6.2.28 Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r awdurdod cael chware ran lawn yn datblygu a gweithredu mesurau monitro a lliniaru yn gysylltiedig â thwristiaeth.

**Cadwyni cyflenwi**

6.2.29 Fel nodwyd yn flaenorol, mae Cyngor Gwynedd yn credu y dylid annog a chefnogi manteisio ar y cyfleoedd i fusnesau lleol gyflawni nwyddau a gwasanaethau i Wylfa Newydd.

6.2.30 Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod fod perygl o effeithiau negyddol petai cost nwyddau a gwasanaethau yn y rhanbarth yn cynyddu o ganlyniad i'r galw ychwanegol gan Wylfa Newydd, fodd bynnag nid oes modd cyfrifo'r effaith gan fod diffyg gwybodaeth.

6.2.31 Eto dymunai'r Cyngor ofyn ei fod yn cael chware ran lawn yn y strwythurau sydd i'w datblygu i fonitro a lliniaru unrhyw effeithiau.

**Digonolrwydd y DCO**

6.2.32 Mae diffyg gwybodaeth ddigonol yn nogfennaeth y GCD ar hyn o bryd i alluogi Cyngor Gwynedd i fod yn fodlon fod ei bryderon wedi / am gael eu hystyried. Yn benodol, nid yw dogfennau allweddol megis y Cynllun Gweithredu Cadwyn Cyflenwi wedi eu derbyn.

6.2.33 Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn fod yr elfennau canlynol yn cael eu gosod allan a'u hymrwymo iddynt yn y dogfennau rheolaeth megis y CoCP

- Fod Cyngor Gwynedd yn cael ei gynnwys yn llawn yn yr holl Is-grwpiau Monitro ac Ymgysylltiad.
- Fod monitro yn digwydd yn gynnar a'i fod yn barhaus yn ystod y cyfnod adeiladu
- Fod mesurau lliniaru yn cael eu gweithredu yn rhagweithiol pan yn briodol
- Fod lliniaru yn dilyn effaith ac yn ystyried yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a'r effeithiau ysgogwyd
- Monitro parhaus o'r effeithiau cronnol o Wylfa Newydd yng ngoleuni'r nifer fawr o brosiectau sylweddol allai gael eu gweithredu yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i Gais Twf Gogledd Cymru.

**Sylwadau Polisi Cynllunio**

6.2.34 Mae Maen Prawf 9 Polisi PS 9 yn gofyn am ddull rhagweithiol ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio er mwyn uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol. Awgryma'r materion a godwyd mewn perthynas â'r effeithiau ar y farchnad lafar, y gadwyn gyflenwi a'r economi ehangach bod angen gwybodaeth a mesurau ychwanegol er mwyn cyd-fynd yn well â'r disgwyliadau a amlinellwyd ym maen prawf 9.

6.2.35 Ni fyddai methiant i gynyddu cyfleoedd yn lleol yn cyd-fynd â Chynllun Cyngor Gwynedd (2018 – 2023) a byddai'n cael effaith negyddol ar strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sy'n cefnogi newid economaidd trawsffurfiol a ragwelir yn gysylltiedig â Wylfa Newydd a datblygiad arall yn ardal y Cynllun fel modd o alluogi aelwydydd lleol i edrych ar ôl eu hunain a chychwyn newid tueddiadau'r gorffennol drwy gadw a denu aelwydydd o oedran gweithio i ardal y Cynllun, i gynnal a chreu cymunedau mwy cynaliadwy.

## 6.3 Effaith Cymunedol a'r Iaith Gymraeg

### Cyd-destun

6.3.1 Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 65.4% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, a 40 allan o'r 71 ward yn y sir yn cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Mae gan CG ymrwymiad sefydledig i warchod a hybu'r iaith Gymraeg ond mae hefyd yn sir o wrthgyferbyniadau ac eithafoedd o safbwynt ieithyddol sydd yn cyflwyno ei heriau ei hun o ran ceisio gweithredu ar yr ymrwymiad yma. Mae'r prif heriau yn yr 11 ward yna lle mae llai na 50% o siaradwyr Cymraeg. Mae gan Fangor, sydd yn ardal o bryder arbennig i CG yng nghyd-destun y datblygiad hwn, yn cynnwys dwy o'r wardiau gyda'r canrannau isaf yn y sir. Ar gyfartaledd, dim ond 39.3% o bobl Bangor sydd yn siarad Cymraeg. Gellir priodoli'r gwrthgyferbyniad llwyr yma i ardaloedd cyfagos yn y sir i raddau helaeth i nifer uchel y myfyrwyr yn y ddinas, ac hefyd i'r dau gyflogwr mawr – Prifysgol Bangor ac Ysbyty Gwynedd – sydd yn denu llawer o bobl o tu allan i'r sir a'r wlad i weithio, ac felly mae'n ardal sydd eisoes mewn sefyllfa fregus yn ieithyddol. Mae CG wedi ceisio ymateb i'r heriau sydd yn wynebu'r iaith yn y ddinas drwy sefydlu Canolfan iaith yno, a chyflogi Swyddog Datblygu sydd yn gweithio i hybu a chynyddu defnydd o'r iaith yn y ddinas, ond mae yna bryder y bydd y datblygiad mawr gan Horizon yn ychwanegu at y boblogaeth gyffredinol ac at nifer y boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y ddinas a'r ardal gyfagos, ac yn rhoi mwy o straen ar adnoddau a chapasiti i weithredu.

6.3.2 Mae Gwynedd yn gyffredinol wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y boblogaeth dros y degawdau diweddar, gyda'r boblogaeth yn codi o 54,501 yn 2001 i 58,427 yn 2011, ond mae hefyd wedi gweld gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ar draws y sir. Mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad nifer o ffactorau cymhleth, ond cytunir yn gyffredinol mai dwy o'r prif ffactorau yw allfudo ymysg pobl ifanc i fynd i'r brifysgol ac i chwilio am waith, a mewnfudo ymysg y genhedlaeth hŷn o du allan i'r sir. O ganlyniad, gellir gweld gostyngiad nodweddiadol o sylweddol yn nifer y siaradwyr yn y grwp oedran 16-24 oed. Unwaith eto, mae CG wedi cydnabod yr angen i fod yn rhagweithiol i dargedu'r gostyngiad yma, fel y gellir gweld yn ei ddogfen strategol, Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23, ond bydd

unrhyw ddatblygiad graddfa fawr sydd yn dod a nifer anhysbys o bobl i'r sir yn fygythiad i unrhyw ymdrechion ar ran y Cyngor a phartneriaid eraill yn y maes hwn, ac i'r cydbwysedd ieithyddol yn yr ardal.

6.3.3 Mae Gwynedd yn cynhyrchu nifer fawr o siaradwyr Cymraeg drwy ei system addysg lwyddiannus, gyda 90% o blant oed ysgol yn gallu siarad yr iaith. Mae holl ysgolion cynradd y sir yn rhai sydd yn dysgu drwy gyfrwng Cymraeg, ac o ganlyniad, mae disgwyliad i bob plentyn sydd yn mynychu siarad a chymryd rhan ym mywyd yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwasanaeth trochi hynod effeithiol yn cael ei weithredu gan Adran Addysg CG, ac mae cyrhaeddiad addysgol yr ysgolion yn cefnogi'r darlun hwnnw, ond nid yw effeithiolrwydd y gwasanaeth hwnnw yn golygu nad oes effaith o gwbl pan fydd plentyn o gefndir di-Gymraeg yn dod i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae tystiolaeth o gynllun y Siarter Iaith yn dangos bod dylanwad hyd yn oed un disgybl di-Gymraeg ar ganol blwyddyn yn gallu cael effaith negyddol ar iaith gymdeithasol gyffredinol yr ysgol. Cafodd cynllun y Siarter iaith ei sefydlu yng Ngwynedd rai blynyddoedd yn er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r defnydd cynyddol a phryderus o'r Saesneg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac fel iaith chwarae ymysg plant.

6.3.4 Er bod y prosiect Wylfa Newydd wedi ei leoli yng ngogledd Ynys Môn, mae'n sicr y bydd rhyw effaith ar y tir mawr hefyd, ac yn benodol felly ar ogledd Gwynedd a'r ardal o amgylch Bangor, ac mae gan CG bryderon mawr o ganlyniad am yr effeithiau cymunedol ac ieithyddol a sut y byddwn yn gallu ymdopi a'r effeithiau hynny.

## Effeithiau Lleol Cadarnhaol

6.3.5 O ystyried mai'r prif reswm am yr allfudo ymysg y genhedlaeth ifanc o'r ardaloedd cefn gwlad yw'r diffyg cyfleoedd economaidd, all CG ddim anwybyddu'r ffaith bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig y posibilrwydd o nifer o swyddi o ansawdd i'r ardal, ac y gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar y gymuned a'r iaith Gymraeg gan y byddai yn caniatáu i bobl aros yn eu cymdogaeth, a pharhau i gyfrannu at eu cymunedau lleol. Mae angen mawr am swyddi lleol, o safon, ac felly er ei bod yn ansicr ar hyn o bryd faint o waith fydd yn mynd i bobl a chwmnïau lleol, mae hyn yn effaith cadarnhaol posib os yw cyfleoedd yn cael eu cynnig a'r ymrwymiad i ddatblygu sgiliau pobl ifanc mewn paratoad ar gyfer y datblygiad yn cael ei weithredu yn llawn.

6.3.6 Gellir ystyried yr ymyraethau sydd wedi eu cynnig i leihau effaith y gweithlu ar yr ardal leol, megis y llety ar y safle, fel effaith gadarnhaol ar Gwynedd, ond ystyrir hyn gyda rhywfaint o wyliadwriaeth. Mae CG yn credu ei bod bron yn amhosib rhagweld lle y bydd y 9,000 o weithwyr cyfnod brig yn byw ac ymgartrefu, ac felly y bydd asesu gwir effaith y mewnfudo hwnnw yn anodd.

6.3.7 Mae ein profiad proffesiynol yn dangos i ni bod ffyniant yr iaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau ac elfennau cymhleth a'i fod yn aml yn dibynnu ar fater o ddewis ac amgylchiadau personol. Ni allwn ragweld dewisiadau personol ac felly ni allwn ddweud i sicrwydd lle y bydd pobl yn dewis byw ac ymgartrefu.

6.3.8 Bydd monitro a chadw data gweithwyr, ynghyd a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allweddol yn effeithiol yn hanfodol er mwyn gallu cymryd camau rhagweithiol i liniaru unrhyw effeithiau posib lle bynnag y bydd y gweithwyr yn ymgartrefu.

## Effeithiau Lleol Niwtral

6.3.9 Mae sawl agwedd ar y datblygiad nad ydynt yn debygol o gael effaith gadarnhaol na negyddol ar y gymuned – yn bennaf felly yr elfennau yn ymwneud efo isadeiledd fel newid yr A5025, a'r safle ei hun – ac felly y gellir eu hystyried yn effeithiau niwtral i safbwynt Gwynedd.

## Effeithiau Lleol Negyddol

6.3.10 Mae CG o'r farn y bydd yna effaith sylweddol ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg ar draws y PAA/KSA, ac yn enwedig felly ar ardal Bangor. Yn y cyd-destun hwn, mae CG yn bryderus ynghylch y diffyg sylw a roddir i'r effaith posib ar Wynedd yn yr asesiad effaith ar y Gymraeg a'r strategaeth liniaru a gyflwynwyd gwn Horizon.

6.3.11 Y prif faes sydd yn achosi pryder i CG wrth edrych ar yr effeithiau negyddol posib yw'r effaith y gallai'r mewnfudiad o weithwyr ei gael ar yr ardal y tu hwnt i Ynys Môn, ac yn benodol yn hynny yr effaith ar iaith a chymuned addysg ardal Bangor.

6.3.12 Mae Horizon yn y Asesiad Ardrawiad Iaith wedi adnabod effaith negyddol ar y gymuned a'r iaith o ganlyniad uniongyrchol i leoliad y gweithwyr. Serch hynny, mae pryder yn dal i fod nad yw'r effaith hwn wedi bod yn cael ei ystyried ar gyfer ardal ddaearyddol digon eang ac nad yw Horizon wedi ystyried yn llawn yr effaith posib ar y tir mawr, ac o ganlyniad i hynny nad yw'r mesurau lliniaru a gynigir ar hyn o bryd yn mynd i'r afael a'r effaith posib hwn yn ddigonol.

6.3.13 Fel y crybwyllwyd uchod, mae gan CG rhywfaint o adnoddau yn weithredol i geisio diogelu'r iaith, ond mae pryder y bydd yr effaith sylweddol ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad yn gwthio'r gwasanaethau hynny y tu hwnt i gapasiti.

6.3.14 Mae CG yn bryderus bod nifer o'r mesurau lliniaru, megis mesur 16 sydd yn cyfeirio at ariannu athrawon trochi, wedi cyfeirio at weithredu yng Ngwynedd "o bosi" ac "os bydd angen", ac yn awgrymu felly y byddai hyn yn digwydd ar sail gweithred ymatebol os byddai asesiad o'r data a gesglir gan y gweithwyr yn dangos yr angen, yn hytrach na bod yn weithred rhagweithiol i geisio paratoi a lleihau yr effaith.

6.3.15 Hoffai CG weld mwy o sicrwydd y byddai'r effaith cymdeithasol ac ieithyddol negyddol ar y tir mawr yn cael ei gyfyngu gan Horizon.

## Effaith negyddol posib ar gymunedau Bangor a'r tir mawr

6.3.16 Mae'r mesurau lliniaru a gynigir gan Horizon i osod y rhan fwyaf o'r gweithwyr ar y llety ar y safle yn cael ei groesawu, ond ni fyddant yn cael gwared yn llwyr ar yr effaith ar yr ardal ehangach. Mae'r gwaelodlin a ddefnyddir yn cymryd i ryw raddau y bydd gweddill y gweithwyr yn byw ar yr ynys, ond mae CG yn ymwybodol bod pryderon na fydd gweithwyr yn gallu dod o hyd i ddigon o lefydd byw o fewn yr ardaloedd a benwyd o fewn y gwaith dadansoddi, ac felly mae'n debygol iawn na fydd y rhaniad rhwng yr ynys a'r tir mawr yn gyson gyda'r modelu a gynigiwyd.

6.3.17 Mae Bangor yn ganolfan ranbarthol ac felly bydd yn leoliad atyniadol o bosib i nifer o'r gweithwyr. Bydd hefyd yn atyniad o safbwynt hamddena a siopa, ac o ran mynediad i wasanaethau cyhoeddus ac iechyd. Mae effeithiau ychwanegol unrhyw drefniadau trafnidiaeth, a chyfleusterau parcio a theithio, yn golygu y gallai mwy o weithwyr nag a feddyliwyd wrth lunio'r gwaelodlin fod yn bwy ac yn teithio i'r safle o'r tir mawr. Mae hyn i gyd yn golygu effaith negyddol ar y gymuned a'r iaith.

6.3.18 Ymhellach i hyn, mae CG yn credu bod rhywfaint o adleoli o fewn y sir yn debygol, ac y gallai hyn gael effaith andwyol ar ddemograffeg ieithyddol nifer o wardiau a chymunedau ar draws y sir. Gallai gweithwyr yn symud o un rhan o'r sir i'r llall adael rhai cymunedau y tu hwnt i ardal astudiaeth y tir mawr (Menai Mainland) yn fregus iawn. Nid yw'n cymryd ond nifer bychan iawn o ran nifer yn y boblogaeth i newid cyfansoddiad ieithyddol cymuned yn llwyr yn ein cymunedau cefn gwlad.

6.3.19 Hyd yn oed pe bai Horizon yn gweithredu yr holl fesurau lliniaru sydd yn ymwneud efo llety'r gweithwyr a casglu data ganddynt, mae'r ffaith yn dal i fodoli nad yw yn bosib i ragweld a rhagdybio pob dim. Ychwanegir at hyn gan y ffaith nad yw Horizon yn gallu sicrhau data llawn

a chywir ar gyfer y gweithwyr, gan y byddai data yn ymwneud efo dibynyddion a theulu sydd yn symud gyda gweithwyr yn cael ei ddarparu yn wirfoddol (Mesurau 12 ac 13). Bydd yn hanfodol felly bod Horizon yn rhannu gwybodaeth, ac yn dangos gallu i ymateb i wybodaeth a data a gesglir gan bartneriaid allweddol yn amserol yn hanfodol. Hyd yma, nid oes digon o wybodaeth wedi ei darparu ynghylch sut y bydd y data yn cael ei asesu a'i rannu a phwy fydd yn asesu ac yn pennu bod effaith negyddol mewn maes neu ardal benodol er mwyn gallu penderfynu lle i dargedu neu ar fesurau lliniaru ychwanegol.

## Effaith ar ysgolion a disgyblion

6.3.20 Y pryder mwyaf gan CG yw effaith posib y datblygiad a'r mewnfudiad o weithwyr ar ysgolion, ac o ganlyniad y dylanwad ar ddefnydd iaith plant eraill yn y gymuned. Mae'r gwaelodlin yn yr asesiad sosio-economaidd (Asesiad Amgylcheddol) i asesu'r effaith ar ysgolion yn seiliedig ar nifer y llefydd gwag mewn ysgolion, a hynny ar draws yr ardal astudiaeth yn gyffredinol. Er bod hyn yn ffordd ddigonol i asesu'r effaith ar yr ysgolion fel adnoddau gofodol, nid yw'n gweithio wrth geisio asesu'r effaith ar iaith cymuned yr ysgol. Ni all cynyddu neu leihau'r gwasanaeth trochi mewn ymateb i'r galw weithio gan bod angen i'r gwasanaeth fod ar gael, yn barod i ymateb i'r galw, yn hytrach na bod yn adweithiol.

6.3.21 Mae CG yn credu y byddwn yn gweld effaith benodol ar ysgolion Bangor a'r ardal gyfagos, ac mae pryder sylweddol ynghylch y diffyg sylw a roddwyd i hyn hyd yma gan Horizon.

6.3.22 Mae gan CG dystiolaeth sydd yn dangos bod nifer o blant yn teithio hefyd o ardal ddaearyddol eang i fynd i ysgolion Bangor, gan gynnwys o ardaloedd o Ynys Mon, ac hefyd y gall nifer bychan iawn o ddisgyblion gael dylanwad negyddol ar ddefnydd iaith cyd-ddisgyblion a'r ysgol yn ehangach (ac hefyd ar y gymuned y tu hwnt). Mae data a gesglir gan y Siarter iaith yn aml yn dangos gostyngiad yn nefnydd iaith ac arferion disgyblion pan fydd disgyblion newydd, nad ydynt yn siarad Cymraeg, yn cyrraedd yr ysgol ar ganol blwyddyn ysgol.

6.3.23 Cynhaliwyd Asesiad Iaith a Chymuned gan CG ar ysgolion cynradd ardal Bangor yn ddiweddar, mewn ymateb i gynig i ad-drefnu addysg gynradd yn y ddinas (Mawrth 2018 - https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s500004201/Eitem%206%20-%20Atodiad%204%20-%20Ad-drefnu%20Darpariaeth%20Addysg%20Gynradd%20Bangor.pdf?LLL=1 )

6.3.24 Mae'r asesiad hwn yn dangos bod nifer o ysgolion Bangor eisoes yn gweithredu y tu hwnt i'w capasiti (yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn 2017) a bod y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg disgyblion eisoes mewn sefyllfa fregus. Mae'r posibilrwydd o gynyddu nifer disgyblion o ganlyniad uniongyrchol i'r datblygiad gan Horizon yn bendant o gael effaith negyddol.

6.3.25 Fel y crybwyllwyd eisoes, mae gwasanaethau trochi effeithio yn cael ei ddarparu gan CG, ond mae cwestiwn am sut y bydd y gwasanaethau hynny yn ymdopi yn wyneb nifer cynyddol o ddisgyblion a mwy o alw yn ardal Bangor, a sut bydd y galw ychwanegol hwnnw yn un rhan o'r sir yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir yn ardaloedd eraill o'r sir o ganlyniad i orfod blaenoriaethu adnoddau. Bu i CG yn ddiweddar sicrhau cyllid cyfalaf i sefydlu canolfan iaith newydd ym Mangor. Roedd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r cais yn rhannol ar y sail bod cydnabyddiaeth o'r cynnydd posib yn y galw ar y gwasanaeth o ganlyniad uniongyrchol i'r datblygiad gan Horizon. Mae yna bryder serch hynny am y nawdd sydd ar gael i staffio'r ganolfan arfaethedig. Er bod yr angen am wasanaeth trochi yn ardal Bangor yn cael ei gydnabod, felly, nid oes sicrwydd y byddai CG yn gallu diwalllu'r angen o fewn ei adnoddau presennol.

6.3.26 Nid oes tystiolaeth hyd yma bod Horizon wedi trafod y sefyllfa bresennol gydag Adran Addysg CG (fel y maent wedi gwneud gydag adran addysg CSYM) ac felly mae CG yn pryderu na fydd yr effeithiau cronnus posib o ganlyniad i ddatblygiad Horizon, ochr yn ochr gyda chynigion ad-drefnu a'r cynydd cyffredinol yn y galw ar y gwasanaeth addysg yn y sir yn cael eu lliniaru.

### Digonolrwydd y DCO

6.3.27 O ystyried y pryderon a godwyd yn nghyd-destun yr ardrawiad posib ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg, gwneir y bwyntiau canlynol mewn perthynas â digonolrwydd y DCO.

- Gwybodaeth annigonol ynghylch effaith posib y datblygiad arfaethedig ar Wynedd, ac yn benodol ar ardal Bangor o ran effaith ar yr iaith Gymraeg, gwasanaethau addysg lleol a'r gymuned yn ehangach.
- Mae'r mesurau lliniaru a gynigir o ganlyniad yn methu â delio gyda'r effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg, gwasanaethau addysg a chymunedau ehangach yng Ngwynedd.
- Mae Gwynedd yn dymuno cael mewnbwn i'r gwaith o ddarparu a rheoli fframwaith monitro cadarn, yn ogystal a mewnbwn i sicrhau bod mesurau lliniaru addas yn cael eu gosod drwy gytundeb 106 er mwyn sicrhau bod y camau lliniaru yn cael eu gweithredu yn yr ardaloedd lle mae effaith negyddol.

**Sylwadau Polisi Cynllunio**

6.3.28 Yn seiliedig ar y materion lleol a nodwyd uchod ac yn yr adrannau sy'n ymdrin yn benodol â llety ar gyfer gweithwyr a chyflogaeth, sgiliau, a'r gadwyn gyflenwi leol, yn enwedig y pryderon am y rhagdybiaethau sydd wedi cael eu gwneud o ran sut a lle fydd gweithlu mawr dros dro yn cael eu lletya, mae maen prawf 5 polisi PS 9 yn arbennig o berthnasol. Mae'r maen prawf hwn yn disgwyl na fydd gofynion llety gweithwyr adeiladu, gan gofio'r rhagdybiaeth daw 75% o du allan i'r ardal (h.y. 7,000 o weithwyr), yn arwain yn effeithiau annerbyniol andwyol... economaidd..., cymdeithasol, ieithyddol.

6.3.29 O safbwynt iaith a diwylliant Cymraeg, mae maen prawf 10 o Bolisi PS 9 hefyd yn arbennig o berthnasol. Mae'r maen prawf hwn yn berthnasol oherwydd ei fod yn disgwyl bod ystyriaeth yn cael ei roi i gapasiti cyfleusterau cymunedol lleol, sydd yn cynnwys capasiti ysgolion lleol, cyfleusterau trochi a chyfleusterau lleol i oedolion ddysgu Cymraeg, er na chafodd y rhain eu henwi fel enghreifftiau yn nhestun y Polisi. Yn unol â Pholisi PS 2 a Pholisi ISA 1, pan fydd datblygiad yn golygu effeithiau ychwanegol neu fwy o alw ar gyfleusterau presennol, cyn belled bod profion statudol yn cael eu bodloni, disgwylir gwneir cyfraniad i uwchraddio cyfleusterau presennol er mwyn lliniaru effeithiau. Byddai'r dull yma yn gyson gyda disgwyliadau maen prawf 4 o Bolisi PS 5 a disgwyliadau Polisi PS 1.

6.3.30 Yn ychwanegol, mae maen prawf 16 o Bolisi PS 9 hefyd yn arbennig o berthnasol, oherwydd ei fod yn disgwyl gweld trothwyon cadarn ar gyfer adrodd a monitro dosbarthiad gofodol gweithwyr er mwyn lleihau effeithiau posib allai ddeillio o weithlu dros dro mawr ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn cymunedau lleol yng Ngwynedd.

## 6.4 Tai

**Y Cyd-destun**

6.4.1 Bydd lefel yr effaith fydd Wylfa Newydd yn ei chael ar y galw am dai yng Ngwynedd yn dibynnu ar y gallu i leihau'r galw yn Ynys Môn ac ar gyfyngu galw yn agos at y safle, yn enwedig o fewn y Llety Dros Dro i Weithwyr (TWA).

6.4.2 Lleolir Wylfa Newydd yn agos at bwynt mwyaf gogleddol Ynys Môn a Chymru ac mae'n agored iawn i Fôr Iwerddon. Gall gwledigrwydd a dwysedd poblogaeth isel ddylanwadu ar y pellteroedd mae pobl yn gorfod eu teithio i gyrraedd eu man gwaith ac amseroedd teithio. Mae hefyd angen ystyried arlliwiau lleol a phatrymau dosbarthu. Mae lefel presennol capasiti tai cuddiedig yn ardal Gogledd Orllewin yr ynys yn annigonol i gwrdd â'r galw a bydd yn arwain at ddosbarthu galw i gymunedau eraill. O ystyried agosrwydd Gogledd Gwynedd i'r A55, ac felly ei gyswllt â'r prif gyfleuster parcio a theithio yn Dalar Hir, gellir ystyried Bangor, fel

canolfan wasanaeth rhanbarthol gyda'i chysylltiadau da i ganolfannau poblogaeth eraill, fel cynnig deniadol i rai grwpiau o weithwyr.

6.4.3 Mae graddfa a hyd cyfnod adeiladu Wylfa Newydd a lefel y gwaith paratoi yn ddigynsail ac ni cheir unrhyw gymaryddion ystyrlon, sy'n arwain at beth nerfusrwydd ac ansicrwydd. Gall profiadau yn Hinckley gynorthwyo i amlygu patrymau galw ac adnabod arfer dda. Awgryma dadansoddiad rhagarweiniol bod pobl wedi ffafrio lleoliadau sy'n agos iawn i'r safle adeiladu i ddechrau; fodd bynnag, gall patrymau newid wrth i'r galw gynyddu. Rydym yn ymwybodol fod Hinckley wedi'i leoli yn agosach o lawer at Bridgewater a Taunton, sy'n gallu cynnig gwasanaethau cefnogi. Oherwydd hyn, mae'n bwysig bod gan drefniadau presennol ddigon o gynlluniau wrth gefn er mwyn cynorthwyo i ymateb i'r angen a byddwn yn gofyn am sicrwydd y dylai mesurau lliniaru ddilyn y galw. Mae hefyd angen sicrhau bod cefnogaeth neu gosbau ychwanegol os oes unrhyw wyro o'r achos busnes canolog a gyflwynwyd gan Horizon i leddfu unrhyw effeithiau tai negyddol ar breswylwyr Gwynedd.

6.4.4 Hyd yn oed gydag uchafswm darpariaeth o 4000 TWA, bydd galw sylweddol ar ddarpariaeth leol. Ardal wledig yw Gogledd Orllewin Cymru yn bennaf gyda phoblogaeth wasgaredig ac mae galw wedi'i ganoli mewn ardal gyfyngedig iawn. Honnai'r achos busnes a gyflwynwyd gan Horizon y bydd modd diwallu'r galw ac y bydd modd isafu effaith leol. Bydd heriau yn codi os nad ydynt yn gallu cadw at yr achos busnes canolog ac unrhyw raddau o amrywiad o'r achos hwnnw. Nid yw'n glir sut lefel o ddylanwad a rheolaeth fydd Horizon yn gallu ei weithredu ar nifer fawr o isgontractwyr a sut fydd modd rheoli, addasu neu ddylanwadu ar ymddygiadau drwy gymhelliad. Ceir mwy o sgôp i fonitro gweithwyr ar y safle, fodd bynnag, efallai y bydd ambell rôl gefnogi a chontractwr yn anoddach i'w rheoli.

6.4.5 Cafodd ein dadansoddiad o'r galw ei gyfarwyddo gan Asesiad Effaith Marchnad Tai Lleol Gwynedd a'r Strategaeth Digartrefedd; mae'r rhain yn amlygu meini tramgwydd, heriau a chyfleoedd presennol o fewn y marchnadoedd tai.

## Effeithiau Lleol Cadarnhaol

6.4.6 **LLINIARU -** Gall lefel ac ehangder y mesurau lliniaru sydd ar gael dylanwad cadarnhaol ar dai a gall helpu i wella argaeledd a safon y cyflenwad a'r stoc tai, a thrwy hynny, ddarparu etifeddiaeth gadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliad cadarn ynglŷn ag ehangder buddion hyd nes y bydd graddfa mesurau lliniaru yn glir, neu eglurder ynglŷn â lle fyddant yn cael eu targedu, a disgwyliwn y bydd angen cynlluniau wrth gefn i ymdrin â'r cyfnod adeiladu yn llawn. Cafwyd rhywfaint o sôn am ganolbwyntio ar fesurau lliniaru penodol, sef rhywbeth y buasem yn ei gefnogi; fodd bynnag, mae'r lefel a'r raddfa yn bryder ac mae'n bwysig bod mesurau lliniaru yn ddigonol i rychwantu hyd y cyfnod adeiladu ac mae angen i fesurau lliniaru allu ymateb yn sydyn i newid. Mae proffil y gweithlu yn rhagamcanu niferoedd uchel o lefelau staffio dros 6,500 am 3.5 blynedd a galw uchel dros saith mlynedd. Mae sylw wedi canolbwyntio ar ymdrin â'r galw yn ystod y cyfnod prysuraf; fodd bynnag, o safbwynt tai, gall lefelau cynyddol o feddiannaeth dros gyfnod estynedig gael mwy o effaith andwyol oherwydd yr afael haearnaidd ar gyflenwad.

6.4.7 **ETIFEDDIAETH -** Nid yw ehangder a natur yr etifeddiaeth dai, allai fod ar gael, wedi'i chadarnhau eto ac mae'n anodd barnu pa gyfraniad y gellir ei wneud yn lleol; fodd bynnag, gallai unrhyw fuddsoddiad ychwanegol sy'n helpu i wella ansawdd, ystod neu gyflenwad gael effaith gadarnhaol barhaol. Mae Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adnabod lefel y mesurau lliniaru a'r cynlluniau wrth gefn sydd eu hangen, yn ein barn ni, i baratoi a rheoli galw.

6.4.8 **CYFLOGAETH -** Gall lefel ac ehangder cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd ddarparu cyflogaeth gynaliadwy i deuluoedd lleol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi cymunedau lleol ac yn sicrhau bod pobl ifanc lleol yn gallu aros i fyw'n lleol a chystadlu yn y farchnad dai. Mae pwyslais yn enwedig ar gyfleoedd ailgylchu yn lleol oherwydd gall ymestyn cyfleoedd cyflogaeth; fodd

bynnag, byddai'n ddefnyddiol cadarnhau'r diffiniad o weithiwr lleol a gwahaniaethu rhwng ymwelydd a gweithiwr. Gall gwneud y mwyaf o weithwyr lleol leihau'r angen i adnabod opsiynau llety ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn lleol. Bydd heriau i sicrhau gweithwyr lleol yn arwain at niferoedd cynyddol o weithwyr nad ydynt yn lleol a mwy o bwysau ar lety.

6.4.9 **MESURAU LLINIARU AC ARIAN WRTH GEFN -** Mae angen i'r gronfa fod yn hyblyg a chanolbwyntio ar feysydd sydd yn cael eu heffeithio. Mae Gwynedd yn debygol o brofi mwy o alw a dadleoliad os fydd oedi mewn cyflenwad neu os nad yw'n cael ei wireddu yn y modd disgwyliedig. Gallai hyn godi wrth i weithwyr fethu â dod o hyd i lety addas ar yr ynys a phobl leol yn wynebu costau llety uwch ac yn methu â chystadlu. O ystyried yr amserlen i ddarparu cyflenwad tai, bydd cadarnhad cynnar o arian yn uchafu effaith a buddion.

## Effeithiau Lleol Niwtral

6.4.10 **RHEOLAETH A LLETY GWEITHLU -** Rhoddir llawer o bwyslais ar sefydlu system i reoli'r gweithlu. Croesawir dull o'r fath gan ei fod yn rhoi cyfle i ymateb i, addasu ac arwain gweithwyr at fathau penodol o lety neu i wahanol gymunedau. Cefnogir y cyfle i gymryd rhan a gobeithir y gall Gwynedd ddylanwadu mewn modd cadarnhaol. Yr elfen anhysbys yw p'un ai fydd modd adnabod unrhyw amrywiadau mewn patrymau galw yn gynnar ac addasu'n sydyn ar sail sbardunau cytunedig - cyn effeithiau andwyol ar gymunedau neu farchnadoedd. Bydd y model arfaethedig yn cael ei gyfyngu os oes capasiti annigonol neu gyfyngedig yn y farchnad dai, o ystyried bod angen datblygu a chynllunio capasiti tai mewn da bryd a'i gynyddu dros amser. Efallai y bydd posib defnyddio ychydig o ddarpariaeth twristiaid i gynorthwyo ar rai adegau; fodd bynnag, efallai y bydd cyflenwad wedi'i gyfyngu i fisoedd penodol.

6.4.11 **CAPASITI CUDDIEDIG -** Awgryma dadansoddiad fod ychydig o gapasiti cuddiedig yn y farchnad dai; fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwyllo ei fod ar gael ar y lefelau a nodir gan Horizon ac rydym yn ansicr p'un ai yw'r holl gapasiti cuddiedig yn addas (o ansawdd digonol) ac ar gael. Er y gallai ychydig o gyfleoedd newydd ddwyn ffrwyth cyn ac yn ystod y cyfnod adeiladu, nid yw'n golygu y bydd capasiti cuddiedig a adnabyddir yn cael ei ryddhau. Mae hefyd yn debygol y bydd angen buddsoddiad sylweddol i uwchraddio ychydig o'r capasiti i safon ofynnol. Mae gwaith a wnaed gan ARC4 ar ran y tri awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru yn cwestiynu ehangder y cyflenwad lleol.

6.4.12 **BANGOR -** Mae angen ystyried yr effaith ar Fangor, fel y ganolfan wasanaeth rhanbarthol. O ystyried demograffi'r gweithlu a ragwelir, mae argaeledd cyfleusterau cefnogi penodol, agosrwydd i gynigion addysgol, siopa ac adloniant a rhwydweithiau trafnidiaeth, mae'r ddinas a'i chymunedau gerllaw yn debygol o gael eu gweld fel lleoliad deniadol a chyfleus. Er y bydd heriau oherwydd pwysau gan boblogaeth fyfyrwyr mawr ym Mangor efallai, mae gan Fangor gyfran uwch o eiddo i'w rhentu a thai amlfeddiannaeth (HMO) ac, o ganlyniad, mae gan Fangor fwy o gapasiti i'w derbyn ac efallai y bydd modd darparu opsiynau llety am gost fuddiol.

6.4.13 **GWAELODLIN-** Mae diffyg cymaryddion diweddar i sefydlu gwaelodlin i fodelu'r galw yn creu heriau. Ni wyddys p'un ai fydd hyd a graddfa'r datblygiad yn effeithio ar ymddygiadau, felly, efallai y bydd angen cynlluniau wrth gefn a mesurau diogelu ychwanegol. O ystyried hyd y gwaith adeiladu, a yw'r gweithlu yn fwy tebygol o ddod â dibynyddion efo nhw neu setlo yn lleol wrth i berthnasau ffurfio ac effeithio ar benderfyniadau yn ymwneud ag adleoli? A oes cydberthynas rhwng hyd arhosiad ac ailgartrefu? Fel cyrchfan boblogaidd i dwristiaid, ceir posibilrwydd hefyd y bydd teuluoedd yn tueddu i ymweld ar sail estynedig allai ddylanwadu ar y dewis o lety a ystyrir gan staff adeiladu. A fydd pellenigrwydd lleoliad, a'r ffaith bod prisiau tai yn is yn gyffredinol na rhannau eraill o'r DU, yn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â'r math a lleoliad y llety? Ni ellir darogan ffactorau ymddygiadol ar y dechrau, bydd yn bwysig

monitro profiadau yn Hinckley a sicrhau bod digon o gynlluniau wrth gefn i ymdrin â hyd y prosiect.

## Effeithiau Lleol Negyddol

6.4.14 **CAMPWS -** Mae datblygu campws ar y safle yn bwriadu cadw a chyfyngu effaith y gweithwyr ond cydnabyddir nad oes capasiti digonol i ddiwallu'r galw yn lleol. Er bod datblygu TWA yn cael ei ystyried fel mesur lliniaru hanfodol, ceir cwestiynau ynglŷn â'r gallu i ddarparu 4000 uned o Lety Dros Dro i Weithwyr (TWA) ar y safle ac y bydd yr unedau hyn ar gael cyn y galw. Gallai methu neu oedi i sicrhau cyflenwad o'r fath arwain at batrymau ymddygiad, allai fod yn anodd eu newid unwaith maent wedi'u sefydlu. Mae'r amserlen darparu a gyflwynwyd ar gyfer y (TWA) yn eithriadol o dynn ac yn rhoi ffin finimal ar gyfer addasiad a dylid ei ddwyn ymlaen er mwyn sicrhau bod capasiti yn barod cyn yr angen. Ymddengys na fydd cylch cyntaf y TWA ar gael i'w feddiannu tan Ch1 2021 pan fydd niferoedd y gweithlu yn fwy na 5,000 ac ar lefel allai, o bosib, fod ag effeithiau lleol sylweddol. Er y bydd llety'r campws fel y'i cynigiwyd yn debygol o apelio a'i ffafrio gan grwpiau penodol o weithwyr, yn enwedig y rhai fydd yn preswylio am gyfnodau byr, mae'n bwysig cadarnhau sut fydd gweithwyr yn cael eu denu a'u hannog i ddefnyddio'r cyfleuster a p'un a fydd modd cynnal y lefel o ddeiliadaeth yn ystod hyd y gwaith adeiladu. Bydd cydgyfnerthu ar y safle yn ei gwneud hi'n haws rheoli elfennau penodol; fodd bynnag, ceir cwestiynau ynglŷn â chyfanswm yr unedau fydd yn cael neu a ellir eu darparu ac na fydd modd cyfyngu gweithwyr i un lleoliad. Mae'r math o lety hefyd yn lleihau'r etifeddiaeth bosib i'r rhanbarth.

6.4.15 **DADLEOLIAD -** Mae gan Gyngor Gwynedd dros 1900 o unigolion/teuluoedd ar y gofrestr aros tai cymdeithasol ac mae'r gwasanaeth digartrefedd eisoes yn wynebu problemau wrth ganfod llety preifat fforddiadwy. Mae fforddiadwyedd yn fwy difrifol yn ardal Bangor lle mae'r Gwasanaeth Digartref eisoes yn methu â dod o hyd i eiddo o fewn trethi'r Awdurdod Tai Lleol. Mae hyd yn oed cynnydd bychan mewn galw yn debygol o waethygu'r broblem ac mae ardaloedd tu allan i Fangor yn debygol o weld cynnydd mewn gwerthoedd rhent fydd yn ei gwneud hi'n fwy heriol i adnabod a diogelu llety ar gyfer grwpiau bregus. Ceir hefyd pryderon y gallai teuluoedd ac unigolion bregus sy'n byw ar yr ynys gael eu dadleoli allai arwain at fwy o alw yng Ngwynedd; efallai y bydd symudiad mewnol yng Ngwynedd hefyd. Mae Strategaeth Digartrefedd Gwynedd yn amlygu'r prif wasgbwyntiau yn y farchnad bresennol a'r math a'r lefel o lety sydd ei angen i ymdrin â'r cydbwysedd. Bydd mwy o gystadleuaeth a llai o gyflenwad yn gwaethygu'r her.

6.4.16 **FFORDDIADWYEDD TAI -** Mae'r ddogfen yn cyfeirio at y ffaith y bydd gweithwyr yn gallu hawlio lwfans aflonyddwch o thua £38 y noson (ar gyfraddau presennol) fyddai gyfystyr â thua £266 yr wythnos. Y Lwfans Tai Lleol presennol ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Gwynedd (Ardal Astudiaeth Allweddol) yw £110 yr wythnos am dŷ tair llofft i deulu sy'n golygu y byddai pobl leol yn ei chael hi'n amhosib cystadlu oherwydd y byddai gweithwyr unigol yn gallu hawlio 241% yn fwy bob wythnos. Ceir risg y gallai hyn chwyddo'r farchnad yn sylweddol ac effeithio ar argaeledd llety ar rent i bobl leol. Nid oes gwybodaeth wedi dod i law ynglŷn â lefel y rhenti fyddai'n daladwy yn llety'r Campws (a ddarperir y TWA o dan y lwfans dyddiol) ac nid ydym wedi gweld cost uned adeiladu'r unedau i'n helpu i gymharu gydag opsiynau amgen eraill allai gael eu darparu o bosib ar gost fwy economaidd neu ddarparu etifeddiaeth hirdymor.

## Digonolrwydd y DCO

6.4.17 **YMLYNIAD -** Dengys yr achos busnes canolog y gellir rheoli effeithiau lleol, fodd bynnag, gall amrywiadau bychan o'r achos hwnnw, a gyfyd o amrediad o ffactorau e.e. cynnydd yn nifer y staff, oedi wrth ddarparu neu anallu i gyflogi pobl yn lleol, gael effeithiau negyddol anghyfartal fydd yn gofyn am gynlluniau wrth gefn. Mae’n hanfodol bod Horizon yn

cadarnhau'r ymrwymiad i sicrhau bod gwaith adeiladu ar y safle yn amodol ar sicrhau cyflenwad digonol o dai, yn barod ac o flaen yr angen.

6.4.18 **TROSIANT -** Awgryma'r wybodaeth a gyflwynwyd y bydd oddeutu 30,000 o wahanol rolau yn ystod y gwaith adeiladu; bydd hyn yn cynnwys trosiant sylweddol o unigolion yn y marchnadoedd tai a bydd angen ffactoreiddio lefel y trosiant yn y rhagdybiaethau tai.

6.4.19 **LEFEL Y CAPASITI CUDDIEDIG -** Ceir cwestiynau p'un a yw'r capasiti cuddiedig yn bodoli ar y lefelau a amlygwyd gan Horizon a fyddai'n effeithio ar fodelau dwysedd. Mae angen ystyried pa sbardun a ddefnyddir i adnabod newid mewn patrymau galw a sut fydd cyflenwad ychwanegol yn cael ei ddarparu'n gyflym.

6.4.20 **NIFER Y STAFF -** Ochr yn ochr â staff adeiladu, disgwylir y bydd rolau ychwanegol yn gysylltiedig â, neu eu hangen i wasanaethu'r gweithlu; efallai fydd y rolau hyn yn ymwneud ag adeiladu'r TWA neu rolau oddi ar y safle e.e. mewn diwydiannau gwasanaeth a gallent effeithio ar y galw am dai

6.4.21 **Galw Cronnol -** Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn awgrymu y bydd 500 o bobl ychwanegol yn chwilio am opsiynau llety yng Ngwynedd. Mae angen monitro lefelau'r galw a gellir rhoi ystyriaeth i ddosbarthiad staff presennol Wylfa. O ystyried bod disgwyl i ddatblygiadau eraill gyd-redeg gyda Wylfa Newydd, bydd hefyd angen ystyried effaith gronnol diweddariad y Grid Cenedlaethol, bydd angen ystyried y prif brosiectau isadeiledd sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd yn ogystal.

## Sylwadau Polisi Cynllunio

6.4.22 Mae Maen Prawf 5 Polisi Strategaeth PS 9 yn disgwyl i ofynion llety gweithwyr adeiladu gael eu diwallu mewn modd sy’n lleihau effaith ar y farchnad dai lleol ac na fyddant yn arwain at effeithiau economaidd nac amgylcheddol andwyol annerbyniol. Gall yr effeithiau andwyol hyn, yn unigol neu'n gronnol, gael effaith negyddol ar gymeriad ieithyddol cymunedau.

6.4.23 Mae Maen Prawf 7 yn cysylltu Polisi PS 9 gyda gofynion Polisi PS 10. Mae meini prawf 1 a 2 Polisi PS 10 yn arbennig o berthnasol. Mae'r Polisi yn cefnogi'r ddarpariaeth o lety dros dro ar ffurf campws, ond yn gweithredu ymagwedd ddilyniannol, yn y ffaith y dylid darparu'r math hwn o lety pan na all eiddo presennol neu newydd, allai gael eu haddasu er mwyn defnydd parhaol, ddiwallu'r angen a nodwyd.

6.4.24 Mae materion a ddisgrifir uchod a chan ambell barti arall sydd wedi cyflwyno sylwadau yn awgrymu na ymchwiliodd Horizon ddigon efallai i'r posibilrwydd o ddarparu adeiladau newydd mewn lleoliadau cynaliadwy ar yr Ynys, wedi'i meddiannu gan weithwyr adeiladu, cyn defnydd etifeddiaeth wahanol.

6.4.25 Er gwaethaf y sylw blaenorol, mae materion a godwyd ynglŷn ag anawsterau i ddarparu'r llety dros dro yn Wylfa Newydd ar amser ac mewn da bryd, neu i ymateb i'r amrywiadau o fewn patrwm a dosbarthiad y gweithlu, yn peri pryderon p'un a fodlonir meini prawf 5 a 16, Polisi PS 9 o safbwynt Cyngor Gwynedd. Mae'r maen prawf olaf yn cydnabod na fydd y rhagdybiaethau cyn-adeiladu a wnaed yn ystod datblygiad y cynllun yn cael eu gwireddu efallai, ac felly, bydd angen mwy o wybodaeth i adnabod mesurau lliniaru ychwanegol neu wahanol.

6.4.26 Mae angen gofyniad yn y DCO i ymrwymo Horizon i adeiladu pob un o'r 4,000 o leoedd gwely. Mae angen cysylltu hyn naill ai i gamau mewn rhaglen adeiladu a/neu nifer y gweithwyr a gyflogir, gyda sbardunau gorfodadwy clir.

6.4.27 Buasai diffyg bodloni Maen Prawf 5 Polisi PS 5 o ganlyniad yn gallu golygu datblygiad na fuasai'n alinio gyda Maen Prawf 5 o Polisi PS 4 a Polisi TAI 14, sydd yn edrych i warchod llety twristiaeth a rheoli'r defnydd o garafanau sefydlog, siales ac ati ar gyfer defnydd preswyl dros dro gweithwyr adeiladu. Yn ychwanegol i hyn, buasai diffyg monitro ac ymateb i amgylchiadau sydd yn newid fel a nodir ym Maen Prawf 16 o Polisi PS 9, yn gallu cael effaith andwyol ar Strategaeth Aneddleoedd (Polisi PS 17) y Cynllun Datblygu Lleol wrth i'r farchnad geisio ymateb i'r angen. Mae angen i ofynion y DCO sicrhau ei bod yn ofynnol i adeiladu llety ar gyfer y 4000 weithwyr yn amserol a buasai mesurau monitro ac adolygu yn sicrhau gwell aliniad gyda Maen Prawf 16 o Bolisi PS 16.

## 6.5 Darpariaeth gwasanaeth

### Cyd-destun

6.5.1 Mae Cyngor Gwynedd yn statudol gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymunedol penodol o fewn ei ardal. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn dibynnu ar wasanaethau darparwyr cyhoeddus eraill sy'n cynnwys y bwrdd iechyd lleol a'r gwasanaethau brys. Ymdrinnir â rôl a diddordebau Gwynedd fel awdurdod tai lleol yn adran xx .

6.5.2 Defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Papur Testun 13: Isadeiledd 2015) wrth lunio'r adran hon.

**Addysg**

6.5.3 Mae 97 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 2 ysgol anghenion arbennig yng Ngwynedd. Yn 2015, gwelodd y Cyngor lefelau uchel o lefydd gwag yn ei ysgolion cynradd ac roedd 21 o ysgolion gyda lefel sylweddol o lefydd gwag a 10 ysgol yn orlawn. Mae nifer o adeiladau ysgolion y Cyngor mewn cyflwr gwael.

6.5.4 I ymdrin â'r materion capasiti hyn, mae Gwynedd wedi gweithredu rhaglenni ad-drefnu ysgolion yn nalgylchoedd y Gader (Dolgellau) a'r Berwyn (Y Bala). Mae cynigion hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer dalgylch Tywyn. Mae'r tri dalgylch y tu allan i Brif Ardal Astudiaeth Economaidd-gymdeithasol (KSA) Horizon .

**Iechyd**

6.5.5 Mae 29 meddygfa, 16 deintyddfa, 30 fferyllfa a 12 o optegwyr[13] yng Ngwynedd. Mae Ysbyty Gwynedd ym Mangor yn ysbyty mawr sy'n cynnwys ardal ddaearyddol sy'n ymestyn o Amlwch (Ynys Môn) i Dywyn yn y de ac o Bwllheli yn y gorllewin i Landudno yn y dwyrain. Mae ysbytai cymunedol Gwynedd yn Nhywyn, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau a Thremadog.

**Canolfannau Cymunedol, Cyfleusterau Diwylliannol a Chwaraeon**

6.5.6 Mae 17 llyfrgell yng Ngwynedd yn ogystal â llyfrgell symudol, ynghyd â thair amgueddfa sydd ym Mangor, Llanystumdwy a Dolgellau. Mae gan Wynedd ddarpariaeth dda o gyfleusterau chwaraeon ac er bod y Cyngor yn fodlon gyda'r lefel a'r fframwaith ddarparu bresennol, nid yw hyn yn golygu fod holl anghenion hamdden yr ardal o reidrwydd yn cael eu bodloni. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhedeg 14 canolfan hamdden ar 16 safle sy'n cynnwys 3 pwll nofio, 5

13 Iechyd yng Nghymru: http://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory. Data Mis Tachwedd 2018

canolfan hamdden gyda phyllau ac 8 canolfan hamdden arall. Mae hefyd yn rhedeg Trac Athletau Treborth a chaeau synthetig maint llawn a phump-bob-ochr mewn rhai aneddiadau.

**Gwasanaethau Brys**

6.5.7 Adain Orllewinol Heddlu Gogledd Cymru sydd yn edrych ar ôl Gwynedd, ac mae'r pencadlys yng Nghaernarfon. Mae dwy ddalfa yng Ngwynedd, yng Nghaernarfon ac yn Nolgellau ac 18 o orsafoedd/swyddfeydd heddlu. Nodwyd fod pedair gorsaf heddlu yn cael eu hadolygu yn Strategaeth Ystadau 2013-2016.

6.5.8 Mae 14 gorsaf dân a dau swyddog diogelwch ardal. Maent wedi'u lleoli ym Mangor, 78 Papur Testun 13: Isadeiledd Caernarfon, Dolgellau, Aberdyfi, Abersoch, y Bala, Blaenau Ffestiniog, y Bermo, Harlech, Llanberis, Nefyn, Porthmadog, Pwllheli a Thywyn.

## Effeithiau Lleol Cadarnhaol

6.5.9 Nid yw'r Cyngor yn ystyried y bydd yna unrhyw effeithiau sylweddol, cadarnhaol ar wasanaethau lleol yng Ngwynedd.

## Effeithiau Lleol Niwtral

**Addysg**

6.5.10 Mae asesiad economaidd-gymdeithasol Horizon ar y prosiect yn ei gyfanrwydd yn awgrymu, ar ei anterth, y byddai'r gweithwyr adeiladu yn dod â 285 o bartneriaid a 220 o ddibynyddion gyda hwy (paragraff 1.5.50 Pennod C1 Economaidd-gymdeithasol). Mae Horizon yn rhagweld y sefyllfa waethaf bosib lle byddai cynnydd o 2% yn y galw yn y Brif Ardal Astudiaeth gan adael 12% o lefydd gwag. Mae Horizon wedi cydnabod y gall y galw arwain at gyfyngiadau o ran capasiti mewn ardaloedd ac o'r herwydd maent wedi dosbarthu'r nifer tybiedig o ddibynyddion ar draws is-ardaloedd y KSA yn unol â modelu disgyrchiant. Cyfeirir at yr effeithiau posib ar ysgolion Ynys Môn (cynradd ac uwchradd), ond ni wneir unrhyw gyfeiriad penodol at Wynedd. Byddai'r Cyngor yn dymuno derbyn cadarnhad y bydd y mesurau lliniaru y cyfeirir atynt, megis cefnogaeth a thrwythiad iaith, yn ymestyn i ardal y Cyngor.

**Gwasanaethau Brys**

6.5.11 Mae Horizon yn amcangyfrif y bydd 93% o'r 7,500 o weithwyr ychwanegol y bydd eu hangen pan fydd y gwaith adeiladu ar ei anterth yn byw yn Ynys Môn. Mae nifer o ragdybiaethau'n ffurfio sail i'r dadansoddiad hwn. Dymuna Cyngor Gwynedd weld cydnabyddiaeth pe bai nifer fwy o weithwyr yn chwilio am lety o fewn ei ardal, neu pe bai'r effaith ar wasanaethau brys yn fwy na'r hyn y cyfeirir ato ym mhennod Economaidd-gymdeithasol y Prosiect isod, fod mecanweithiau yn eu lle i ymdrin ag unrhyw effeithiau posib.

**Heddlu**

6.5.12 Awgryma Horizon y bydd yr effaith blismona yng Ngwynedd yn ddibwys (mae Horizon yn amcangyfrif 20 digwyddiad y flwyddyn) gyda'r rhan fwyaf o unrhyw ddigwyddiadau yn debygol o ddigwydd yn Ynys Môn. Mae'r cyngor yn bryderus y gall y galw ychwanegol am blismona ar Ynys Môn leihau'r ddarpariaeth o fewn ei ardal gan fod yr un heddlu yn gweithio

yn y ddwy ardal. Mae angen i Horizon lunio cytundeb gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod ganddo'r adnoddau digonol i blismona ardaloedd y ddau gyngor.

**Y Gwasanaeth Ambiwlans**

6.5.13 Mae Horizon yn amcangyfrif y gall fod cynnydd o 10% mewn galwadau am ambiwlans yn Ynys Môn yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect ac mae'n cydnabod (paragraff 1.5.69) bod y gwasanaeth dan bwysau fel y mae. Ystyrir y bydd yr effaith ar Wynedd yn ddibwys - ac yn yr Asesiad Effaith Iechyd. Er bod y cyngor yn derbyn efallai na fyddai'r galw am ddarpariaeth ambiwlans yn ei ardal yn un sylweddol, mae yn pryderu y gall cynnydd yn y galw yn Ynys Môn effeithio'n uniongyrchol ar ei ardal. Byddai'r cyngor yn cefnogi Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru i sicrhau fod ganddo adnoddau digonol i gynnwys y gweithlu arfaethedig tra ar yr un pryd yn cynnal (ac efallai gwella) y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i holl drigolion Prif Ardal yr Astudiaeth.

**Y Gwasanaeth Tân**

6.5.14 Ystyria Horizon y bydd yr effaith ar Wasanaeth Tân Gogledd Cymru yn ddibwys. Fodd bynnag, noda Horizon (paragraff 1.5.77) fod budd-ddeiliaid wedi codi pryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai mwy o alw am archwiliadau PRS gan y gwasanaeth tân a'r risgiau tân posib fyddai'n codi o wneud mwy o ddefnydd o lety cudd. Mae asesiad Horizon yn canolbwyntio ar Ynys Môn ac er bod Gwynedd yn derbyn mai ar yr ynys y bydd yr effeithiau i'w gweld fwyaf, mae angen sicrwydd y bydd y gwasanaeth tân ar draws y KSA yn cael digon o adnoddau.

**Gwasanaethau Hamdden a Chymunedol**

6.5.15 Mae Horizon yn cydnabod (paragraff 1.5.80) fod y defnydd presennol o gyfleusterau yn uwch yng Ngwynedd nag yn Ynys Môn a'i bod yn bosib y bydd gweithwyr fydd yn byw oddi cartref yn cynyddu'r galw hwnnw. Bwriedir gweithredu mesurau lliniaru ar ffurf Cronfa Effeithiau Cymunedol i ymdrin â'r effeithiau posib hyn. Mae paragraff 7.4.67 y Datganiad Cynllunio (8.1) yn datgan y bydd y gronfa yn cael ei rheoli gan bwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o 'Horizon, CSYM, Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau brys' . Byddai Gwynedd yn dymuno bod yn rhan o'r pwyllgor hwn.

**Iechyd**

6.5.16 Nid yw'r asesiad economaidd-gymdeithasol ar y prosiect yn ei gyfanrwydd yn rhoi sylw i'r effeithiau posib ar wasanaethau iechyd yn sgil y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu. Gwelir hyn yn yr Asesiad Effaith ar Iechyd. Mae'r Asesiad Effaith (8.19) yn nodi lleoliad darpariaeth gwasanaethau iechyd yn y KSA (gan gynnwys Tir Mawr Menai) yn ffigyrau L6 a L7. Adroddir ar asesiad o'r effeithiau posib yn adran C.6. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r mesurau lliniaru arfaethedig sy'n awgrymu y bydd iechyd Cyhoeddus Cymru a BIPBC yn cydweithio'n agos gan mai hwy fydd yn gweithio ym Mhrif Ardal yr Astudiaeth yn ei chyfanrwydd.

## Effeithiau Lleol Negyddol

6.5.17 Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau lleol sylweddol ar sail rhagdybiaethau Horizon ond mae'n parhau i bryderu, am y rhesymau a nodir

uchod, pe bai'r rhagdybiaethau hyn yn profi'n afrealistig y bydd yna effeithiau lleol ar wasanaethau cyhoeddus. Byddai felly'n dymuno gweld cyfeiriad penodol at Gyngor Gwynedd fel aelod o bwyllgor y Gronfa Effeithiau Cymunedol. Amlinellir yr angen i ddatblygwr ymdrin â gofynion seilwaith a gyfyd yn sgil ei ddatblygiad arfaethedig ym Mholisi PS2 Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr a Pholisi ISA 1 Darparu Isadeiledd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (gweler Atodiad XX am eiriad manwl y polisi). Hefyd, mae maen prawf 10 PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig yn nodi: Pan fo effeithiau neu ofynion ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol, bydd y Cyngor yn ceisio naill ai cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle neu ar gyfer uwchraddio cyfleusterau presennol.

*Dylid ystyried defnydd etifeddol o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir.*

## Digonolrwydd y DCO

6.5.18 Nid yw Cyngor Gwynedd wedi gweld y Rhwymedigaeth Cydsyniad Datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, mae wedi darllen penawdau'r telerau a gyflwynir yn adran 7.4 y Datganiad Cynllunio a dymuna wneud y sylwadau a ganlyn[14].

- Yr Effaith Gymunedol - Mae'r HoTs yn cyfeirio at bwyllgor rheoli sy'n cynnwys HNP, CSYM, LlC a'r gwasanaethau brys. Byddai CG yn dymuno bod ar y pwyllgor hwn hefyd.
- Iechyd a llesiant - Cyfeirir at is-grŵp ac mae'r goblygiadau a nodir ymhellach ymlaen yn awgrymu y byddai hwn yn cynnwys cyrff iechyd a'r gwasanaethau brys. Byddai Cyngor Gwynedd yn dymuno cael ei gynrychioli ar y grŵp hwn, o ystyried ein cyfrifoldebau dan lesiant ac iechyd cymunedol yn ehangach. Yn ogystal, mae'r testun yn cyfeirio at bwysau ar y farchnad dai a byddai hyn yn bryder i'r Cyngor.

6.5.19 I grynhoi, byddai Penawdau'r Telerau ar gyfer yr A106 yn elwa o sylw trosfwaol y byddai'r mesurau, sydd wedi'u cynnwys yn y rhwymedigaethau, yn dilyn yr effeithiau ac mewn egwyddor, ar gael drwy'r Brif Ardal Astudiaeth gyfan. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid oes prin gyfeiriad at Wynedd, er bod y sir yn ffurfio elfen sylweddol o ardal yr astudiaeth. Bydd y Cyngor yn aros yn eiddgar i weld y cytundeb A106 drafft yn nherfyn amser 3.

**Sylwadau Polisi Cynllunio**

6.5.20 Mae'r materion a nodir uchod yn golygu bod meini prawf 5, 10 ac 11 o Bolisi PS 9 yn arbennig o berthnasol, yn ogystal â maen prawf 4 o Bolisi PS 10.

6.5.21 Mae maen prawf 5 yn disgwyl y bydd gofynion llety gweithwyr adeiladu, gan gofio daw 75% o'r amcangyfrifiad yn dod o du allan i'r ardal (e.e. 7,000 o weithwyr), ddim yn arwain at effeithiau ….. cymdeithasol ….annerbyniol andwyol.

6.5.22 Mae maen prawf 4 o Bolisi PS 10 yn ceisio sicrhau bod llety arddull campws dros dro (e.e. llety dros dro i weithwyr adeiladu yn Wylfa Newydd) yn darparu cyfleusterau, megis cyfleusterau gofal iechyd, lle na cheir digon o gapasiti o fewn cyfleusterau oddi ar y safle i fynd i'r afael â galwadau'r gweithwyr adeiladu.

[14]Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu ymateb y Cyngor i'r ExA 'Pwyntiau gweithredu a godwyd o'r gwrandawiad DCO drafft a gynhaliwyd dydd Mawrth 24 Hydref 2018'

6.5.23 Pan na all unrhyw ddarpariaeth a ddarperir gan Horizon fodloni'r galw ac felly mae'r datblygiad yn achosi effeithiau a galwadau ychwanegol ar gymunedau lleol, mae maen prawf 10 yn disgwyl Horizon i ddarparu cyfraniadau priodol neu uwchraddio cyfleusterau presennol.

6.5.24 Yn gysylltiedig â'r meini prawf hyn, mae maen prawf 11 Polisi PS 9 yn nodi disgwyliad bod mesurau priodol ar gyfer hyrwyddo diogelwch cymunedol a chydlyniant cymdeithasol.

6.5.25 Yn debyg i effeithiau lleol eraill a nodir yn y Datganiad hwn, mae'r disgwyliad bod mecanwaith adolygu wedi'i sefydlu er mwyn monitro ystod lawn o effeithiau (maen prawf 16 Polisi PS 9) yn hanfodol.

6.5.26 Pan nodir effeithiau mae Polisïau PS 2 ac ISA 1 yn arbennig o berthnasol. Yn amodol ar fodloni'r profion statudol, mae'r polisïau hyn yn caniatáu ar gyfer derbyn cyfraniadau i sicrhau digon o seilwaith sydd eu hangen i ymdopi â datblygiadau newydd.

# 7. Casgliadau

## Trosolwg o sylwadau polisi cynllunio

7.1 Mae CG yn cydnabod bod gan adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd y potensial i ddod â manteision economaidd a chymdeithasol positif i Ynys Môn, Gwynedd a'r ardal ehangach. Mae GC fras yn cytuno bod hi'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol lleol sylweddol os gwireddir y tybiaethau a ddatblygwyd gan Horizon. Fodd bynnag, mae CG yn tynnu sylw at ei bryderon ynghylch y rhagdybiaethau hyn yn adran 6 uchod, sy'n ymwneud â'r meysydd pwnc canlynol: llety gweithwyr adeiladu, trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth (gan gynnwys y sector twristiaeth), y Gymraeg a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r pynciau hyn yn rhyng-gysylltiedig, h.y. mae'n debygol gall effaith posibl (cadarnhaol a negyddol) mewn un maes pwnc gael effaith ar faes pwnc arall. O ystyried ei lleoliad yng ngogledd Gwynedd ac fel anheddle pen bont a'i rôl fel Canolfan Gwasanaeth pwysig, mae yna bryderon arbennig am ardal Bangor os profir bod y rhagdybiaethau'n anghywir.

7.2 Mae pryderon CG yn fras yn seiliedig ar bylchau posibl / tebygol yn y wybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio rhagdybiaethau Horizon a fframwaith monitro wan i nodi ac ymdrin ag amgylchiadau nad ydynt yn unol â rhagdybiaethau gwreiddiol. Mae Horizon yn ymddangos i fod o'r farn y gellir rheoli effeithiau lleol. Fodd bynnag, mae CG (a'i bartneriaid) yn ystyried bod mân amrywiadau o'r achos hwnnw, sy'n deillio o amrywiaeth o ffactorau, e.e. cynnydd yn nifer y gweithwyr, amrywiad o ran tarddiad gweithwyr, oedi wrth ddarparu seilwaith, neu anallu i gyflogi cwmnïau lleol, yn gallu cael effeithiau negyddol anghymesur ac fe fydd angen trefniant wrth gefn ar eu cyfer. Bydd methiant neu oedi yn y cyflenwad o, er enghraifft, llety neu gyfleusterau parcio a theithio, yn gallu arwain at batrymau ymddygiad, a fydd yn anodd i wrthdroi unwaith y'u sefydlir. Mae CG yn pryderu bod Gwynedd yn debygol o brofi mwy o alw a dadleoli os oes oedi mewn cyflenwad neu na fydd hynny'n digwydd yn y modd a ddisgwylir.

7.3 Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a gafodd ei fabwysiadu (2011-2026) yn arbennig o berthnasol i'r Datganiad Effaith Leol hwn. Cafodd ei archwilio'n gyhoeddus (2016-2017) ac fe benderfynodd Arolygwyr Cynllunio ei fod yn gadarn yn dilyn addasiadau a bennwyd ganddynt. Mae Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun (Pennod 4), yr adran am Brosiectau Seilwaith a datblygu cysylltiedig (paragraff 6.3.1 - 6.3.10) a'r adran ar Wylfa Newydd a datblygu cysylltiedig (paragraff 6.3.12 - 6.3.24) ym Mhennod 6 y Cynllun yn ceisio sicrhau bod effeithiau lleol yn cael eu diwallu'n llawn. Mae'r adran olaf yn cynnwys pedwar o Balisau Strategol sy'n ymdrin yn benodol â Wylfa Newydd a datblygu cysylltiedig. Mae'r adrannau a'r polisïau hyn yn cynnwys nodi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor y dylai cynigion, lle y bo'n bosibl, gyfrannu'n gadarnhaol at weithredu strategaeth ofodol a bodloni amcanion strategol sylfaenol y Cynllun. Maent hefyd yn nodi disgwyliad o ymrwymiad gan

Horizon i fabwysiadu mentrau i liniaru a gwneud yn iawn am effeithiau. Mae’r disgwyliad i Horizon i fynd i'r afael â gofynion seilwaith sy'n deillio o'r cynnig datblygu’n cael ei nodi'n glir mewn profion polisi o fewn Polisi PS 9 i Bolisi PS 12, a ategir gan amryw o bolisïau generig yn y Cynllun (gweler Atodiad 1) . Er mwyn bodloni disgwyliadau polisi a ddisgrifir yn adran 6 y Datganiad hwn a mynd i'r afael â'i bryderon, cred CG y dylai'r DCO a'i ddogfennau cysylltiedig sicrhau bod:

- Monitro yn digwydd yn fuan ac yn digwydd yn gyson trwy gydol y cyfnod adeiladu;
- Dylid cynnal lliniaru rhagweithiol lle y bo'n briodol;
- Dylai mesurau lliniaru ddilyn effaith ac ystyried effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a rhai a ysgogwyd.

**Osgoi effeithiau negyddol a hwyluso effeithiau cadarnhaol**

7.4 Ystyria'r Cyngor fod yna agweddau o'r datblygiad arfaethedig yn cyfiawnhau dull rhagofalus sy'n gofyn am drafodaeth a chytundeb pellach rhwng y datblygwr a chyrff perthnasol. Dymuna'r Cyngor gael mewnbwn i'r trafodaethau a'r trefniadau mewn perthynas â'r mesurau lliniaru er mwyn osgoi effeithiau andwyol, yn ogystal a thrafodaethau a threfniadau i hwyluso effeithiau cadarnhaol ar gyfer Gwynedd a rhanbarth Gogledd Cymru.

7.5 O ran mesurau lliniaru, ystyria'r Cyngor y gellid darparu'r rhain drwy addasiadau i brif ddogfennau rheoli'r DCO megis y CoCP a drwy gytundeb adran 106.

7.6 Dim ond cipolwg a gafodd Cyngor Gwynedd (CG) ar Benawdau'r Telerau (HoTs) A106 a nodir yn nogfen 8.1 Datganiad Cynllunio (paragraffau 7.4.8 i 7.4.86). O fewn yr HoTs hyn, cyfeirir at Gyngor Gwynedd ar un achlysur yn unig, o dan yr iaith Gymraeg. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod rhan sylweddol o Wynedd wedi'i lleoli o fewn yr Ardal Astudiaeth Allweddol sydd wedi'i diffinio gan Horizon. Er bod Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod mwyafrif yr effeithiau yn debygol o gael eu gweld ar Ynys Môn, mae'r prosiect yn digwydd ar y fath raddfa nes y rhagwelir y bydd effeithiau yn ardal CG, ac felly, bydd angen mesurau lliniaru yn yr ardal honno hefyd. O ganlyniad, byddai Cyngor Gwynedd yn dymuno gweld mecanwaith o fewn yr A106 sy'n caniatáu iddo fod yn rhan o'r meysydd a ganlyn, yn ogystal â'r maes iaith Gymraeg:

- Llety - Nid oes llawer o fanylder yn yr HoTs ynghylch yr hyn fydd wedi'i gynnwys yn yr A106, yn wahanol i rai o'r pynciau eraill. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at sefydliadau a fyddai'n rhan o'r gronfa ac nid oes unrhyw gyfeiriad at sefydlu fframwaith cytûn ar gyfer monitro.
- Yr Effaith Gymunedol - Mae'r HoTs yn cyfeirio at bwyllgor rheoli sy'n cynnwys HNP, CSYM, LlC a'r gwasanaethau brys. Byddai CG yn dymuno bod ar y pwyllgor hwn hefyd.
- Iechyd a llesiant - Cyfeirir at is-grŵp ac mae'r goblygiadau a nodir ymhellach ymlaen yn awgrymu y byddai hwn yn cynnwys cyrff iechyd a'r gwasanaethau brys. Byddai Cyngor Gwynedd (a CSYM yn ddi-os) yn dymuno cael ei gynrychioli ar y grŵp hwn, o ystyried ein cyfrifoldebau dan lesiant ac iechyd cymunedol yn ehangach. Yn ogystal, mae'r testun yn cyfeirio at bwysau ar y farchnad dai a byddai hyn yn bryder i'r Cyngor.
- Addysg a sgiliau - Gwneir cyfeiriad penodol at CSYM a sefydliadau eraill o ran anghenion llafur yn y sector iechyd. Mae CG yn rhedeg 13 o gartrefi gofal preswyl ac mae ganddo gyfrifoldebau gofal cymdeithasol. Dymuna'r Cyngor fod yn rhan o hyn.
- Twristiaeth - Nid yw'r HoTs yn cyfeirio at unrhyw sefydliadau ac fe allai elwa o gyfeirio at y ffaith bod cyllid ar gael ar draws yr Ardal Astudiaeth Allweddol.
- Siarter Cadwyn Gyflenwi - Cyfeirir at CSYM, Llywodraeth Cymru, BUEGC a Menter Newydd. Dymuna CG fod yn rhan o hyn.

- Cytundeb Lefel Gwasanaeth a graddfa'r cyfraniadau - byddai Cyngor Gwynedd hefyd yn dymuno medru gwneud cais am gyllid, yn enwedig o ran monitro ac ar gyfer amser swyddogion a dreulir ar faterion sy'n ymwneud â'r uchod.

7.7 Yn ychwanegol at y meysydd uchod, mae gan y Cyngor bryderon hefyd ynglŷn â materion priffyrdd a chludiant fel y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6.1 o'r datganiad hwn, ac felly, mae angen mesurau priodol yn eu lle i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

7.8 I grynhoi, byddai Penawdau'r Telerau ar gyfer yr A106 yn elwa o sylw trosfwaol y byddai'r mesurau, sydd wedi'u cynnwys yn y rhwymedigaethau, yn dilyn yr effeithiau ac mewn egwyddor, ar gael drwy'r Ardal Astudiaeth Allweddol gyfan. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid oes prin gyfeiriad at Wynedd, er bod y sir yn ffurfio elfen sylweddol o ardal yr astudiaeth. Bydd y Cyngor yn aros yn eiddgar i weld y cytundeb A106 drafft yn nherfyn amser 3.

**Atodiad A Polisïau Perthnasol yng Nghynllun Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd**

**Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni trwy:

1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau a ganlyn:
    a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu
    b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ei ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddiad ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu
    c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap y tu mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.
2. Gofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu;
3. Gwrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol;
4. Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;
5. Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

**Polisi Strategol PS 2: Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr**

Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) sy'n angenrheidiol yn cael ei ddarparu yn amserol ar gyfer gwneud y cynnig yn dderbyniol trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. Yn ddarostyngedig i gwrdd â'r profion statudol, fe all fod yn ofynnol gofyn am daliadau cynnal yn unol â chytundebau adran 106 er mwyn cwrdd â chostau dechreuol i redeg gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddifrod a achosir gan ddatblygiad. Lle bod angen darparu'r isadeiledd angenrheidiol, galluogol a hanfodol o ganlyniad i'r cynnig ac nad ellir ei leoli ar y safle, gofynnir am gyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael y buddsoddiad angenrheidiol oddi ar y safle. Os yw effaith y datblygiad yn un gronnol fe ellir cronni'r cyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, er mwyn lliniaru'r effaith gronnol.

**POLISI ISA 1: Darpariaeth Isadeiledd**

Caniateir cynigion dim ond pan fo capasiti isadeiledd digonol yn bodoli, neu lle caiff ei ddarparu mewn modd amserol. Os yw cynnig yn creu angen uniongyrchol am isadeiledd newydd neu well, ac os na chaiff hwn ei ddarparu gan gwmni gwasanaeth neu isadeiledd, yna rhaid i'r datblygiad ei ariannu. Gellir ceisio cyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau i isadeiledd, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, os yw'r rheini yn angenrheidiol i wneud cynnig yn dderbyniol. Pan fydd yn briodol, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol at ystod o ddibenion, yn cynnwys:

1. Tai fforddiadwy
2. Cyfleusterau chwaraeon a hamdden
3. Cyfleusterau addysgol
4. Cyfleusterau cyflogaeth a hyfforddiant
5. Hamdden a llecynnau agored
6. Isadeiledd trafnidiaeth yn cynnwys cludiant cyhoeddus
7. Cyfleusterau gofal iechyd
8. Cadwraeth natur
9. Cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu
10. Isadeiledd adnewyddadwy a charbon isel
11. Cyfleusterau diwylliannol a chymunedol
12. Mesurau iaith Gymraeg
13. Isadeiledd band llydan
14. Tir y Cyhoedd
15. Mesurau rheoli risg llifogydd
16. Isadeiledd gwasanaethau, gan gynnwys cyflenwad dŵr, draenio, carthffosydd, nwy a thrydan
17. Asedau archeolegol a hanesyddol Caniateir cynigion am wasanaethau i wella'r ddarpariaeth seilwaith yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl.

**Polisi ISA 2: Cyfleusterau Cymunedol**

Bydd y Cynllun yn cynorthwyo i gynnal a gwella cyfleusterau cymunedol trwy:

1. Caniatáu datblygu cyfleusterau cymunedol newydd, yn amodol ar yr hyn a ganlyn:

   i. eu bod wedi’u lleoli oddi mewn neu’n gyfagos â ffiniau datblygu, neu eu bod wedi’u lleoli tu allan i ffiniau datblygu ond oddi mewn i glystyrau o aneddiadau, lle bydd y datblygiad yn darparu cyfleuster angenrheidiol i gefnogi’r gymuned leol;
   ii. yn achos adeiladau newydd, na ellir bodloni anghenion y gymuned leol trwy wneud defnydd deuol o gyfleusterau presennol neu drosi adeiladau presennol;
   iii. os yw’r cynnig yn gofyn am ail-leoli cyfleuster, y gellir dangos nad yw’r safle presennol bellach yn addas ar gyfer y defnydd hwnnw;
   iv. bod graddfa a math y datblygiad arfaethedig yn briodol o gymharu â maint, cymeriad a swyddogaeth yr anheddiad.
   v. ei bod yn hawdd cael mynediad i'r siop ar droed, ar feic ac ar gludiant cyhoeddus. Anogir darparu cyfleusterau cymunedol newydd neu estynedig aml-ddefnydd, gan gynnwys cyd-leoli cyfleusterau gofal iechyd, ysgol, llyfrgell a hamdden mewn lleoliadau hygyrch.

2. Gwrthsefyll colled neu newid defnydd cyfleuster cymunedol presennol oni bai:

   i. y gall y datblygwr ddarparu cyfleuster addas yn ei le un ai ar y safle neu oddi ar y safle, ac o fewn mynediad rhwydd a chyfleus drwy ddulliau ac eithrio car, neu
   ii. y gellir dangos bod y cyfleuster yn amhriodol neu’n ormod i’r hyn sydd ei angen, neu,
   iii. mewn achos cyfleuster a weithredir yn fasnachol:
      • bod tystiolaeth bod y defnydd cyfredol wedi rhoi'r gorau i fod yn hyfyw yn ariannol, a
      • na ellir bod disgwyl yn rhesymol iddo ddod yn hyfyw yn ariannol ac • ni ellir sefydlu unrhyw ddefnydd cymunedol addas arall, a
      • mae tystiolaeth o wir ymdrechion i farchnata'r cyfleuster, sydd wedi bod yn aflwyddiannus.

Tud. 61

**Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**

Lleolir datblygiadau fel y gellir lleihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau i drafnidiaeth sy'n mwyhau hygyrchedd drwy'r holl ddulliau cludiant, ond yn enwedig ar droed, ar feic a chludiant cyhoeddus. Cyflawnir hyn drwy sicrhau mynediad hawdd drwy droedffyrdd, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus lle bo'n briodol ac felly annog y defnydd o'r dulliau cludiant hyn ar gyfer teithiau lleol a lleihau'r angen i deithio â char. Bydd y Cyngor yn ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio. Cyflawnir hyn drwy weithio gyda'n partneriaid er mwyn:

1. Cynnal gwasanaeth cludiant cyhoeddus priodol, gan gydnabod ffyrdd amgen o gynnal cyfleoedd teithio;

2. Cynnal a chadw a gwella gorsafoedd, isadeiledd a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffyrdd gan gynnwys mynediad i bobl anabl a gwelliannau eraill sy'n ymwneud â rheilffyrdd;

3. Lle bo hynny'n bosib, diogelu, gwella, mwyhau a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd), a rhwydweithiau llwybrau beicio i wella diogelwch, hygyrchedd (gan gynnwys pobl anabl), drwy'r dulliau teithio a chynyddu buddion iechyd, hamdden, llesiant a thwristiaeth ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd).

4. Cefnogi cynlluniau fydd yn gwella cludiant gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio / rhannu cyfleusterau ar gyfer meysydd cyflogaeth, datblygiadau newydd a chyfleusterau trosglwyddo llwythau;

5. Pennu neu ddiogelu tir lle bo'n briodol er mwyn hwyluso'r cynlluniau cludiant strategol allweddol. Yn ogystal, bydd y Cynghorau yn gofyn am gyflwyno'r elfennau isadeiledd cludiant allweddol a ganlyn fel rhan o gynlluniau datblygu isadeiledd mawr, naill ai'n anariannol neu drwy rwymedigaethau adran 106.

**Polisi TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant**

1. Gwelliannau i Isadeiledd Presennol

   Caniateir gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant presennol os gellir cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn:

   i. Bydd y llwybr a/neu'r safle a ddewisir yn cael yr ardrawiad lleiaf posib ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y dirwedd ac eiddo; a

   ii. Cedwir y tir a gymerir yn barhaol i'r lleiaf sydd ei angen a bydd rhaid bod yn gyson â dylunio da a thirweddu o ansawdd uchel; ac

   iii. Yn achos llwybrau beicio, cynlluniau parcio a theithio, ardaloedd gwasanaeth ger y ffordd ac ochr y ffordd, bydd y cynllun yn helpu i wella diogelwch ffyrdd; ac

   iv. Yn achos ffyrdd newydd, mae ystod lawn o ddatrysiadau ymarferol i broblem trafnidiaeth wedi'u hystyried ac mae gwella ffyrdd yn cynnig y datrysiad gorau; ac

   v. Yn achos ardaloedd gwasanaeth ger ochr y ffordd, rhaid i'r cynllun ffinio'r rhwydwaith ffyrdd strategol a chanolbwyntio ar wasanaethu anghenion gyrwyr, peidio â rhwystro symudiad traffig strategol ac yn unol â Pholisi Strategol PS 15, ni ddylent danseilio'r ddarpariaeth manwerthu yn y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol neu Bentrefi.

2. Trosglwyddo Rhwng Dulliau Cludiant

Er mwyn hwyluso trosglwyddo rhwng dulliau cludiant a helpu i leihau'r galw am deithio a lleihau'r ddibyniaeth ar geir, cyn belled â'u bod nhw'n cydymffurfio gyda pholisïau perthnasol y Cynllun, caniateir y cynigion a ganlyn:

i. Gwelliannau i gyfnewidfeydd rheilffyrdd a bysus presennol, gan gynnwys mesurau i hwyluso mynediad drwy ddulliau teithio llesol a phobl anabl gydag anghenion mynediad penodol;

ii. Cyfleusterau parcio a theithio parhaol wedi eu lleoli'n strategol o fewn neu wrth ymyl Canolfannau neu mewn lleoliadau eraill sy'n agos i'r prif rwydwaith ffordd lle gellir dangos nad oes safleoedd amgen boddhaol yn agosach at y Canolfannau, lle mae cwsmeriaid yn cael eu cefnogi gan wasanaethau bysys aml rhwng y cyfleuster a phen y daith;

iii. Cyfleusterau parcio lorïau dros nos a chyfleusterau trosglwyddo llwythi wedi'u lleoli'n strategol o fewn neu wrth ymyl Canolfannau;

iv. Cyfleusterau ansawdd uchel ar gyfer gyrwyr a theithwyr gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i seddau, gwybodaeth, cyfleusterau toiledau;

v. Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu mewn lleoliadau priodol ar y rhwydwaith priffyrdd strategol yn gyfochrog i aneddiadau neu oddi mewn iddynt;

vi. Cyfleusterau o fewn aneddiadau ar gyfer parcio bysys, tacsis a mannau gollwng teithwyr;

vii. Cyfleusterau ar gyfer cyfnewidfa â chludiant ar y dŵr.

3. Bydd Cynigion Asesiadau cludiant ar gyfer datblygiadau graddfa fawr neu ddatblygiad o fewn ardal sensitif sydd yn cynyddu'n sylweddol y nifer o deithiau trwy gerbydau preifat yn cael eu gwrthod os nad ydynt yn cynnwys mesurau fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a/neu Gynllun Teithio. Lle bo'r Asesiad Cludiant yn dangos bod angen Strategaeth Gweithredu Cludiant, bydd angen sicrhau hyn drwy rwymedigaeth cynllunio.

4. Bydd Gwelliannau Cynlluniau Cludiant i'r rhwydwaith cludiant strategol yn ardal y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy ddiogelu a darparu tir. Mae'r cynlluniau yn cynnwys:

i. A487 Caernarfon i Bontnewydd

ii. Ffordd gyswllt Llangefni

iii. A5025 Y Fali i Wylfa a gwelliannau eraill i isadeiledd trafnidiaeth yn gysylltiedig â datblygiad yn Wylfa Newydd, gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn asesiad ardrawiad trafnidiaeth o Brosiect Wylfa Newydd ar yr A5025.

**Polisi TRA 4: Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth**

Lle'n briodol, dylid cynllunio a dylunio datblygiad mewn ffordd sydd yn hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio gan roi sylw i'r goeden o ddefnyddwyr:

1. Cerddwyr, gan gynnwys pobl gyda phramiau a/neu blant ifanc;

2. Pobl anabl â phobl â phroblemau symudedd ac anghenion mynediad penodol;

3. Beicwyr;

4. Cerbydau dwy olwyn â phŵer:

5. Cludiant cyhoeddus;

6. Mynediad i gerbydau a rheolaeth traffig o fewn y safle a'r ardal o'i gwmpas

7. Parcio ceir a'u gwasanaethu;

8. Mannau parcio i fysus; a

9. Marchogion.

Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill gan gynnwys llwybrau i gerddwyr, beicwyr, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffyl. Bydd lefel y niwed annerbyniol yn cael ei bennu gan yr awdurdod lleol fesul achos.

**Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy**

Cefnogir datblygiadau lle gellid dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dylai bob cynnig:

1. Liniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel yn unol â Pholisi Strategol PS 6;

2. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen, lle bynnag bo hynny'n bosib, oddi mewn i ffiniau datblygu'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt yn unol â Pholisi Strategol PS 17, PS 13 a PS 14;

3. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol a dewis o ddulliau teithio;

4. Gwarchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1;

5. Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt yn unol â Pholisi Strategol PS 20;

6. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS 19;

7. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd;

8. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy a dilyn amcanion Cynllun Rheoli Bas Afonydd Gorllewin Cymru. Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:

9. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai yn unol â Pholisi Strategol PS 16;

10. Hyrwyddo economi lleol amrywiol ac ymatebol, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig yn unol â Pholisi Strategol PS 13;

11. Cefnogi'r economi lleol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS 13;

12. Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4;

13. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, mannau hygyrch sy'n medru ymateb i ofynion y dyfodol ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd yn unol â Pholisi PCYFF 3.

**Polisi Strategol PS 9: Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig**

Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n penderfynu ar ddatblygiad perthynol ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau, lle'n briodol, yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r meini prawf yn y Polisi yma a Pholisïau PS 10 - 12, lle bo'n berthnasol.

Wrth ymateb i gynigion sy'n ffurfio rhan o gais am Ganiatâd Datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi'r Adroddiad Effaith Leol.

1. Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r dull o ddatblygu'r orsaf pŵer niwclear a chynigion am ddatblygiad perthynol;

2. Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion adeiladu Prosiect Wylfa Newydd gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer presennol;

3. Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn rhan o strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig sy'n ystyried Polisi Strategol PS 4 a Pholisïau manwl perthnasol ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu ac adfer. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio a dulliau trafnidiaeth gynaliadwy eraill;

4. Bydd gwaith cynnar neu baratoi ar gyfer datblygiad yr orsaf pŵer niwclear yn dangos eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir Prosiect Wylfa Newydd yn amserol neu wedi'u cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau adeiladu neu weithrediad Prosiect Wylfa Newydd. Rhaid i unrhyw waith cynnar neu baratoi gael strategaeth i alluogi i'r safleoedd gael eu hadfer i safon dderbyniol pe na fyddai'r Prosiect yn derbyn caniatâd neu gael ei adeiladu a sut y sicrheir y costau o gynnal gwaith adfer o'r fath, gan gynnwys drwy fondio.

5. Dylai gofynion am lety gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy’n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol, yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i’r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill (gan roddi ystyriaeth i’r wybodaeth a gyhoeddir yn yr Asesiad Marchnad Tai Lleol), ac na fydd yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol, ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth gadarn ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a fydd yn talu sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys Polisi PS 10;

6. Pan fydd y cynigion am gyfnod dros dro fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig roi ystyriaeth i’r etifeddiaeth a fyddai’n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir yn ystod y cyfnod ôl adeiladu. Lle bwriedir cael defnydd etifeddiaeth, bydd angen cyflwyno cynllun cyflawni ynghyd ag unrhyw gais cynllunio i ddangos sut rhoddwyd sylw i ddefnydd etifeddiaeth ac i ddangos sut mae wedi dylanwadu ar ddyluniad a chynllun y safleoedd datblygu perthynol, yn ogystal â chyfrannu at fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys);

7. Bydd cynigion am ddatblygiad cysylltiedig ar gyfer llety gweithwyr steil campws, canolfannau logisteg, cyfleusterau parcio a theithio hefyd yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf ym Mholisïau PS 10 - 12;

8. Dylai sut mae’r cynllun yn cael ei gynllunio a’i ddyluniad a graddfa’r llefydd agored, tirweddu, plannu (gan gynnwys gwrychoedd a choed), dyfrffordd a nodweddion tebyg arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a’r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa’r datblygiad, a maint ei ardrawiad;

9. Bydd angen i’r hyrwyddwr drafod yn fuan efo’r Cyngor ynglŷn â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a phenodi, gyda’r nod i uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a thymor hirach. Bydd angen i strategaethau a chynlluniau darparu'r hyrwyddwr ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gael eu cyflwyno i'r Cyngor fel rhan o gais cynllunio cyn belled â’u bod yn berthnasol i’r cais;

10. Bod isadeiledd cyfleusterau cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden. Lle bo’n ymarferol dylai’r isadeiledd cyfleusterau cymunedol yma, a leolir ar safleoedd ar wahân i Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gael eu lleoli a’u dylunio fel eu bod ar gael i’r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo’n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd ardrawiadau neu bwysau ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol sy’n bodoli’n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael naill ai cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir lle bo hynny’n briodol;

11. Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol;

12. Bod holl gynigion yn cael eu gwasanaethu yn briodol gan seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus ac ni fydd yn cael effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol a thwristiaeth a rhaid dangos hyn mewn asesiad trafnidiaeth. Lle ceir cysylltedd trafnidiaeth annigonol neu nad oes gan y rhwydwaith ffyrdd ddigon o gapasiti i ymdopi â lefel y traffig a fydd yn deillio o unrhyw ddatblygiad, neu rhagwelir effaith andwyol, bydd angen darparu gwelliannau priodol i’r rhwydwaith trafnidiaeth a darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i liniaru’r ardrawiadau;

13. Dylai’r baich a’r tarfu ar y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â’r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i’r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu’r gymuned am y baich a’r tarfu sy’n digwydd trwy fod yn lleoliad i’r prosiect;

14. Byddai angen i unrhyw gynnig ar safle Wylfa Newydd (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â gwastraff ymbelydrol Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolradd neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy’n deillio o’r orsaf bŵer niwclear presennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol y tu mewn i neu y tu allan i ardal y Cynllun, mewn cyfleuster presennol neu arfaethedig ar neu du allan i’r safle niwclear i. ddangos y byddai’r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.

15. Os nad yw defnydd yn y dyfodol neu ddefnydd etifeddiaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad dros dro yn ymarferol bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod adeiladau dros dro yn cael eu symud; a

    i. Bod y tir sydd wedi cael ei wasanaethu wedi'i adael mewn cyflwr addas ar ôl cael gwared ar y strwythurau yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; neu

    ii. Bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, llefydd parcio a chyfleusterau draenio yn cael eu tynnu oddi ar y safle yn barhaol a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol

.

16. Mae’n bosibl, wrth i’r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld yn sgil adeiladu a gweithredu adeiladu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned y mae hynny’n effeithio arni. Dylai’r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro’r amrediad llawn o ardrawiadau, adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen.

**Polisi Strategol PS 10: Wylfa Newydd - Llety Dros Dro Tebyg i Gampws ar gyfer Gweithwyr Adeiladu**

Yn eu rôl fel yr awdurdodau yn penderfynu ynglŷn â datblygiad llety arddull campws ar gyfer gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo’n briodol, gyda’r meini prawf ym Mholisi PS 9 a gyda’r Polisi yma. Wrth ymateb i gynigion sy’n ffurfio rhan o gais am Ganiatâd Datblygu i’r Ysgrifennydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi’r Adroddiad Effaith Lleol.

1. bod y datblygwr yn dangos yn gyntaf bod y cynnig yn diwallu angen a brofir am lety dros dro i weithwyr adeiladu nad ellir ei ddiwallu trwy un ai lety preswyl presennol, neu ailddefnyddio adeiladau presennol, neu trwy ddarparu adeiladau parhaol y gellir eu haddasu i ddefnydd parhaol ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu; a

2. lleolir y cynnig ar safle Prosiect Wylfa Newydd neu safle sy’n gyfagos neu sydd â pherthynas dda gyda ffin datblygu Caergybi, Amlwch, Llangefni, Gaerwen neu’r Fali, ac mae’n agos at y prif rwydwaith priffyrdd lle y gellir darparu mynediad digonol heb niwed sylweddol i gymeriad a nodweddion tirwedd, a hefyd yn rhoi ystyriaeth i’r polisi sy’n ffafrio defnyddio tir a ddatblygwyd o’r blaen; a

3. rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol y datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig neu gwneir cyfraniad tuag at liniaru'r effeithiau hynny yn unol â Pholisi PS 1 a Pholisi ISA; a

4. lle nad oes digon o gapasiti o fewn cyfleusterau hamdden, manwerthu a chyfleusterau gofal iechyd presennol oddi ar y safle i ddiwallu anghenion meddianwyr y safle neu lle nad oes cyfleusterau o'r fath o fewn pellter derbyniol sy'n hwyluso mynediad iddynt ar droed neu ar feic, rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru effeithiau negyddol a allai gynnwys darparu cyfleusterau ategol ar y safle ar gyfer defnydd y meddianwyr; a

5. bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddiannaeth er mwyn hwyluso monitro ardrawiadau'r datblygiad, gan gynnwys y nifer o weithwyr adeiladu gaiff lety, cyfnod aros a chadw cofnod o ddata dienw o'r gweithwyr (gan roi sylw i ofynion deddfwriaeth diogelu gwybodaeth) a gwneud y wybodaeth yma ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor.

**Polisi Strategol PS 12: Wylfa Newydd - Cyfleusterau Parcio a Theithio a Parcio a Rhannu.**

Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n penderfynu ynglŷn â chyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol,gyda'r meini prawf ym Mholisi PS 9 a gyda'r Polisi yma. Wrth ymateb i gynigion sy'n ffurfio rhan o gais am Ganiatâd Datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi'r Adroddiad Effaith Leol.

1. Er mwyn lleihau'r angen i weithwyr adeiladu a gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyfleuster i deithio gyda char preifat, bod y safle wedi ei leoli: i. o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at yr A5/ A55; neu ii. mewn lleoliadau eraill sydd ar hyd yr A5/ A55 lle mae'r safle yn rhan o ddull cynhwysfawr i liniaru effeithiau trafnidiaeth y Prosiect, wedi rhoi sylw i'r ffaith bod y Cynghorau yn ffafrio'r angen i roi ystyriaeth i safleoedd yn agosach i'r Canolfannau, wedi cymryd sylw o ystyriaethau tirwedd ac amgylcheddol, a lle gallir darparu dulliau i deithio i'r safle mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys cludiant cyhoeddus a beicio;

2. Dylai pob bwriad gynnwys llwybrau cerdded a beicio newydd, a dylid gwella'r rhai presennol yn ogystal â gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus; 3. Defnyddir lleoliad yr adeiladau a'r gweithgareddau, y dull o gyrraedd a gadael y safle a'r mecanweithiau priodol i liniaru effeithiau negyddol y datblygiad arfaethedig ar fwynderau'r cymunedau lleol.

**Polisi Strategol PS 14: Yr Economi Ymwelwyr**

Wrth sicrhau cysondeb â'r economi lleol a chymunedau lleol a sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael ei warchod, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth lleol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy:

1. Ganolbwyntio datblygiadau twristiaeth, diwylliannol, celfyddydol a hamdden sy'n gynaliadwy, yn actif ac ar raddfa fwy yn y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol ac, os yn briodol, y canolfannau gwasanaeth lleol;

2. Gwarchod a chyfoethogi llety wedi'i wasanaethu presennol a chefnogi'r ddarpariaeth o lety wedi'i wasanaethu o ansawdd uchel yn y canolfannau is-ranbarthol, trefol a

lleol a phentrefi;

3. Rheoli a chyfoethogi'r ddarpariaeth o lety twristiaid heb ei wasanaethu o ansawdd uchel ar ffurf bythynnod a fflatiau hunan-arlwyo, gwersylla, gwersylla moethus amgen, parciau carafanau sefydlog neu deithiol neu siales;

4. Cefnogi darpariaethau a mentrau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn lleoliadau cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, os yw hynny’n briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig os yw’r rhain hefyd o fudd i’r cymunedau lleol ac yn cefnogi’r economi lleol, ac os ydynt yn unol â’r amcanion datblygu cynaliadwy;

5. Atal datblygiadau a fyddai’n cael effaith andwyol annerbyniol ar y cyfleusterau twristiaeth, gan gynnwys nodweddion llety a llefydd o ddiddordeb i ymwelwyr neu eu gosodiad, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i adfer difrod a wnaed eisoes i’r dirwedd.

**Polisi TWR 2: Llety gwyliau**

Bydd cynigion ar gyfer:

1. Datblygu llety gwyliau parhaol newydd â gwasanaeth, neu rai hunanwasanaeth, neu

2. Trosi adeiladau presennol i lety o’r fath, neu

3. Ymestyn sefydliadau llety gwyliau sy’n bodoli, yn cael eu caniatáu cyn belled â’u bod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, ac os gellir cwrdd gyda’r meini prawf a ganlyn i gyd:
    - i. Yn achos llety sy’n adeilad newydd, bod y datblygiad wedi ei leoli y tu mewn i ffin ddatblygu, neu’n gwneud defnydd o safle addas a ddatblygwyd o’r blaen;
    - ii. Bod graddfa’r datblygiad arfaethedig yn briodol gan ystyried y safle, y lleoliad a/neu’r anheddiad dan sylw;
    - iii. Na fydd y bwriad yn arwain at golled yn y stoc tai parhaol;
    - iv. Nad yw’r datblygiad yn cael ei leoli mewn ardal sy’n ardal breswyl yn bennaf, neu’n peri niwed sylweddol i gymeriad preswyl ardal;
    - v. Nad yw’r datblygiad yn arwain at ormodedd o lety o’r fath yn yr ardal.

**Polisi TWR 3: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol**

1. Gwrthodir cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau sefydlog newydd (h.y. carafán sengl neu ddwbl), safleoedd sialé4 gwyliau newydd neu lety gwersylla amgen parhaol yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn ac yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mewn lleoliadau eraill caniateir safleoedd carafanau sefydlog, sialé neu lety gwersylla amgen parhaol, dim ond:

    - i. Lle gellir profi nad yw’n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd sialé neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol; a

    - ii. Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a’i fod wedi’i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi’i guddio’n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu’r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw’n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; a

    - iii. Bod y safle’n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu’n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

2. Mewn amgylchiadau eithriadol caniateir cynigion a fyddai'n arwain at adleoli safle carafán statig neu siales presennol sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn neu Ardaloedd Tirwedd Arbennig sydd yn ffurfio rhan o'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol i safle arall lle bo posib bodloni meini prawf 1. i - iii a phan fo'r safle newydd wedi cael ei leoli y tu allan i'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol.

3. Oddi mewn i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd sefydlog a sialé sy'n bodoli eisoes trwy:

   i. estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/neu

   ii. ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg, yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:

   iii. Nid yw'r gwelliannau yn cynyddu nifer y carafanau sefydlog neu'r unedau sialé ar y safle, oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y cynigion yn golygu ail-leoli parciau presennol sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol;

   iv. Bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle;

   v. O ran safleoedd sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal Rheoli Newid Arfordirol, fod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun ehangach i wella diogelwch preswylwyr y carafanau neu breswylwyr y siales;

   vi. Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig gwelliannau sylweddol a pharhaol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch;

   vii. Ei fod yn addas yng nghyd-destun polisïau eraill yn y Cynllun. 4. Y tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd carafanau sefydlog a sialé sy'n bodoli eisoes trwy:

      i. estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/neu

      ii. ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg, a/neu,

      iii. cynnydd bychan yn nifer yr unedau ar y safle, yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn i gyd:

      iv. Bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle;

      v. Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig gwelliannau sylweddol a pharhaol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch;

      vi. O ran safleoedd sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal Rheoli Newid Arfordirol, fod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun ehangach i wella diogelwch preswylwyr y carafanau neu breswylwyr y siales;

      vii. Bod unrhyw gynnydd yn nifer yr unedau carfanau gwyliau sefydlog neu siales gwyliau yn fach ac yn gydnaws â graddfa unrhyw welliannau i'r safle;

viii. Ei fod yn addas yng nghyd-destun polisïau eraill yn y Cynllun.

1. Marchnad dai

Mae rhagdybiaeth i safle'r campws liniaru'r effeithiau sylweddol ar y farchnad dai leol. Rhaid cael gwaith adeiladu fesul cam hyblyg, i ateb y galw neu ymateb i amrywiadau yng nghyfansoddiad y gweithlu. Mae angen mesurau monitro'r effeithiau ar Wynedd a gweithredu camau lliniaru.

Nid yw prisiau rhent presennol yn fforddiadwy i rai. Bydd cynnydd yn effeithio ar breswylwyr agored i niwed. Gallai poblogaeth wedi'i hadleoli waethygu problemau cymdeithasol. Nid yw'r Cyngor wedi cael trafodaethau penodol ar y Gronfa Dai.

2. Cludiant a seilwaith ffyrdd

Rhaid rheoli symudiadau cerbydau a gwneud trefniadau ar gyfer adegau pan fydd Pont Menai ar gau.

Mae parcio anghyfreithlon yn broblem ar briffyrdd y sir eisoes. Gall y sefyllfa waethygu pan fydd gwaith adeiladu ar ei anterth. Mae HNP yn cynnig un safle parcio a theithio. Ni fyddai'n lleihau symudiadau cerbydau nac yn lliniaru'r broblem parcio anghyfreithlon ar draws Gwynedd.

Gallai adeiladu campws y safle fesul cam liniaru rhai o'r effeithiau ar y farchnad dai a lleihau traffig. Mae'r Cynllun Fesul Cam(cyf.8.24) yn nodi y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Blwyddyn 5 pan fydd tua 5,000 o weithwyr. Gall yr effeithiau ar y priffyrdd eisoes fod yn amlwg. Mae'r SLlG (WAS)(cyf.8.4) yn nodi y bydd gofyniad GCD(DCO) ar gyfer cyflenwi'r campws. Ni chyfeirir at hyn yng ngofynion DCO (WN17-25). Mae'r SRhG (WMS)(cyf.8.5) yn ymrwymo i sicrhau cyfradd ddeiliadaeth uchel ar y campws. Sut gellir gorfodi'r ymrwymiad hwn?

Mae angen ymrwymiadau i fonitro lle bydd gweithwyr yn byw a sut byddant teithio.

3. Iaith Gymraeg a diwylliant

Mae mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y AEIG(WLIA) (cyf.8.21) wedi'u lleihau, yn llai clir a phendant. Ymddengys bod hyn yn diystyru safbwyntiau rhanddeiliaid.

Mae angen ymrwymiad i fonitro a gweithredu mesurau yng Ngwynedd. Byddai cynnal adolygiad hanner-ffordd yn rhy hwyr i liniaru'r effeithiau fydd, o bosibl, eisoes yn digwydd.

4. Gwasanaethau cyhoeddus a nodweddion cymdeithasol

Ni ddarparir llawer o wybodaeth ynglŷn â sut bydd anghenion yn cael eu bodloni. Nodir AEI(HIA) (ref.8.19) bod darpariaeth gofal yn fater sy'n gofyn am gynllunio manwl. Er bod yr Asesiad yn cyfeirio at ddarparu cyfleusterau iechyd ar y safle, nid yw'r GCD(DCO) yn sicrhau eu darpariaeth.

5. Marchnad lafur

Cefnogir defnyddio targedau cyflogaeth leol. Rhaid i bartïon gydweithio i sicrhau bod llafur lleol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.

Dylid ymestyn a mwyhau gweithgareddau'r farchnad lafur leol cyn gynted â phosibl.

Dylid cynnal trafodaethau gyda'r ADN (NDA) a BAM Eryri (EZB) i ystyried sut gall y prosiect gyfrannu at weithlu niwclear ardal Meirionnydd.

6. Cadwyn gyflenwi

Croesawir Siarter y Gadwyn Gyflenwi. Dymunir gweld mwy o weithgarwch i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi ranbarthol. Mae angen targedau ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau lleol a Chymreig.

7. Economi ehangach

Er y bydd effeithiau cadarnhaol, efallai na fydd rhai busnesau a sefydliadau lleol yn elwa. Mae'n bosibl y bydd effaith tymor hir ar y diwydiant twristiaeth.

Ymddengys bod HNP yn ymwybodol o'r effeithiau posibl ar dwristiaeth ond mae diffyg ystyriaeth o effeithiau anuniongyrchol ac eilaidd y datblygiad ar elfennau eraill o'r economi ehangach Gogledd-orllewin Cymru.

---

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **27 Tachwedd 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679003** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 - Cais am adnoddau parhaol i staffio Unedau Dementia newydd yn Llys Cadfan, Plas Hafan, Plas Hedd a Bryn Blodau i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth 'Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal' o fewn Cynllun y Cyngor.** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Neilltuo £808,000 i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ac i gyfarfod gofynion Arolygaeth Gofal Cymru o ran staffio rotas cartrefi preswyl.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 a fabwysiadwyd ar yr 8fed o Fawrth eleni yn nodi'r bwriad i ddatblygu'r Unedau Dementia yn y cartrefi a ganlyn:

- Llys Cadfan, Tywyn (datblygu uned ychwanegol)
- Plas Hafan, Nefyn
- Plas Hedd, Bangor
- Bryn Blodau, Llan Ffestiniog (datblygu unedau ychwanegol)

Gyda'r gwaith o fuddsoddi yn yr adeiladau yn Llys Cadfan, Plas Hafan a Phlas Hedd wedi cael ei gwblhau a'r gwaith mewnol ym Mryn Blodau yn cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Derbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith allanol ym Mryn Blodau yn ddiweddar ac rydym yn hyderus y bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2019.

2.2 Mae'r buddsoddiad cyfalaf yma wedi ei wneud gyda adnoddau cronfa ICF Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddenu'r buddsoddiad ar sail esblygu y gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor er ymateb i anghenion mwy dwys ac fel sylfaen ar gyfer datblygu a chryfhau ein cydweithrediad agos gyda'r Bwrdd Iechyd ar lefel lleol yn enwedig o ran sut mae ein timau cymunedol yn gweithredu. Cydnabyddir bod elfen o risg yn codi o weithredu rhannau o'r cynlluniau cyn bod penderfyniad terfynol

wedi ei wneud ar adnoddau a chapasiti staffio, ond gyda'r amcan i ddatblygu'r gwasanaethau yn rhan greiddiol o baratoadau Cynllun y Cyngor, gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen a gwneud defnydd o'r cyfleon oedd yn codi trwy'r gronfa ICF. Roedd y cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaethau unedau dementia yn flaenoriaeth o fewn rhaglen o gynlluniau wedi eu paratoi a'u cytuno ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd yn lleol a'r Cyngor.

2.3 Mae nawr angen penderfynu os ydi'r Cyngor am neilltuo adnoddau refeniw parhaol ar gyfer y rhaglen ddatblygol. Os ydym am wireddu nod y rhaglen ddatblygol a gwneud y defnydd bwriededig o'r gofod newydd ar gyfer unedau dementia yn y pedwar lleoliad yna mae y buddsoddiad yma yn angenrheidiol. Heb y buddsoddiad, bydd cyfraniad y 4 cartref at amcan Cynllun y Cyngor i gynnig gofal dementia a gofal diwedd oes / mwy dwys yn agosach at adref yn cael ei gyfyngu. Yn hytrach, bydd y gwasanaethau yn aros yn eu ffurf llai dwys presennol ond yn gweithredu mewn adeiladau gwell a mwy addas.

2.4 Mae gwerth tua £31,000 o gyfanswm y bid yn ymwneud â'r angen i ymateb i ofynion Arolygaeth Gofal Cymru i gryfhau rotas ar draws Cartrefi Preswyl y Cyngor.

## 3 CYFLWYNIAD

3.1 Mae pob un o'r unedau dementia dan sylw yn mynd i fod yn gartref i 7 neu 8 o unigolion. Ar gyfer pob un bydd angen trefn staffio 2:2:1 sef dau aelod o staff ar y shifft bore, dau ar gyfer y prynhawn / gyda'r nos ac un dros nos. Wrth sefydlu Uned o'r newydd mae hyn yn cyfateb yn fras i gynnydd o 40 awr y dydd o gapasiti gofal mwy arbenigol mewn cartref gyda'r gofyn ychydig yn is mewn cartrefi lle mae un Uned yn ei lle yn barod. Bydd cefnogaeth ychwanegol ar gael ar unrhyw adeg gan y staff yng ngweddill y cartref preswyl.

3.2 Mae y cais yn cael ei gyflwyno am adnoddau parhaol ar gyfer datblygiad y gwasanaeth yma.

3.3 Mae anghenion gofal unigolion yn ein cartrefi preswyl eisoes yn fwy dwys nag yr oedd blynyddoedd yn ôl. Gyda'r ymdrech i gynorthwyo pobl i aros yn eu cartref mor hir ag sydd bosib ar un llaw a phrinder gwelyau nyrsio ar y llaw arall, mae natur y gofal sydd angen ei ddarparu yn ein cartrefi preswyl yn dwysau ymhellach. Er nad yw y cynlluniau dan sylw yn golygu cynyddu nifer o welyau yn ein cartrefi (bydd gostyngiad bychan yn y cyfanswm), byddai'r buddsoddiad yn cefnogi'r symudiad tuag at ofal mwy dwys ac yn benodol gofal dementia yn nes at adref.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae'r angen i fuddsoddi yn newid balans a natur y gofal yng nghartrefi preswyl y Cyngor wedi ei amlygu eto eleni gyda 2 gartref preifat yn cau eu drysau. Bu i gartref preswyl Y Llwyn yn Nolgellau gau ym mis Mai ac

mae cartref preswyl nyrsio Penisarwaun wedi cau ddiwedd mis Gorffennaf. Tra bod cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd wedi llwyddo i sicrhau lleoliadau lleol i'r trigolion oedd yn cael eu heffeithio, mae hefyd wedi amlygu nad yw niferoedd y gwelyau gofal mwy dwys a gwelyau nyrsio yng Ngwynedd yn ddigonol i gyfarfod anghenion y dyfodol yn enwedig os am sicrhau y gellir cynnig gofal yn agos at adref i fwyafrif o drigolion y Sir.

4.2 Gyda buddsoddiad preifat mewn mwy o gartrefi nyrsio yn yr ardal yn annhebygol a risgiau cynyddol y bydd rhai darparwyr eraill yn diflannu o'r farchnad, mae rhaglen waith yr Adran wedi adnabod cyfres o gartrefi lle gall buddsoddiad cyfalaf cymharol isel gyda buddsoddiad refeniw cyfochrog, gynnig cyfleon i gryfhau y ddarpariaeth a gynigir yng Ngwynedd. Mae'r angen yma ar gyfer y 4 lleoliad sef Llys Cadfan, Plas Hedd, Plas Hafan a Bryn Blodau yn cael ei gydnabod a'i flaenoriaethu yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

4.3 Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus iawn yn denu arian o gronfa ICF i ariannu'r gwelliannau cyfalaf yma, gyda buddsoddiad eisoes wedi ei wneud yn Llys Cadfan, Plas Hafan a Phlas Hedd. Mae'r Adran yn gweithio yn agos gyda'r Gwasanaeth Eiddo ar y buddsoddiad nesaf ym Mryn Blodau a gobeithir y bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2019.

4.4 Byddai parhau i newid y balans gofal o fewn cartrefi preswyl y Cyngor dros gyfnod o amser yn golygu buddsoddi mewn lleoliadau eraill dros y blynyddoedd nesaf. Er nad oes adnoddau ar gyfer eu gweithredu wedi ei glustnodi mae'r gwaith o gael y cynlluniau a'r caniatâdau yn eu lle ar gyfer 4 safle pellach. Bydd gweithredu'r cynlluniau yma yn destun adroddiadau pellach i'r Cabinet os a phryd y bydd cyfleon yn codi i'w gwireddu.

4.5 Bydd yr Adran yn gwneud pob ymdrech i ddenu buddsoddiad cyfalaf allanol ar gyfer y gwelliannau yma ac yn cyflwyno cynlluniau i'w hystyried trwy y broses Cynllun Asedau. Bydd goblygiadau refeniw gweithredu hyn yn cael ei wneud yn amlwg ar ddechrau y broses a bydd y ceisiadau refeniw cyfochrog ar gyfer staffio yr unedau yn briodol i ddarparu'r gwasanaethau dementia yn cael eu cyflwyno trwy y drefn bidiau arferol.

4.6 Mae'r cais yma yn cael ei gyflwyno am adnoddau refeniw ar sail costau 2018/19. Gobeithir dechrau darparu y gwasanaethau newydd yn rhai o'r cartrefi yn fuan yn 2019. Mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu £174,000 o arian unwaith ac am byth i ariannu y gwasanaeth yn Llys Cadfan, Plas Hedd a Phlas Hafan yn ystod 2018-19. Ar sail hynny, ni ragwelir y bydd bwlch ariannu y gwasanaeth yn ystod 2018-19 ond gan mai arian unwaith ac am byth sydd ar gael, bydd angen sicrhau y swm llawn yn flynyddol wedi hynny. Bydd angen i ariannu Bryn Blodau yn llawn o fis Gorffennaf 2019. Mae natur y ddarpariaeth gwasanaeth yn golygu bod rhaid cael sicrwydd ariannu tymor hir cyn y gellir dechrau darparu'r gwasanaeth. Os na ellir sicrhau hynny yna bydd y gwasanaethau yn parhau ar y lefelau presennol o'r arian unwaith ac am byth o gronfa ICF yn cael ei

gyfeirio i gynlluniau eraill. Ni ellir gwarantu y byddai y cynlluniau hynny o fewn Gwynedd.

4.7 Dros y misoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer o unigolion sydd yn methu cael eu rhyddhau o'r ysbyty o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth gofal addas. Mae tebygolrwydd cryf y bydd y niferoedd yma yn cynyddu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf fel y mae pobl yn byw yn hyn. Nid yw hyn yn llesol i'r unigolyn nac o ran cynnal gwasanaethau iechyd effeithiol a chynaliadwy.

4.8 Byddai methu a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer gofal dementia yn debygol o gael effaith ar fywyd defnyddwyr gwasanaeth yn y Sir. Byddent yn fwy tebygol o orfod symud o'u cymuned leol i gael gofal a gallai hyn olygu effaith ar deuluoedd yn ymweld, ac o bosib gofal gan staff di-gymraeg mewn diwylliant sydd ddim yn gyfarwydd iddynt. Heb y buddsoddiad refeniw yma i gyd fynd gyda'r buddsoddiad cyfalaf sydd eisoes wedi ei wneud ni fydd yn bosib gwneud y defnydd llawn o'r adnoddau newydd na pharchu dymuniad pobl Gwynedd i aros yn eu hardal a chadw cyswllt gyda'u teuluoedd a'r gymuned leol.

4.9 Yn ogystal, heb y buddsoddiad, ni fydd yn bosib uchafu manteision cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal mwy dwys o fewn cartrefi preswyl y Cyngor.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 O gymeradwyo'r cais am adnoddau, bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn hysbysebu'r swyddi newydd gyda'r nod o benodi, anwytho a hyfforddi staff er darparu'r gwasanaethau yn fuan yn 2019.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 6.1 Barn y Swyddogion Statudol :

**i. Y Swyddog Monitro :**
Mae'r adroddiad yn amlygu taith y mater yma at y cais am adonoddau refeniw. Roedd y buddsoddiad cyalaf drwy drefn grant “ICF” ac mae angen bod yn fyw i unrhyw ymrwymiadau neu amodau sydd yn deillio o weithredu'r ariannu yma. Mae'r argymhellliad a sywladau y Prif Swyddog Cyllid yn gosod y penderfyniad a'i oblygiadau o fewn fframwaith gyllidebu'r Cyngor. Mae'n briodol felly adnabod y gwariant fel bid blaenoriaeth fydd yn ymynd ymlaen i'w ystyried wrth sefydlu'r Gyllideb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid :**
Ymhellach i fuddsoddiad cyfalaf er mwyn addasu'r eiddo, cyflwynir yma gais datblygol am adnoddau refeniw ychwanegol ar gyfer cartrefi'r Cyngor.

O ran trefn gyffredinol i'r dyfodol, nodaf dylai ceisiadau o'r fath gael eu cyflwyno pryd rhoddir ystyriaeth i'r buddsoddiad cyfalaf gwreiddiol.

Yn yr achos benodol yma, er gwaetha'r ffaith byddai ariannu hwn yn golygu'r angen i'r Cyngor orfod gwireddu mwy o arbedion ariannol mewn meysydd eraill erbyn 2019/20, deallaf sut bydd y datblygiad yn cyfarch anghenion anorfod wrth i boblogaeth Gwynedd heneiddio yn y dyfodol.  Felly, rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r cais am £808k o gyllideb refeniw parhaol.

Yn effeithiol, bydd penderfyniad ar hyn rwan yn rhagfarnu 'bid' am adnoddau yng nghyllideb 2019/20, ac os bydd y Cabinet yn cadarnhau'r flaenoriaeth byddwn yn cynllunio yn briodol.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
{26/11/2018)

**Aelod Cabinet: Gareth Griffith**

**Pwnc: Sefydlu Cyfundrefn ar gyfer ag ymdrin a Swyddogaethau'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo ceisiadau Safonau Cenedlaethol Draenio Cynaliadwy dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010.**

**Swyddog cyswllt: Emlyn Jones, Uwch Reolwr, YGC**

---

**Y penderfyniad a geisir**

1. Fod gweithredu cyfrifoldebau statudol o'r Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) i'w priodoli i'r drwy'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
2. Dirprwyo'r cyfrifoldeb a phwerau'r CCS dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010 i Bennaeth Ymgynghoriaeth gyda'r hawl i ddirprwyo ymhellach fel sydd yn briodol.
3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Ymgynhoriaeth sefydlu cyfundrefn benderfynu ceisiadau yn unol a'r Deddfwriaeth ac Arweiniad Statudol
4. Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i addasu'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yma.

---

**Barn yr aelod lleol**

*Ni yw'n fater i aelod lleol.*

---

**Cyflwyniad**

Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLlD) 2010 yn gorchymyn y dylai systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy (SDCau). Mae Atodlen 3 DRhLlD 2010 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol fel Corff Cymeradwyo SDCau i gymeradwyo, mabwysiadu a chynnal systemau sy'n cyd-fynd ag adran 17 yr Atodlen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bydd gofynion Atodlen 3 yn dod yn weithredol yng Nghymru ar y 7fed Ionawr 2019.

Felly, o'r dyddiad yma, bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100m2 neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae siart llif sydd yn egluro'r broses ymhellach wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn gweithredu yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd gan y CCS yr hawl i godi ffi am gymeradwyo'r ceisiadau, gyda'r ffi yn cael ei bennu ar sail maint y datblygiad. Bydd y ffioedd yn gyson drwy Gymru gan ei bod wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau. Mi fydd y CCS hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn-gais, gyda'r ffi ar gyfer y gwasanaeth yma yn cael ei osod gan bob awdurdod lleol yn unigol, gad adlewyrchu'r drefn Cynllunio bresennol.

Mae'n bwysig nodi fod y drefn Gynllunio a'r drefn CCS yn ddwy drefn ar wahân gyda deddfwriaeth unigol. Wedi dweud hyn, fe fydd gofynion y naill yn dylanwadu ar y llall ac mae'n debygol y bydd rhaid i ddatblygwyr ystyried trefniadau draenio'r safle yn gynharach oherwydd y gofynion newydd. Bydd y neges yma yn cael ei bwysleisio gan y Cyngor drwy'r drefn cyn-gais.

Mae'r proses o gymeradwyo cais CCS yn dechnegol ag angen arbenigaeth yn y maes. Bydd rhaid i bob cais ddangos ei bod yn cwrdd â'r meini prawf fydd yn y safonau cenedlaethol er mwyn eu cymeradwyo. Bydd yn ddyletswydd i'r CCS ymgynghori ar y cais gydag ymgynghorwyr statudol yn unig. Yng Ngwynedd yr ymgynghorwyr statudol perthnasol fydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

Bydd ceisiadau yn cael eu cymeradwyo yn unol ag amodau. Tra'n ddibynnol ar faint a natur y cynllun, bydd yr amodau yn debygol o gynnwys yr angen am gyfres o ymchwiliadau yn ystod ag ar ôl gorffen y gwaith a bondiau adeiladau byddai'n cael ei ddal gan y CCS tra fo'r gwaith wedi ei gwblhau i'r safon ofynnol. Mae hefyd trefn apêl a gorfodaeth wedi ei sefydlu, sy'n debyg iawn i'r drefn Cynllunio bresennol.

Bydd dyletswydd ar y CCS i fabwysiadu systemau sy'n gwasanaethu mwy nag un tŷ, cyhyd a'i fod wedi ei adeiladu ac yn gweithredu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, gan gynnwys unrhyw amodau

cymeradwyaeth CCS. Fel rhan o gymeradwyo'r cais bydd angen sicrhau fod yna drefn cynnal a chadw mewn lle sydd wedi ei ariannu a'i ddiogelu drwy gytundeb cyfreithiol. Y ffordd mwyaf tebygol o sicrhau fod arian ar gael er mwyn cynnal a chadw unrhyw system a fabwysiedir gan y Cyngor yw drwy godi swm cymudol ar y datblygwr, yn debyg i'r hyn a wneir yn bresennol drwy fabwysiadu ffyrdd.

Mae Canllawiau'r Llywodraeth wedi cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad ar y 13eg Tachwedd sydd yn cadarnhau fod disgwyliad i'r datblygwyr ariannu cynnal a chadw y sustemau yn dilyn eu mabwysiadu gan awdurdodau lleol. Er fod y Canllawiau yn amlygu y gweithdrefnau posib ar gyfer sicrhau y cyfraniadau yma mae'n deg datgan fod gwaith pellach ei angen i adnabod yr union fframwaith briodol ar gyfer yr elfen yma. Mae'r Cyngor wedi codi'r mater yma gyda Llywodraeth Cymru. Gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol byddwn yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru ar yr agwedd yma.

Mae'r cyfrifoldeb dros faterion dwr a llifogydd yng Ngwynedd yn eistedd o fewn adran Ymgynghoriaeth. Mae'r cyfrifoldeb o ran y CCS ar hyn o bryd yn eistedd gyda'r Cabinet, ond y bwriad yw y bydd y cyfrifoldebau CCS yn cael eu gweithredu gan yr adran. Bydd hawl dirprwyedig gan swyddogion penodol Ymgynghoriaeth Gwynedd i weithredu'r gyfundrefn ar y ceisiadau ar ran y Cyngor.

Dylid nodi y bydd cyfrifoldeb o ran gorfodi diffyg cydymffurfiaeth hefyd yn gyfrifoldeb y CCS.

Mae creu'r CCS yn ofyn statudol newydd ar awdurdodau lleol, ond nid oes cyllid ychwanegol yn dod gan Lywodraeth Cymru. Mae asesiadau Llywodraeth Cymry wedi nodi y dylai'r Corff fod yn hunan cynhaliol yn yr hir dymor, gyda'r ffioedd sydd ynghlwm a'r ceisiadau yn talu'r costau rhedeg, mae copi or asesiad llawn wedi ei gynnwys fel Atodiad 2. Wrth edrych ar geisiadau Cynllunio hanesyddol, rydym yn amcangyfrif y bydd tua 300 o geisiadau i'r CSS yn flynyddol ag y bydd angen 3 aelod o staff llawn amser.

Mae yna fuddsoddiad sylweddol o ran amser staff ei angen er mwyn sefydlu'r corff, datblygu prosesau a chyfundrefnau newydd i wneud yn siŵr fod yr awdurdod mewn lle i dderbyn ceisiadau o fis Ionawr ymlaen.

Rydym yn amcangyfrif bydd y 300 o geisiadau yn creu incwm o £181,771 yn erbyn costau gweithredu'r corff o £179,197. Y bwriad yw recriwtio un aelod o staff llawn amser, cyflogi aelod staff dros dro ac ail strwythuro dyletswyddau staff presennol i wireddu'r angen. Mae'r ail strwythuro yn

gohirio toriad i gyllideb bresennol tan fu'r model ariannol wedi ei brofi (efallai ar ôl blwyddyn 1)

Rydym wedi cytuno gyda'r Tîm Rheoli i gael benthyciad ar gyfer y costau sefydlu (tua £87,000) adnodd dros dro gan ad-dalu'r swm hwnnw o'r incwm fydd yn deillio. Mae'r trydydd adnodd yn cael ei gyflogi yn seiliedig ar bwysau gwaith presennol YGC.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae asesu ceisiadau o'r fath yn faes arbenigol sydd angen profiad a hyfforddiant technegol perthnasol. Mae'r Cyngor yn gweithredu trefn debyg yn barod wrth asesu ceisiadau rheolaeth adeiladu a cheisiadau ar gyfer gwaith mewn cyrsiau dwr arferol. Disgwylir nifer sylweddol o geisiadau technegol iawn eu natur ac ystyrir fod yr argymhellion yn cyfarch y gofyn statudol o ran y broses benderfynu.

**Ystyriaethau perthnasol**

Byddai rhoi'r hawl i swyddogion wneud y penderfyniad yn hwyluso'r gallu i gwrdd â'r gofyn statudol i benderfynu ar geisiadau arferol o fewn 7 wythnos, a 11 wythnos ar gyfer ceisiadau sydd angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol. Mae'r trefniadau hyn yn gyson gyda'r trefniadau sydd ar hyn o bryd yn cael ei sefydlu mewn awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru

.

**Camau nesaf ac amserlen**

Mae'r drefn newydd yn weithredol o'r 7fed Ionawr 2019, ac felly mae gofyn statudol i'r gyfundrefn fod mewn lle erbyn y dyddiad yma.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

**Y Swyddog Monitro:**

Nodir fod rhan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn dod yn weithredol yng Nghymru ar y 7fed Ionawr 2019. Yn dilyn y dyddiad yma bydd cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer draeniau cynaliadwy. Cymeradwywyd y canllawiau statudol ar gfyer y drefn gan y Cynulliad yn ddiweddar. Fe gyferir at y gyfundrefn cynnal a chadw yn yr adroddiad a byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth er mwyn sefydlu mecanwaith priodol o ran y materion yma. Rwyf yn nodi fod yr adroddiad yn argymell dirprwyo'r gyfundrefn i'w gweinyddu drwy'r Gwasnaeth Ymgynghoriaeth er mwyn gweithredu fel Corff Cymeradwyo SDCau. Ystyrir fod hyn yn briodol er mwyn cyfarch y gofynnion technegol statudol y cyfeirir atynt uchod a bydd gweithrediad yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae gofyn cyfreithiol ar y Cyngor i sefydlu Corff Cymeradwyo SDCau erbyn 7 Ionawr 2019, sy'n golygu fod angen gwneud penderfyniad yn gynharach yn hytrach na'n hwyrach ar y drefn ddirprwyo fydd yn cael ei fabwysiadu o fewn y Cyngor i sefydlu'r cyfryw gorff. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r trefniadau a amlinellir yn y penderfyniad a geisir.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru (sy'n ymddangos yn yr Atodiad) yn dangos fod disgwyliad i Awdurdodau Lleol ddenu incwm net pan ddaw'r Rheoliadau newydd i rym (tra'n cydnabod fod costau sefydlu), a bydd Rheoliadau ar gyfer pennu ffioedd hefyd yn dod i rym ar 7 Ionawr 2019. Felly, er bydd llif incwm a gwariant yn ansefydlog ar y cychwyn, disgwylir i'r Corff Cymeradwyo fod yn hunan-gyllidol yn y tymor-hir. Yng nghyswllt hyn, rwyf yn nodi o'r adroddiad ac o sylwadau'r Swyddog Monitro fod gwaith trafod pellach gyda Llywodraeth Cymru yn angenrheidiol mewn perthynas â rhai agweddau. Byddaf yn

cadw cysylltiad agos gyda'r swyddogion perthnasol fel bod Cyllid yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn y rhagolygon o safbwynt incwm a gwariant y Corff Cymeradwyo, ac yn gweithredu'n briodol i ymateb i hynny

---

**Atodiadau**

*Atodiad 1 – Siart Llif y broses cymeradwyo SDC*
*Atodiad 2 - Memorandwm esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol*